



Department
for Transport

Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Porthladdoedd

Wedi'i gyflwyno i'r Senedd yn unol ag adran 9(8) o'r Ddeddf Gynllunio 2008

Gorffennaf 2026

Yr Adran Drafnidiaeth

Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Porthladdoedd

Wedi'i gyflwyno i'r Senedd yn unol ag adran 9(8) o'r Ddeddf Gynllunio 2008



© Hawlfraint y goron 2026

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn www.gov.uk/government/organisations/department-for-transport.

ISBN 978-1-5286-6433-2

E03594664 07/26

Wedi'i argraffu ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

Wedi'i argraffu yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

Cynnwys

Cynnwys	3
1. Cyflwyniad	6
Cefndir	6
Rôl y Datganiad Polisi Cenedlaethol hwn yn y system gynllunio	6
Hyd	8
Cwmpas tiriogaethol	8
Arfarniad o gynaliadwyedd	9
2. Polisi'r llywodraeth a'r angen am seilwaith newydd	10
Rôl hanfodol porthladdoedd yn economi'r DU	10
Symudiadau nwyddau a swmp	10
Cyflenwadau ynni	11
Twristiaeth a hamdden	12
Manteision economaidd ehangach	12
Polisi'r llywodraeth ar gyfer porthladdoedd	13
Asesiad y Llywodraeth o'r angen am seilwaith newydd	15
Rhagolygon galw	15
Lleoliad capasiti newydd	18
Cystadleuaeth	19
Porthladdoedd Rhydd	19
Llongau arfordirol	20
Gwydnwch	20
Rhyngwyneb â Datganiadau Polisi Cenedlaethol eraill	21
Casgliad	21
Polisi ar asesu'r angen am gapasiti ychwanegol	21
3. Egwyddorion asesu	23
Ystyriaethau allweddol	23
Ystyriaeth o fanteision ac effeithiau	24

Manteision	25
Effeithiau andwyol	25
Effeithiau economaidd-gymdeithasol	26
Effeithiau Masnachol a Chystadleuaeth	27
Dull cyffredinol o ymdrin ag effeithiau amgylcheddol ac Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol	28
Dewisiadau eraill	31
Enillion Net Bioamrywiaeth	33
Meini prawf ar gyfer dylunio da ar gyfer seilwaith porthladdoedd	34
Lliniaru newid hinsawdd	36
Addasu i newid hinsawdd	39
Iechyd a niwsans	42
Ystyriaethau diogelwch	43
4. Effeithiau generig	45
Bioamrywiaeth a chadwraeth ddaearegol	45
Safleoedd Rhyngwladol	47
Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)	47
Parthau Cadwraeth Morol ac Ardaloedd Morol Gwarchodedig lawn	47
Safleoedd Rhanbarthol a Lleol	48
Cynefinoedd anadnewyddadwy, gan gynnwys coetiroedd hynafol, coed hynafol a hen goed a choed a choetiroedd	48
Gwarchod rhywogaethau	49
Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	53
Carthu	55
Rheoli llygredd a chylfundrefnau rheoleiddio amgylcheddol eraill	57
Perygl llifogydd	59
Newid arfordirol	66
Effeithiau ar draffig a thrafnidiaeth	69
Rheoli gwastraff	75
Ansawdd dŵr ac adnoddau	77
Ansawdd aer ac allyriadau	79
Pŵer trydanol ar lan y môr	82
Llwch, arogl, golau artiffisial, mwg, stêm a phlâu pryfed	84
Sŵn a dirgryniad	86
Effeithiau tirwedd a gweledol	89
Yr amgylchedd hanesyddol	92
Defnydd tir a dŵr gan gynnwys mannau agored, seilwaith gwyrdd a'r Llain Las	97

1. Cyflwyniad

Cefndir

- 1.1 Drwy gydol hanes, mae porthladdoedd môr Prydain wedi datblygu, ffynnu a newid, gan gefnogi symudiad rhydd pobl, a'r fasnach mewn nwyddau sy'n sail i'n ffyniant cenedlaethol. Wrth i deithio a masnach newid dros amser, ac wrth i longau a'u cargo ddatblygu o ran maint, cymeriad a thechnoleg, felly mae natur a dosbarthiad porthladdoedd o amgylch ein harfordiroedd a'n hafonydd wedi newid, gan greu cyfleoedd newydd ar gyfer twf lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- 1.2 Mae llawer o'r newidiadau wedi bod yn anrhagweladwy. Ond mae rhai cysonion. Yr angen am harbyrau diogel, ag amddiffynfeydd adeiledig yn rhyngweithio â'r amgylchedd naturiol ac yn ei newid. Yr angen am fynediad di-rwystr, gyda dŵr yn ddigon dwfn i'r llongau mwyaf y disgwylir iddynt ddefnyddio'r porthladd sy'n gofyn am garthu ar wely'r môr. Y risgiau o sŵn, allyriadau a pheryglon diogelwch sy'n gysylltiedig â llwytho a dadlwytho cargo. A'r effeithiau ar ein rhwydweithiau trafniadaeth o symud nwyddau i borthladdoedd ac oddi yno ar y ffordd neu'r rheilffordd.
- 1.3 Mae'r system gynllunio yn allweddol i ddatblygiad porthladdoedd yn y dyfodol. Mae'r Datganiad Polisi Cenedlaethol (NPS) diwygiedig hwn yn diweddarau ac yn gwella'r NPS a ddynodwyd yn 2012, gan ddiweddarau ar gyfer newidiadau mewn amgylchiadau a datblygiadau mewn polisi, gan gynnig mwy o sicrwydd unwaith eto i'r rhai sy'n cynnig datblygiadau newydd ac i bobl sy'n dymuno gwneud sylwadau ar y cynigion hynny. Yn benodol, mae'n cefnogi blaenoriaethau'r Llywodraeth, yn enwedig ar gyfer twf ac ynni gwyrdd, fel y nodir isod.

Rôl y Datganiad Polisi Cenedlaethol hwn yn y system gynllunio

- 1.4 Mae'r Datganiad Polisi Cenedlaethol hwn yn nodi polisi'r Llywodraeth ar yr angen am seilwaith porthladdoedd newydd, gan ystyried lle presennol porthladdoedd yn yr economi genedlaethol, y dystiolaeth sydd ar gael ar y galw yn y dyfodol a'r opsiynau ar gyfer diwallu anghenion yn y dyfodol. Mae'n egluro i benderfynwyr cynllunio, ymgeiswyr ac eraill yr ymagwedd y dylent ei chymryd at gynigion, gan gynnwys y prif faterion y bydd angen mynd i'r afael â nhw, ym marn y Llywodraeth, i sicrhau bod datblygiad yn y dyfodol yn gwbl gynaliadwy a gwydn, yn ogystal â'r pwysau i'w roi i'r angen am seilwaith porthladdoedd newydd ac i'r effeithiau cadarnhaol a negyddol y

gallai eu dwyn. Mae'n pwysleisio bod porthladdoedd yn hanfodol i genhadaeth twf economaidd y Llywodraeth oherwydd dibyniaeth y DU ar fewnforion, ond bod ganddynt rôl bwysig hefyd wrth drawsnewid i economi werdd, a gwneud Prydain yn uwch-bŵer ynni gwyrdd.

- 1.5 Mae'r datganiad hwn yn rhan o'r system gynllunio a sefydlwyd o dan Ddeddf Cynllunio 2008 (PA08), ac mae'n darparu'r fframwaith ar gyfer penderfyniadau ar gynigion ar gyfer datblygu porthladdoedd newydd a hyrwyddir trwy geisiadau gorchymyn caniatâd datblygu (DCO).
- 1.6 Mae hefyd yn ystyriaeth bwysig a pherthnasol i'r Sefydliad Rheoli Morol (MMO), a sefydlwyd o dan Ddeddf Mynediad Morol ac Arfordirol 2009 (MCAA09), sy'n penderfynu ar agweddau eraill ar ddatblygu porthladdoedd, (Gorchmynion Harbwr a Thrwyddedau Morol, yn enwedig ar gyfer carthu), a gall fod yn berthnasol i awdurdodau cynllunio lleol, e.e. wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio sy'n gysylltiedig â phorthladdoedd o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae'n bwysig bod y system gynllunio yn gyffredinol yn ystyried polisi'r llywodraeth ar borthladdoedd lle bo'n berthnasol a/neu'n bwysig ac fel y nodir yma.
- 1.7 Mae'r NPS hwn yn gymwys, lle bynnag y bo'n berthnasol, i ddatblygiad cysylltiedig, megis cysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd, y ceisir caniatâd ar eu cyfer ochr yn ochr â chaniatâd ar gyfer y prif ddatblygiad. Dylid ystyried datblygiadau nad ydynt yn gysylltiedig â phorthladdoedd fesul achos, gan ddefnyddio dulliau asesu priodol sy'n gyson â'r Datganiad Polisi Cenedlaethol hwn a chanllawiau swyddogol cymwys.
- 1.8 Gall Datganiadau Polisi Cenedlaethol eraill, fel y Datganiad Polisi Cenedlaethol y Rhwydweithiau Cenedlaethol (NNNPS) a'r Datganiadau Polisi Ynni, gynnwys ystyriaethau perthnasol ar gyfer rhai penderfyniadau ar geisiadau porthladdoedd am ganiatâd datblygu. Os disgwylir effaith sylweddol ar y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol o ganlyniad i ddatblygiad y porthladd, dylai'r ymgeisydd ymgynghori â'r Datganiad Polisi Cenedlaethol. Efallai y bydd yr ymgeisydd yn gweld budd mewn cynnal asesiad gan ystyried y Datganiad Polisi Cenedlaethol. Dylai'r asesiad hwn nodi sut y byddai datblygiad y porthladd yn galluogi cyflawni amcanion y rhwydwaith ffyrdd cenedlaethol (fel y'u nodir yn adran 3 o'r Datganiad Polisi Cenedlaethol) a chaniatáu i Briffyrdd Cenedlaethol ymgymryd â'i rôl fel Cwmni Priffyrdd Strategol wrth weithredu, cynnal a gwella'r Rhwydwaith Ffyrdd Strategol.
- 1.9 O dan y PA08, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd ystyried unrhyw adroddiad effaith leol a gyflwynir gan awdurdod lleol perthnasol, unrhyw faterion perthnasol a ragnodir mewn rheoliadau, y Datganiad Polisi Morol (MPS)¹ ac unrhyw gynllun morol perthnasol (sy'n ceisio cymodi galwadau cystadleuol am ofod morol gan gynnwys anghenion amgylcheddol), ac unrhyw faterion eraill y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn eu hystyried yn bwysig ac yn berthnasol i'w benderfyniad.
- 1.10 Mae PA08 yn nodi'r trothwyon ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIPs) yn y sector porthladdoedd. O dan adran 24, bydd angen caniatâd datblygu ar gyfer ceisiadau am ganiatâd datblygu fel NSIPs os yw'r capasiti blynyddol cynyddrannol amcangyfrifedig yn fwy na:

¹ www.gov.uk/government/publications/uk-marine-policy-statement

- 500,000 teu² ar gyfer terfynfa gynwysyddion;
- 250,000 o symudiadau ar gyfer gyrru i mewn ac allan (ro-ro);
- 5 miliwn tonnall ar gyfer traffig arall (swmp a chyffredinol); neu
- swm pwysedig sy'n cyfateb i'r ffigurau hyn gyda'i gilydd.

1.11 Gallai'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd ddynodi cais gyda chapasiti islaw'r trothwy(on) perthnasol neu sy'n ymwneud â seilwaith porthladd nad yw wedi'i grybwyll yn y PA08, os yw'n ystyried bod y prosiect o arwyddocâd cenedlaethol (adran 35 PA08).

1.12 Pan fo'r cais yn cynnwys datblygiad sydd o'r math a ddisgrifir yn yr NPS hwn, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol benderfynu ar y cais yn unol â'r NPS hwn oni bai ei fod yn fodlon y byddai gwneud hynny:

- yn arwain at y DU yn torri ei rhwymedigaethau rhyngwladol;
- yn torri unrhyw ddyletswydd statudol;
- yn anghyfreithlon;
- yn arwain at effeithiau andwyol y datblygiad yn gorbwyso ei fanteision;
- yn groes i reoliadau ynghylch sut y dylid gwneud y penderfyniadau³.

1.13 Lle mae angen caniatâd datblygu ar gyfer seilwaith porthladdoedd nad yw o fath a ddisgrifir yn yr NPS hwn (e.e. oherwydd ei fod wedi'i gyfeirio i'r gyfundrefn gan gyfarwyddyd adran 35), rhaid penderfynu ar y cais yn unol â'r meini prawf gwneud penderfyniadau a nodir yn a.105 PA08.

Hyd

1.14 Bydd yr NPS diwygiedig yn parhau i fodoli nes iddo gael ei dynnu'n ôl, ei ddiwygio neu ei ddisodli.

Cwmpas tiriogaethol

1.15 Mae'r NPS hwn yn cwmpasu Lloegr a phorthladdoedd ymddiriedolaeth a gedwir yn ôl yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae'r categori olaf wedi'i gyfyngu i bob diben i Aberdaugleddau.

1.16 Mae gan Lywodraeth yr Alban gyfrifoldebau wedi'u datganoli dros borthladdoedd ac mae wedi datblygu ei pholisi porthladdoedd ei hun. Mae polisi porthladdoedd yng Ngogledd Iwerddon hefyd wedi'i ddatganoli. Mae deunydd ystadegol, gan gynnwys rhagolygon o draffig cludo nwyddau porthladdoedd, yn cwmpasu'r Alban a Gogledd Iwerddon, yn ogystal â Chymru a Lloegr, ac yn helpu llywio polisi porthladdoedd yno.

² teu: uned gyfwerth ag ugain troedfedd

³ a.104 Deddf Cynllunio 2008

Mae Ynysoedd y Sianel a'r Tiriogaethau Dibynnol yn gweithredu eu polisïau porthladdoedd eu hunain ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y rhagolygon.

- 1.17 Dylid darllen unrhyw gyfeiriad isod at y Deyrnas Unedig (DU) neu Brydain Fawr heb wneud niwed i awdurdod datganoledig Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru, Cynulliad Gogledd Iwerddon a'r Tiriogaethau Dibynnol mewn materion ynghylch porthladdoedd.

Arfarniad o gynaliadwyedd

- 1.18 Gellir dod o hyd i'r arfarniad o gynaliadwyedd (AoS) o'r polisi a nodir yn yr NPS hwn ar wefan yr Adran Drafnidiaeth (DfT). Mae hyn yn disgrifio dadansoddiad o ddewisiadau polisi amgen, gan gefnogi'r dull eang yn yr NPS, ac yn asesu sut mae'r polisïau a nodir yn yr NPS hwn yn ceisio sicrhau y bydd ceisiadau a ganiateir yn bodloni gofynion datblygu cynaliadwy. Mae'r AoS diwygiedig yn nodi effeithiau'r gwelliannau a gynhwysir yn y fersiwn derfynol o'r NPS hwn.
- 1.19 Mae'r AoS yn ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol i'r graddau y mae'n berthnasol i ddatganiad polisi o'r natur hon.
- 1.20 Mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) ar wahân i'r NPS hwn hefyd wedi'i gynnal, ond nid yw hyn yn atal yr angen am asesiad ar lefel prosiect unigol. Lle bo angen, bydd asesiad o'r fath yn gam hanfodol tuag at sicrhau cydymffurfiaeth pob cais â'r Rheoliadau Cynefinoedd.

2. Polisi'r llywodraeth a'r angen am seilwaith newydd

Rôl hanfodol porthladdoedd yn economi'r DU

- 2.1 O'r holl nwyddau rhyngwladol a fasnachwyd gyda'r DU yn 2024, cafodd 85%⁴ o'r fasnach nwyddau'r DU yn ôl pwysau ei symud ar y môr. Mae hyn yn cynnwys mewnforyn bwyd, ynni a nwyddau hanfodol eraill y DU, gyda DEFRA yn adrodd bod y DU yn mewnforyn tua 40% o'i bwyd.
- 2.2 Yn 2019, amcangyfrifwyd bod porthladdoedd y DU yn cyfrannu 30,000 o swyddi uniongyrchol a £2.2bn i'r economi (Gwerth Ychwanegol Gros — GVA)⁵.
- 2.3 Mae porthladdoedd y DU yn perfformio'n gryf o'i gymharu â chystadleuwyr Ewropeaidd. Yn 2023, y DU oedd yn trin y pumed swm mwyaf o nwyddau porthladdoedd, o flaen gwledydd fel yr Almaen, Gwlad Belg, a Ffrainc.
- 2.4 Mae porthladdoedd y DU yn cynnwys amrywiaeth o borthladdoedd cwmni, ymddiriedolaeth a bwrdeistrefol, pob un yn gweithredu ar egwyddorion masnachol, yn annibynnol ar y llywodraeth, ac i raddau helaeth heb gymhorthdal cyhoeddus. Mae'r sector porthladdoedd cwmni yn gweithredu 15 o'r 20 porthladd mwyaf yn ôl tunelldd a thua dwy ran o dair o draffig nwyddau porthladdoedd y DU. Mae llawer o'r tunelldd a drinnir wedi'i ganoli mewn nifer fach o borthladdoedd, gyda'r 15 porthladd uchaf yn cyfrif am bron i 80% o gyfanswm traffig y DU.
- 2.5 Mae porthladdoedd wedi'u diffinio gan yr Adran Busnes a Masnach fel diwydiant sylfaenol, sy'n hanfodol i hwyluso a hyrwyddo Cenhadaeth Twf y Llywodraeth.

Symudiadau nwyddau a swmp

- 2.6 Mae'r rhan fwyaf o nwyddau'n cael eu cludo mewn tryciau a threlars sy'n gyrru i mewn ac allan ('ro-ro'), neu mewn cynwysyddion mawr. Mae offer arbenigol mewn

⁴ Dadansoddiad DfT o ddata masnach CThEF yn *Port Freight Annual Statistics 2024*: www.gov.uk/government/statistics/port-freight-annual-statistics-2024/port-freight-annual-statistics-2024-overview-of-port-freight-statistics-and-useful-information. Mae traffig piblinellau wedi'i ailddosbarthu yn y cyfrifiad hwn.

⁵ Maritime UK

terfynellau yn cludo grawn a nwyddau sych a hylifau eraill ('llifau heb eu hunedu') o danceri i biblinellau ar y tir. Yn yr 20 mlynedd diwethaf, gostyngodd traffig cludo nwyddau trwy borthladdoedd y DU tua 18%, wedi'i ddominyddu gan ostyngiadau mewn nwyddau swmp traddodiadol fel glo ac olew crai. Yn 2023, ymdriniodd porthladdoedd yng Nghymru a Lloegr â 352.1 miliwn tonnallun o nwyddau, allan o gyfanswm o 434.9 miliwn tonnallun yn y DU, sy'n cynrychioli tua 95% o gyfanswm cyfaint masnach y DU a 75% o'i werth.

- 2.7 Ar gyfer economi ynys, mae dewisiadau amgen cyfyngedig ar gael i ddefnyddio cludiant ar y môr ar gyfer symud nwyddau a nwyddau swmp. Defnyddir cludo nwyddau yn yr awyr yn aml ar gyfer eitemau gwerth uchel a danfoniadau cyflym, ac mae gan Dwnnel y Sianel rôl sylweddol mewn cludo nwyddau. Ond mae'r dewisiadau amgen hyn wedi'u cyfyngu gan y meintiau y gellir eu cludo'n hyfyw mewn awyren, gan gapasiti'r cysylltiadau rheilffordd drwy'r Twannel ac, yn achos awyrennau, gan anafanteision cost ac amgylcheddol. O ganlyniad, bydd llongau yn parhau i fod yr unig ffordd effeithiol o symud y rhan fwyaf o nwyddau i mewn ac allan o'r DU, a bydd darparu digon o gapasiti porthladd môr yn parhau i fod yn elfen hanfodol wrth sicrhau twf cynaliadwy yn economi'r DU.

Cyflenwadau ynni

- 2.8 Mae gan borthladdoedd rôl hanfodol wrth fewnforio ac allforio cyflenwadau ynni, gan gynnwys olew, nwy naturiol hylifedig, biomas a nwyddau ynni arloesol fel amonia a hydrogen, wrth adeiladu a gwasanaethu gosodiadau ynni alltraeth ac wrth gefnogi terfynellau ar gyfer piblinellau olew a nwy. Mae anghenion trin ynni porthladdoedd, gan gynnwys ar gyfer storio tanwydd, wedi newid wrth i gymysgedd ein cyflenwadau ynni newid ac yn enwedig wrth i ynni adnewyddadwy chwarae rhan gynyddol bwysig fel ffynhonnell ynni. Mae cenhadaeth y Llywodraeth i wneud y DU yn uwch-bŵer ynni gwyrdd yn golygu y bydd pwysigrwydd rôl porthladdoedd yn cynyddu ymhellach fyth. Bydd sicrhau diogelwch cyflenwadau ynni trwy ein porthladdoedd yn ystyriaeth hanfodol, a bydd angen i borthladdoedd ymateb i newidiadau mewn gwahanol fathau o gyflenwadau ynni sydd eu hangen (ac i'r angen i gyfleusterau gefnogi datblygu a chynnal a chadw safleoedd adnewyddadwy alltraeth yn hyblyg) ac i newidiadau posibl ym mhatrwm daearyddol y galw am danwydd, gan gynnwys storio tanwyddau byncher newydd.
- 2.9 Mae'r Llywodraeth wedi gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer ehangu cynhyrchu gwynt alltraeth. Bydd cyfleusterau porthladd i gefnogi adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw tyrbinau gwynt alltraeth ac offer cysylltiedig yn hanfodol i wireddu'r uchelgeisiau hyn. Mae'n bwysig y dylai porthladdoedd y DU allu buddsoddi'n hyderus mewn cyfleusterau o'r fath, mewn pryd i ddiwallu anghenion darparwyr ffermydd gwynt. Ni ddylent fod dan anfantais o'u cymharu â phorthladdoedd tramor, oherwydd unrhyw oedi neu rwystr y gellir ei osgoi yn y system gynllunio.
- 2.10 Dylid caniatáu ar gyfer y ffaith y gall materion ehangach hefyd ohirio prosiectau, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i welededd piblinellau prosiectau, costau seilwaith uchel ymlaen llaw, technolegau ansafonol a ddefnyddir (e.e. is-strwythurau dur vs. concrit, maint tyrbinau gwynt), prinder llafur a chyfyngiadau ar y gadwyn gyflenwi.

- 2.11 Mae uchelgeisiau'r Llywodraeth yn cynnwys gosodiadau gwynt alltraeth arnofiol fel elfen sylweddol o'r targedau cyffredinol ar gyfer gwynt alltraeth yn gyffredinol. Ar gyfer defnyddio tyrbinau arnofiol, bydd angen dŵr dyfnach, capasiti codi trwm mwy a mwy o le gosod ar borthladdoedd. Bydd hyn yn gofyn am gyfleusterau porthladd newydd, pwrpasol.

Twristiaeth a hamdden

- 2.12 Mae porthladdoedd môr yn chwarae rhan bwysig yn y diwydiannau twristiaeth a hamdden, gan gefnogi llawer o wahanol fathau o weithgarwch economaidd a chymdeithasol, gan gynnwys llongau mordeithio i deithwyr, fferïau'r Sianel, cychod hwyliau a chychod bach.
- 2.13 Mae meysydd awyr y DU yn dominyddu trafndiaeth bersonol ryngwladol gyda 196 miliwn o deithwyr yn teithio ar hediadau rhyngwladol yn 2022 ac roedd 17 miliwn o deithiau teithwyr pellach trwy Dwnnel y Sianel⁶, ond mae teithwyr môr rhyngwladol yn parhau i gynrychioli cyfran sylweddol o'r cyfanswm, gyda 23 miliwn yn teithio i ac o borthladdoedd y DU yn 2023.⁷
- 2.14 Mae'r sector mordeithio yn dod â manteision economaidd i'r DU, yn enwedig cymunedau arfordirol, gan y gall llongau ddod â nifer fawr o deithwyr sy'n ymweld â'r ardaloedd hyn. Cyn y pandemig, roedd y diwydiant mordeithio yn un o'r sectorau twristiaeth a oedd yn tyfu gyflymaf ledled y byd gyda marchnad fordeithio'r DU wedi'i mesur fel un sy'n cyfrannu £9.4 biliwn yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol i economi'r DU, gan gefnogi 82,000 o swyddi yn 2017⁸. Ers y pandemig, mae'r diwydiant hwn eisoes wedi dangos arwyddion cryf o adferiad ac ailddechrau twf.

Manteision economaidd ehangach

- 2.15 Mae porthladdoedd yn parhau i chwarae rhan bwysig mewn economïau lleol a rhanbarthol, gan gefnogi ein ffyniant cenedlaethol ymhellach. Yn ogystal â thua 30,000 o bobl a amcangyfrifwyd yn 2019 i fod yn gweithio'n uniongyrchol i borthladdoedd a thua 61,000 mewn llongau yn y DU, amcangyfrifwyd bod cyflogaeth yn sector morwrol y DU yn ei gyfanrwydd yn 227,000⁹. Mae rôl y porthladdoedd yn gwbl ganolog i lif llyfn masnach ryngwladol y mae'r genedl yn dibynnu arni.
- 2.16 Drwy ddod â grwpiau o fusnesau cysylltiedig ynghyd o fewn ac o amgylch yr ystâd, mae porthladdoedd hefyd yn creu effaith clwstwr, sy'n cefnogi twf economaidd drwy annog arloesi a chreu a datblygu cyfleoedd busnes newydd. A bydd buddsoddi newydd, sy'n ymgorffori'r dechnoleg ddiweddaraf ac yn diwallu anghenion cyfredol, yn tueddu i gynyddu cynhyrchiant cyffredinol y sector.

⁶ Ffynhonnell: Teithwyr môr byr rhyngwladol y DU a Thwnnel y Sianel, 2011.

⁷ Ffynhonnell: Ystadegau Cludo Nwyddau Porthladd 2010.

⁸ Ffynhonnell: Maritime UK *State of the Maritime Nation 2019*.

⁹ Ffynhonnell: Maritime UK.

Polisi'r Llywodraeth ar gyfer porthladdoedd

2.17 Polisi'r Llywodraeth, o ystyried rôl hanfodol porthladdoedd yn y gadwyn gyflenwi ehangach a'r rhwydwaith cludo nwyddau cenedlaethol, yw:

- annog datblygu porthladdoedd cynaliadwy i alluogi twf hirdymor a ragwelir yn nifer mewnforion ac allforion ar y môr gyda diwydiant porthladdoedd cystadleuol ac effeithlon sy'n gallu diwallu anghenion mewnforwyr ac allforwyr yn gost-effeithiol ac yn amserol, gan gyfrannu felly at dwf a ffyniant economaidd hirdymor;
- caniatáu i'r diwydiant porthladdoedd neu ddatblygwyr porthladdoedd sy'n gweithredu o fewn amgylchedd marchnad rydd wneud dyfarniadau ynghylch pryd a ble y gellid cynnig datblygiadau newydd ar sail ffactorau masnachol; a
- sicrhau bod pob datblygiad arfaethedig yn bodloni'r cyfyngiadau a'r amcanion cyfreithiol, amgylcheddol a chymdeithasol perthnasol, fel y nodir mewn rheoliadau cenedlaethol gan gynnwys y rhai sy'n gweithredu rhwymedigaethau cytuniadau rhyngwladol y DU.
- Polisi'r Llywodraeth, er mwyn sicrhau datblygu cynaliadwy, yw y bydd seilwaith porthladdoedd newydd ac uwchraddiadau mawr i gyfleusterau presennol¹⁰.
- cyfrannu at gyflogaeth, adfywio a datblygu lleol;
- sicrhau cystadleuaeth a diogelwch cyflenwad;
- darparu'r cyfle, lle bo angen, i ddarparu ar gyfer defnyddiau a gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag Amddiffyn;
- cadw, amddiffyn a gwella bioamrywiaeth forol, arfordirol a thirol, yn gyson â'r hierarchaeth lliniaru;
- lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â phorthladdoedd a chyfrannu at bolisi allyriadau ehangach yn y rhwydwaith trafnidiaeth;
- cael ei gynllunio'n dda, yn swyddogaethol ac yn amgylcheddol;
- cael ei addasu i effeithiau newid hinsawdd;
- lleihau'r defnydd o dir maes glas;
- darparu safonau uchel o ddiogelwch i'r amgylchedd naturiol;
- sicrhau bod mynediad at asedau treftadaeth a'u cyflwr yn cael eu cynnal a'u gwella lle bo angen;

¹⁰ Ddim mewn unrhyw drefn flaenoriaeth.

- sicrhau bod anghenion cadwyni cyflenwi nwyddau a logisteg, gan gynnwys parcio cerbydau nwyddau trwm, yn cael eu cefnogi; a
- gwella cysylltedd a mynediad i borthladdoedd ac i'r swyddi, y gwasanaethau a'r rhwydweithiau cymdeithasol y maent yn eu creu, gan gynnwys ar gyfer y rhai mwyaf difreintiedig;
- rheoli'r risgiau i ac o berygl llifogydd a newid arfordirol;
- amddiffyn cymunedau rhag llygredd, yn enwedig y rhai sydd fwyaf agored i'w effeithiau.

2.18 Lle bynnag y bo modd, dylai datblygiad porthladd:

- fod yn beiriant ar gyfer twf economaidd;
- cefnogi trafnidiaeth gynaliadwy drwy gynnig cysylltiadau trafnidiaeth mwy effeithlon, cysylltedd gwell, cyfleoedd ar gyfer newid moddol, pontio i danwydd carbon isel a sero amgen gyda chostau allanol is;
- cefnogi datblygu cynaliadwy drwy ddarparu capasiti ychwanegol ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy;
- annog defnydd effeithlon o dir; ac
- er mwyn cyflawni'r canlyniadau hyn, efallai y bydd y porthladd yn gweld gwerth mewn ymgymryd ag uwchgynllun.

2.19 Mae'r polisïau sylfaenol hyn yn galluogi'r Llywodraeth i gyflawni ei rhwymedigaethau allanol ac, ar yr un pryd, yn adlewyrchu'r ffaith bod y diwydiant porthladdoedd wedi parhau i brofi ei fod yn gallu ymateb i'r galw yn fasnachol, er gwaethaf cyfnod o gythrwfl parhaus ym mhatrymau galw am nwyddau a tharfu ar gadwyni cyflenwi.

2.20 Ar ben hynny, mae cynllunio seilwaith effeithiol yn helpu gwella ansawdd canlyniadau na fyddai efallai'n cael ei wireddu trwy ddibynnu ar rymoedd y farchnad yn unig. Er mwyn sicrhau cynllunio seilwaith effeithiol, gall porthladdoedd elwa o ymgymryd ag uwchgynllun a'i gynnal, yn enwedig os ydynt yn borthladd o faint sylweddol neu'n cynllunio newid trawsnewidiol.

2.21 Bwriad y polisïau sylfaenol a grybwyllir uchod yw cefnogi'r nod sylfaenol o wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol trwy ddatblygu cynaliadwy ac annog twf economaidd ledled y wlad. Maent yn cydnabod y cyfraniad hanfodol i'r economi genedlaethol y mae masnach ryngwladol a domestig yn ei wneud. Cefnogir twf economaidd gan fasnach ond rhaid iddo fod yn gydnaws â diogelu'r amgylchedd, a gwelliant cymdeithasol lle bynnag y bo modd. Nod y polisïau a nodir uchod yw sicrhau bod datblygiad porthladdoedd yn y dyfodol yn cefnogi'r holl amcanion hyn

2.22 Yn ogystal â blaenoriaeth y Llywodraeth o gefnogi twf economaidd, mae'r datganiad hwn yn ystyried yn llawn bolisïau ehangach y Llywodraeth sy'n ymwneud â newid hinsawdd, drwy liniaru ac addasu. Mae'n gwneud hynny drwy gydnabod y cyfraniad y gall datblygiadau porthladdoedd ei wneud drwy ddylunio amgylcheddol da a thrwy eu safle yn y gadwyn logisteg gyffredinol. Bydd llongau rhyngwladol a domestig a

thrafnidiaeth fewndirol yn destun polisiâu a mesurau eraill, gan fynd i'r afael â'r materion yn fwy uniongyrchol na phenderfyniadau cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd. Mae paragraffau 3.73 ymlaen yn trafod lliniaru effeithiau o ddatblygu porthladdoedd, tra bod paragraffau 3.90 ymlaen yn mynd i'r afael ag addasu.

- 2.23 Mae pwysigrwydd cyflawni dylunio da wrth ddatblygu porthladdoedd wedi'i danlinellu mewn gwahanol bwyntiau yn y datganiad, gan gyfeirio at wahanol fathau o effeithiau a drafodir yn adran 4. Mae dylunio da yn hanfodol i osgoi, lliniaru neu wneud iawn am effeithiau andwyol datblygu, yn enwedig diogelwch ac amgylcheddol, yn ogystal â gwneud y defnydd gorau o'r tir sydd ar gael. Dylai ystyriaethau esthetig fod yn israddol, ond dylid rhoi pwysau iddynt lle nad ydynt yn gwrthdaro ag anghenion gweithredol, diogelwch ac amgylcheddol ehangach. Bydd prosiectau a gwmpesir gan y Datganiad Polisi Cenedlaethol yn cyflwyno heriau dylunio gwahanol iawn o ran eu heffeithiau gweledol penodol a'r angen i ymgorffori ystyriaethau peirianeg, diogelwch a gweithredol.

Asesiad y Llywodraeth o'r angen am seilwaith newydd

- 2.24 Mae cyfanswm yr angen am seilwaith porthladdoedd yn dibynnu nid yn unig ar y galw cyffredinol am gapasiti porthladdoedd ond hefyd ar yr angen i gadw'r hyblygrwydd sy'n sicrhau bod capasiti porthladdoedd wedi'i leoli lle mae ei angen, gan gynnwys mewn ymateb i unrhyw newidiadau mewn rhwydweithiau dosbarthu mewndirol a phatrymau galwadau llongau a all ddigwydd, ac ar yr angen i sicrhau cystadleuaeth effeithiol a gwydnwch mewn gweithrediadau porthladdoedd, yn ogystal â phwysigrwydd cynyddol ynni 'gwyrdd' ac ynni adnewyddadwy. Ystyrir y ffactorau hyn ymhellach isod.

Rhagolygon galw

- 2.25 Dros amser ac er gwaethaf dirwasgiadau economaidd dros dro, gellir disgwyl mwy o fasnach mewn nwyddau ac, i raddau llai, mewn cynwyddau, fel canlyniad uniongyrchol i bolisiâu'r Llywodraeth i gefnogi twf economaidd mewn cydymdeimlad â'r amgylchedd, ac i gyflawni ffyniant cynyddol. Gyda 95% o'r holl nwyddau i mewn ac allan o'r DU yn symud ar y môr a dewisiadau amgen cyfyngedig iawn, bydd angen i'r rhan fwyaf o'r cynnydd hwn symud trwy borthladdoedd o amgylch arfordir y Deyrnas Unedig.


- 2.26 Cyhoeddwyd rhagolygon o'r galw am gapasiti porthladdoedd yn y cyfnod hyd at 2050 gan yr Adran Drafnidiaeth yn 2025 (Ffigur 1). Awgrymodd y rhagolygon canolog ledled Prydain Fawr gynnydd cyffredinol erbyn 2050 dros sylfaen 2023¹¹ o 8%, wedi'i ddadansoddi fel a ganlyn yn ôl modd ymddangosiad:

- 37% mewn cynwysyddion, o 61M i 83M tonnelli (heb gynnwys tawslwytho);
- 70% mewn traffig ro-ro, o 91M i 155M tonnelli;
- 62% mewn traffig swmp sych, o 84M i 136M tonnelli; a

¹¹ Ar gael ar y wefan gov.uk.


- gostyngiad o 63% mewn traffig swmp hylif, o 169M i 62M tunnell.

Ffigur 1. Cyfanswm tunelledd nwyddau porthladdoedd, 2000-2050.



English	Welsh
Major port freight traffic (million tonnes)	Traffig cludo nwyddau porthladdoedd mawr (miliwn tunnell)
General cargo	Cargo cyffredinol
Dry bulk	Swmp sych
Liquid bulk	Swmp hylif
Unitised freight	Nwyddau wedi'u hunedu

Ffigur 2: Nwyddau Porthladd LoLo (mil o teu¹²)



English	Welsh
Containers/Lo-Lo	Cynhwysyddion/Lo-Lo

¹² teu: Uned gyfwerth ag ugain troedfedd, y mesur safonol o gapasiti cynhwysyddion. Mae tua dwy ran o dair o gynhwysyddion yn 40 troedfedd o hyd, ac fe'u dosbarthir fel 2 teu yr un. Rhagwelir y bydd cynnydd mewn tunelledd cynhwysyddion dros y cyfnod rhwng 40,000 a 94,000 tunnell (136%).

(million TEU)	(miliwn TEU)
Historical	Hanesyddol
Central	Canolog
Low	Isel
High	Uchel

- 2.27 Yn ogystal, mae'r DU yn arweinydd byd-eang ar gyfer ynni gwynt ar y môr gyda thua 15GW o gapasiti gweithredol. Mae ynni gwynt ar y môr yn elfen allweddol o gyflawni pŵer glân erbyn 2030, sicrhau ynni cartref, denu buddsoddiad i'r DU a chreu swyddi o ansawdd uchel. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i gynyddu'r defnydd o ynni gwynt ar y môr yn sylfaenol fel rhan graidd o'n cenhadaeth i wneud Prydain yn uwch-bŵer ynni glân, gan ddarparu pŵer glân erbyn 2030 a chyflymu i sero net. Er mwyn cefnogi buddsoddi cynyddol yn y sector ynni adnewyddadwy ymhellach, mae'r Llywodraeth yn sefydlu Great British Energy. Ei genhadaeth yw gyrru defnydd ynni glân, gan weithio gyda'r sector preifat i annog mwy o fuddsoddi mewn ynni glân ac adnewyddadwy, gan gynnwys ynni gwynt ar y môr, a hydrogen fel tanwydd.
- 2.28 Mae gweithgynhyrchu a chydodod offer ar raddfa fawr i wasanaethu'r sector ynni ar y môr o fewn safleoedd porthladdoedd yn y DU yn debygol o weld cynnydd sylweddol yn y galw o ganlyniad. Bydd cynnydd mawr hefyd yn y galw am gapasiti porthladdoedd sydd ei angen i ddarparu cyfleusterau gosod, gweithredu a chynnal a chadw ar gyfer y raddfa hon o ddefnydd.
- 2.29 O bryd i'w gilydd, gall y Llywodraeth gomisiynu rhagolygon galw newydd am nwyddau mewn porthladdoedd i'w cyhoeddi ar ei rhan. Yna byddai'r rhagolygon newydd hyn yn disodli rhagolygon 2025 yr Adran Drafnidiaeth, a gall y sylwadau yn y paragraffau blaenorol fod yn destun rhywfaint o newid deongliadol yng ngoleuni hynny.
- 2.30 Bydd pwrpas y rhagolygon cenedlaethol, oni nodir yn benodol fel arall fel rhan o adolygiad pellach o'r NPS o dan adran 6 o'r Ddeddf, yn parhau i fod i helpu gosod cyd-destun yr angen capasiti cenedlaethol cyffredinol yn unig, ochr yn ochr ag ystyriaethau cystadleuaeth a chydnerthedd fel y nodir isod.
- 2.31 Mae sawl datblygiad porthladd cynwysyddion yn cadw caniatâd estynedig a fyddai, pe baent yn cael eu cwblhau fel y cynlluniwyd, yn darparu trwybwn cynwysyddion ychwanegol sylweddol:
- Bathside Bay (Harwich): byddai caniatâd a roddwyd ym mis Mawrth 2006 ac a estynnwyd wedi hynny yn darparu capasiti ar gyfer tua 1.7 miliwn teu y flwyddyn, er na ddisgwylir i'r datblygiad hwn fynd rhagddo am rai blynyddoedd;
 - Porth Llundain: byddai cwblhau'r holl angorfeydd a ddarparwyd ar eu cyfer yn y caniatâd a roddwyd ym mis Mehefin 2007 ac a estynnwyd wedi hynny yn caniatáu capasiti cyfan yn y Porthladd ar gyfer tua 3.5 miliwn teu y flwyddyn;
 - Teesport: byddai caniatâd a roddwyd ym mis Chwefror 2008 ac a estynnwyd wedi hynny, pe bai'n cael ei adeiladu, yn darparu capasiti ar gyfer 1.5 miliwn teu pellach;

- Bryste: byddai caniatâd a roddwyd ym mis Medi 2010 ac a estynnwyd wedi hynny, pe bai'n cael ei adeiladu, yn caniatáu tua 1.5 miliwn teu pellach.
- 2.32 Pe bai'r holl ddatblygiadau uchod yn cael eu hadeiladu, byddai cyfanswm y capasiti cynwysyddion yn fras yn unol â'r rhagolygon cyn y dirwasgiad ar gyfer y galw dros yr 20 mlynedd nesaf neu fwy. Fodd bynnag, bydd y graddau, a'r cyflymder, y mae'r datblygiadau hyn yn mynd rhagddynt mewn gwirionedd yn dibynnu ar farn fasnachol y datblygwyr ar y pryd. Felly, efallai y bydd cyfleoedd i ddatblygwyr eraill gyflwyno cynigion ar gyfer datblygiadau amgen neu ychwanegol sy'n bodloni'r galw nad yw'r datblygiadau hyn a ganiatawyd yn ei fodloni, yn ogystal â gofyniad parhaus am gapasiti cynwysyddion newydd pellach i fodloni'r twf tymor hwy a ragwelir. Felly, gellir darparu'r capasiti sydd ei angen i ddarparu ar gyfer cystadleuaeth, arloesi, hyblygrwydd a gwydnwch gan y farchnad ac mae'n debygol o fod yn fwy na'r hyn a allai fod yn awgrymedig gan gydgasgliad syml o alw yn genedlaethol.
- 2.33 Fel y nodwyd yn gynharach, bydd y galw am gapasiti porthladd i wasanaethu gweithgynhyrchu, gweithredu a chynnal a chadw ffermydd gwynt ar y môr yn sylweddol, yn enwedig yn y tymor byr i gefnogi datblygiadau gweithredol ar y môr. Oherwydd targedau ynni adnewyddadwy'r Llywodraeth ac yng ngoleuni'r polisiau a nodir yn yr NPS Ynni Adnewyddadwy (EN-3), mae buddiant cyhoeddus cryf mewn galluogi porthladdoedd i wasanaethu'r datblygiadau hyn. Gall manteision o ddatblygiadau o'r fath gynnwys manteision cymdeithasol ac economaidd o ddenu busnesau i'r DU a fyddai fel arall yn cael eu lleoli dramor, yn ogystal ag osgoi cludo llwythi annormal ar y ffordd.
- 2.34 Polisi'r Llywodraeth yw (a bydd yn parhau felly yng nghyd-destun unrhyw ragolygon newydd) y dylai pob porthladd gymryd ei safbwynt masnachol ei hun a'i risgiau ei hun ar ei ragolygon traffig penodol.

Lleoliad capasiti newydd

- 2.35 Rhaid i'r capasiti fod yn y lle iawn os yw am wasanaethu anghenion marchnadoedd mewnforio ac allforio yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae lleoliad a chapasiti porthladdoedd yn Lloegr wedi newid dros amser, mewn ymateb i newidiadau mewn marchnadoedd byd-eang, ym maint a natur llongau, ac yn y rhwydweithiau trafndiaeth sy'n eu cefnogi. Mae cymhellion masnachol mewnol i wneud defnydd effeithlon a hyblyg o ystadau porthladdoedd presennol.
- 2.36 Mae'r terfynellau cynwysyddion a ro-ro mwyaf yn y De-ddwyrain, tra bod arfordir y gorllewin wedi bod yn y sefyllfa orau i ddiwallu anghenion traffig trawsatlantig a rhai lwerddon yn naturiol. Mae caniatâd ar gyfer datblygiadau cynwysyddion wedi bod mewn neu ger porthladdoedd dŵr dwfn yn y prif leoliadau arfordirol ac aberol. Ond nid yw'n bosibl rhagweld cyfleoedd masnachol yn y dyfodol. Gall llwybrau llongau a thechnolegau newydd ddod i'r amlwg. Gall anghenion partneriaid masnachu newid wrth i'w hamgylchiadau economaidd ddatblygu.
- 2.37 Polisi'r Llywodraeth yw annog darparu capasiti mewn ystod eang o gyfleusterau a lleoliadau, gan gynnwys gwella cyfleusterau presennol, er mwyn darparu'r hyblygrwydd i gyd-fynd â gofynion newidiol y farchnad, o bosibl gyda thraffig yn

symud o borthladdoedd presennol i gyfleusterau newydd gan gynhyrchu capasiti dros ben:

- 2.38 Nid yw'n bolisi'r llywodraeth i bennu ble y dylai datblygiad porthladdoedd ddigwydd. Rhaid i ddatblygiad porthladdoedd ymateb i ofynion masnachol newidiol, ac mae'r Llywodraeth yn ystyried mai'r farchnad yw'r mecanwaith gorau ar gyfer gwneud hyn yn gywir, gyda datblygwyr yn cyflwyno ceisiadau ar gyfer datblygiadau porthladdoedd lle maent yn eu hystyried yn fasnachol hyfyw.
- 2.39 Felly nid yw rhagolygon galw'r Adran Drafnidiaeth yn ceisio rhagweld y lleoliadau lle byddai galw yn amlygu, yn rhannol oherwydd bod hyn yn dibynnu ar newidiadau yn y farchnad, sy'n anodd eu rhagweld nawr.

Cystadleuaeth

- 2.40 Mae porthladdoedd y DU yn cystadlu â'i gilydd, yn ogystal â chymdogion yn Ewrop gyfandirol am rai mathau o draffig. Mae hyn yn cynnwys fel prif gyrchfannau ar gyfer llongau pellter hir, fel arosiadau i longau sy'n gwneud teithiau byrrach i Ewrop ac oddi yno ar hyd arfordiroedd y DU, ac fel canolfannau ar gyfer terfynellau a seilwaith cysylltiedig.
- 2.41 Polisi'r llywodraeth yw annog cystadleuaeth o'r fath. Mae cystadleuaeth yn gyrru effeithlonrwydd ac yn gostwng costau i ddiwydiant a defnyddwyr, gan gyfrannu felly at gystadleurwydd cyffredinol economi'r DU.
- 2.42 Mae cystadleuaeth effeithiol angen digon o gapasiti sbâr i sicrhau dewisiadau go iawn i ddefnyddwyr porthladdoedd. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i borthladdoedd weithredu ar lefelau effeithlon, nad yw'r un peth â gweithredu ar gapasiti ffisegol llawn. Mae'r galw'n amrywio'n dymhorol, yn wythnosol ac yn ôl amser y dydd, ac mae angen rhywfaint o ryddid mewn capasiti ffisegol i ddarparu ar gyfer amrywiadau o'r fath. Mae'r ffurf fwyaf effeithlon o weithredu hefyd yn dibynnu ar leoliad – cyfluniad, argaeledd a chost tir – ac argaeledd a chost llafur.
- 2.43 Am y rhesymau hyn, polisi'r llywodraeth yw annog cyfanswm capasiti porthladdoedd mewn unrhyw sector i ragori ar y galw cyffredinol a ragwelir os yw'r sector porthladdoedd am aros yn gystadleuol ac yn wydn.
- 2.44 Mae'r Llywodraeth yn credu mai'r diwydiant porthladdoedd a datblygwyr porthladdoedd sydd yn y sefyllfa orau i asesu eu gallu i gael busnes newydd a lefel unrhyw gapasiti newydd a fydd yn fasnachol hyfyw, yn amodol ar ddatblygwyr yn bodloni gwneuthurwyr penderfyniadau bod effeithiau tebygol unrhyw ddatblygiad arfaethedig wedi'u hasesu a'u datrys.

Porthladdoedd Rhydd

- 2.45 Mae amrywiaeth o Borthladdoedd Rhydd wedi'u cymeradwyo yn Lloegr, wedi'u hymgorffori mewn set ehangach o Barthau Strategaeth Ddiwydiannol, i hyrwyddo adfywio a chreu swyddi; i weithredu fel hybiau cenedlaethol ar gyfer masnach a buddsoddi byd-eang; ac i greu mannau poeth ar gyfer arloesi. Ym mis Rhagfyr 2023, cyhoeddodd y Llywodraeth ar y pryd ei Map Ffordd Cyflawni Porthladdoedd Rhydd.

Ailadroddodd hyn bwysigrwydd prosiectau gwynt ar y môr i Borthladdoedd Rhydd a nododd yr angen i "ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o'r rhwystrau i fuddsoddi mewn gwynt ar y môr a nodi atebion posibl i'w goresgyn". Ym mis Mehefin 2025, cyhoeddwyd safle Porthladdoedd Rhydd o fewn Parthau Strategaeth Ddiwydiannol. Er y bydd llawer o'r buddsoddi yn y dyfodol mewn cyfleusterau Porthladdoedd Rhydd yn digwydd i mewn i'r tir i ffwrdd o'r harbyrau eu hunain sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o Borthladdoedd Rhydd, lle mae angen buddsoddi mewn cyfleusterau porthladdoedd, mae'n arbennig o bwysig rhoi pwyslais mawr ar y manteision cenedlaethol a ddisgwylir, ac i'r angen i hwyluso datblygu Porthladdoedd Rhydd ehangach.

Llongau arfordirol

2.46 Gall porthladdoedd wneud cyfraniad gwerthfawr at lai o dagfeydd ac i'r amgylchedd, yn ogystal ag elw masnachol, drwy hwyluso llongau arfordirol yn lle cludo nwyddau mewndirol (yn enwedig trwy gludo nwyddau ar y ffordd) ar gyfer gwahanol gynnyddau. Gall hyn olygu llai o allyriadau llygryddion fesul tunnelli-filltir, gyda'r allyriadau hynny, a sŵn, ar yr un pryd yn cael llawer llai o effaith ar bobl sy'n agos at y llwybrau trafnidiaeth. Disgwylir i'r defnydd o longau arfordirol dyfu, a disgwylir i ddatblygwyr ddarparu cyfleusterau addas ar sail fasnachol, unwaith eto yn amodol ar ddelio'n briodol ag effeithiau.

Gwydnwch

- 2.47 Mae capasiti sbâr hefyd yn helpu sicrhau gwydnwch seilwaith cenedlaethol. Daeth profiad yn ystod pandemig Covid-19, yn ogystal â pharatoadau ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd, â'r angen hwn i'r amlwg, yn enwedig yn y sector ro-ro.
- 2.48 Mae angen capasiti porthladdoedd mewn amrywiol leoliadau ac sy'n cwmpasu ystod o gyfleusterau cargo a thrin, er mwyn galluogi'r sector i ddiwallu cyfnodau brig tymor byr mewn galw, effaith amodau tywydd garw, damweiniau, gweithredoedd aflonyddgar bwriadol ac anawsterau gweithredol eraill, heb achosi aflonyddwch economaidd trwy rwystrau i lif mewnforion ac allforion.
- 2.49 Yn benodol, mae anghenion capasiti yn cwmpasu parcio cerbydau nwyddau trwm a chyfleusterau cysylltiedig, ar ac oddi ar ystadau porthladdoedd, a all yn ei dro gyfrannu at wydnwch y gadwyn gyflenwi yn fwy cyffredinol a'r gallu i addasu i ddigwyddiadau byd-eang. Gall cysylltedd cryfach rhwng rheilffordd a phorthladdoedd hefyd wella gwydnwch mewn cadwyni cyflenwi perthnasol.
- 2.50 Mewn traffig llwyth-uned, gall capasiti terfynellau cynwysyddion gynnig gwydnwch i aflonyddwch gwasanaethau ro-ro, ac i'r gwrthwyneb, ar yr amod bod perchnogion cargo a chludwyr yn datblygu eu gallu eu hunain i newid moddau ymddangosiad yn hyblyg. Gall datblygu cyfleusterau newydd o'r ddau fath weithredu fel catalydd yn hyn o beth, gan ddangos i gludwyr ei bod yn werth cynllunio'n hyblyg ar gyfer hapddigwyddiadau.
- 2.51 Nodir yma fod Shuttle Twnnel y Sianel hefyd yn darparu capasiti hanfodol ar gyfer traffig sy'n cyfateb i ro-ro, ac i'r gwrthwyneb dylai capasiti porthladd barhau i ddarparu cynlluniau wrth gefn ar gyfer tarfu ar wasanaethau'r Twnnel.

- 2.52 O ystyried y nifer fawr o ffactorau dan sylw, mae'r Llywodraeth yn credu mai fel sgil-gynnyrch sector porthladdoedd cystadleuol y darperir gwydnwch yn fwyaf effeithiol, ac yn tanlinellu'r gofyniad i farn fasnachol ymgeiswyr, wrth gynnig capasiti a fydd yn darparu argyfyngau yn ogystal â'i ddibenion busnes-fel-arfer, gael ei derbyn.

Rhyngwyneb â Datganiadau Polisi Cenedlaethol eraill

- 2.53 Mae natur porthladdoedd, fel nodau mewn rhwydweithiau logisteg rhyngwladol a domestig, yn golygu bod eu datblygu yn cysylltu'n agos â mathau eraill o ddatblygiadau mawr a gwmpesir gan Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol, gan gynnwys yn enwedig y rhai ar gyfer Ynni ac ar gyfer Rhwydweithiau Cenedlaethol.
- 2.54 Yng nghyd-destun ynni adnewyddadwy, tynnir sylw'n arbennig at y rôl y bydd porthladdoedd yn ei chwarae wrth wasanaethu adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw cyfleusterau alltraeth, ac at yr angen am gysylltiadau cebl i osgoi peryglu mordwyo, gan gynnwys porthladdoedd eu hunain, angorfeydd, a gorsafoedd peilot
- 2.55 Tynnir sylw'n arbennig at ganllawiau ar fordwyo yn yr NPS ar gyfer Seilwaith Ynni Adnewyddadwy (EN-3), er enghraifft ym mharagraffau 2.8.178 ymlaen. Mae hyn yn nodi y dylid "cynllunio datblygiad alltraeth o'r camau cynharaf i gydnabod pwysigrwydd hanfodol llongau i'r economi, masnach a thwf, a chaniatáu i ffermydd gwynt alltraeth, trosglwyddo alltraeth, a mordwyo gydfodoli'n llwyddiannus, gan barchu hawliau teithiau diniwed o dan gonfensiynau rhyngwladol yn llawn".

Casgliad

- 2.56 Yn erbyn y cefndir hwn, mae'r Llywodraeth yn credu bod angen dirfawr am gapasiti porthladdoedd ychwanegol sylweddol dros y 30 mlynedd nesaf, i'w ddiwallu gan gyfuniad o ddatblygiadau sydd eisoes wedi'i ganiatáu a datblygiadau nad yw ceisiadau wedi'u derbyn eto.
- 2.57 Byddai anwybyddu'r posibilrwydd o ddarparu capasiti ychwanegol ar gyfer symud nwyddau trwy ddatblygu porthladdoedd newydd yn golygu derbyn cyfyngiadau y gellir eu hosgoi ar dwf economaidd ac ar bris, dewis ac argaeledd nwyddau a fewnforir i'r DU ac sydd ar gael i ddefnyddwyr. Byddai hefyd yn cyfyngu ar y manteision economaidd lleol a rhanbarthol y gallai datblygiadau newydd eu dwyn a pheryglu ein gallu i gryfhau diogelwch a gwydnwch cenedlaethol yn ddiangen. Byddai canlyniad o'r fath yn groes i fudd y cyhoedd.

Polisi ar asesu'r angen am gapasiti ychwanegol

- 2.58 Am y rhesymau a nodir uchod, wrth benderfynu ar gais am orchymyn sy'n rhoi caniatâd datblygu mewn perthynas â phorthladdoedd, dylai'r penderfynwr dderbyn yr angen cymhellol am gapasiti yn y dyfodol, gan gynnwys i:
- alluogi twf hirdymor a ragwelir mewn nifer mewnforion ac allforion dros y môr ar gyfer pob math o nwyddau a nodir gan y ffigurau rhagolwg galw a nodir yn rhagolygon galw'r Adran Drafnidiaeth, gan ystyried y capasiti sydd eisoes wedi'i ganiatáu;

- cefnogi datblygu, gweithredu, cynnal a chadw a datgomisiynu ffynonellau ynni adnewyddadwy ar y môr gan gynnwys targedau uchelgeisiol y Llywodraeth ar gyfer cynyddu'r rhain erbyn 2030 a thu hwnt;
- cynnig ystod ddigon eang o gyfleusterau mewn amrywiaeth o leoliadau i gyd-fynd â phatrymau masnach, galwadau llongau a dosbarthu mewndirol presennol a disgwylidig, gan gynnwys ar y rheilffordd lle mae capasiti rhwydwaith ar gael, ac i hwyluso ac annog llongau arfordirol;
- ymateb i anghenion ehangach y sector cludo nwyddau a logisteg gan gynnwys darparu (boed ar y porthladd neu oddi arno, o bosibl fel datblygiad cysylltiedig) cyfleusterau digonol ar gyfer parcio cerbydau nwyddau trwm, hwyluso rhaniadau moddol sy'n ystyried allanoldeb, a chefnogi moderneiddio'r fflyd;
- sicrhau cystadleuaeth effeithiol ymhlith porthladdoedd a, thrwy'r gystadleuaeth honno, darparu gwydnwch sylweddol yn y seilwaith cenedlaethol; ac
- ystyried yn llawn y cyfraniad y gallai datblygiadau porthladdoedd ei wneud i economïau rhanbarthol a lleol, gan gynnwys manteision cydgrynhoad.

2.59 Mae rhagdybiaeth o blaid rhoi caniatâd datblygu ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIPs) ar gyfer datblygu porthladdoedd sy'n dod o fewn yr angen am seilwaith a sefydlwyd yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol (NPS) hwn ac sy'n cydymffurfio â'r polisïau yn yr NPS hwn.

2.60 Darperir cyngor ar sut i asesu effeithiau datblygiadau a allai fodloni'r polisïau cynllunio hyn drwy'r canllawiau ar asesu effeithiau datblygiad arfaethedig yn adran 4 o'r NPS hwn.

3. Egwyddorion asesu

Ystyriaethau allweddol

- 3.1 Mae'r adran hon yn amlinellu'r egwyddorion allweddol y mae angen i bob ymgeisydd a gwneuthurwr penderfyniadau eu hystyried. Dylid ystyried y rhain yn ogystal â'r polisïau penodol i effaith a ddarperir yn adran 4.
- 3.2 Os oes uwchgynllun yn bodoli, yna dylai ceisiadau gael eu hasesu, gan y gwneuthurwr penderfyniadau, yng nghyd-destun uwchgynllun ar gyfer ardal y porthladd neu'r datblygiad lle bo un ar gael. Dylai uwchgynlluniau amlinellu'r amcanion datblygu hirdymor, integreiddio â rhwydweithiau trafnidiaeth ac ynni ehangach, a chyd-fynd â blaenoriaethau seilwaith cenedlaethol. Lle nad oes uwchgynllun ffurfiol yn bodoli, dylai ymgeiswyr arddangos sut mae eu cynnig yn cyfrannu at dwf cydlynol a chynaliadwy y porthladd.
- 3.3 Wrth wneud penderfyniadau ar gynigion ar gyfer datblygiadau porthladd unigol, dylai'r gwneuthurwr penderfyniadau cynllunio ystyried yr ystyriaethau allweddol canlynol:
 - dylid cynnal asesiad yr ymgeisydd mewn modd sy'n gyson â gofynion statudol o dan ddeddfwriaeth y DU;
 - dylid cynnal asesiad yr ymgeisydd mewn ffordd sy'n ystyried holl amcanion eang y Llywodraeth ar gyfer trafnidiaeth, gan gynnwys yr angen i :
 - hyrwyddo twf economaidd drwy wella rhwydweithiau a chysylltiadau ar gyfer teithwyr a nwyddau, yn ogystal â sicrhau sector trafnidiaeth effeithlon a chystadleuol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol;
 - gwella perfformiad amgylcheddol porthladdoedd a datblygiadau cysylltiedig, gan gynnwys trafnidiaeth, yn ogystal â helpu'r newid i gefnogi seilwaith sydd ei angen ar gyfer technolegau gwyrdd a defnyddio tanwydd amgen; a
 - cryfhau diogelwch a sicrwydd trafnidiaeth;

- cryfhau gwydnwch trafnidiaeth nwyddau, gan gydnabod hefyd y cyfraniad y gall traffig teithwyr ei wneud at wydnwch masnachol gwasanaethau ro-ro;
- cyfrannu at gydlyniant a budd cymunedau lleol yng nghefnwledydd porthladdoedd.
- dylai asesiad yr ymgeisydd ystyried polisïau a chynlluniau perthnasol eraill y DU, gan gynnwys y Datganiad Polisi Morol ([MPS](#)) a chynlluniau morol a ddarperir gan Ddeddf Mynediad i'r Môr a'r Arfordir 2009. Rhaid i'r gwneuthurwr penderfyniadau ystyried y rhain wrth wneud unrhyw benderfyniad sy'n ymwneud ag arfer unrhyw swyddogaeth a all effeithio ar ardal forol gyfan y DU neu unrhyw ran ohoni;
- dylai asesiad yr ymgeisydd dynnu ar ganllawiau perthnasol a thystiolaeth gadarn sydd ar gael;
- dylai'r asesiad hefyd gael ei lywio, o ran y pwyntiau perthnasol i'w hystyried, gan bwyntiau a godwyd yn ystod ymgysylltiad cynnar â chyrrff amgylcheddol statudol; dylai'r wybodaeth a geisir gan ymgeiswyr fod yn gymesur â graddfa'r datblygiad arfaethedig a'r effeithiau cysylltiedig, gan gynnwys ei effaith debygol ar newid hinsawdd a'i fregusrwydd iddo, yn ogystal â phob agwedd arall ar gydymffurfiaeth â'r NPS hwn, ond ar yr un pryd ni ddylai fod yn ormodol o feichus; ac
- ar gyfer ceisiadau sy'n ymwneud â phorthladdoedd ymddiriedolaeth a gedwir yn ôl yng Nghymru, dylai'r gwneuthurwr penderfyniadau ystyried polisïau a chynlluniau Llywodraeth Cymru, yn enwedig o ran trafnidiaeth a chynllunio.

3.4 Bydd y rhan fwyaf o'r canllawiau isod yn berthnasol i'r awdurdod archwilio ac i'r Ysgrifennydd Gwladol fel gwneuthurwr penderfyniadau. Lle bwriedir iddo fod yn berthnasol yn benodol i'r Ysgrifennydd Gwladol, crybwyllir hyn yn benodol.

Ystyriaeth o fanteision ac effeithiau

- 3.5 Yn yr NPS hwn, dylid deall bod y termau 'effeithiau' neu 'fanteision' yn golygu effeithiau neu fanteision sylweddol tebygol.
- 3.6 Pan fydd y penderfynwr yn dod i'r farn bod cynnig ar gyfer seilwaith porthladd yn NSIP, bydd yn rhaid iddo bwysu a mesur y manteision awgrymedig, gan gynnwys y cyfraniad y byddai'r cynllun yn ei wneud at yr angen cenedlaethol, rhanbarthol neu fwy lleol am y seilwaith, yn erbyn effeithiau andwyol disgwylidig, gan gynnwys effeithiau cronrus. Bydd archwiliad cynnar o ddyluniadau ac atebion amgen yn arbennig o bwysig lle mae effeithiau sylweddol tebygol ar safleoedd gwarchodedig.
- 3.7 Lle bo'n berthnasol, dylai'r ymgeisydd nodi'n glir ble mae'r hierarchaeth lliniaru wedi'i chymhwyso ar gyfer pob effaith berthnasol, gan gynnwys bioamrywiaeth, tirwedd, treftadaeth, ansawdd aer, sŵn ac effeithiau adnoddau dŵr. Yma dylai'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth o opsiynau a ystyriwyd i osgoi niwed, mesurau a gynigiwyd i leihau a lliniaru effeithiau a chyfiawnhad dros unrhyw effeithiau gweddilliol a mesurau gwneud iawn arfaethedig. Dylai'r asesiad gynnwys cymhariaeth o ddewisiadau amgen ac arddangos bod y dull a ddewiswyd yn cynrychioli'r opsiwn lleiaf niweidiol i'r amgylchedd sydd ar gael yn rhesymol. Yn yr hierarchaeth hon dylid rhoi blaenoriaeth i fesurau sy'n osgoi niwed, gyda gwneud iawn yn opsiwn olaf yn yr hierarchaeth.

Manteision

- 3.8 Gallai manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol gynnwys y rhai a nodwyd yn yr NPS hwn ar lefel genedlaethol, yn ogystal â manteision lleol a nodwyd ar lefel benodol i'r prosiect. Dylai'r gwneuthurwr penderfyniadau ystyried unrhyw fanteision tymor hwy a nodwyd (megis creu swyddi), neu unrhyw fanteision ehangach i economïau cenedlaethol, rhanbarthol neu leol, yr amgylchedd neu gymdeithas.
- 3.9 Mae porthladdoedd yn galluogi masnach ryngwladol, gan gynnwys mewnfurion hanfodol, ac felly'n cyfrannu at wella cynnyrch cenedlaethol gros a diogelwch. Maent yn darparu cyfleoedd ar gyfer buddsoddi uniongyrchol tramor. Maent yn cynhyrchu referniw treth i'r Trysorlys ac i lywodraeth leol. Gan eu bod wedi'u dosbarthu'n eang ledled Cymru a Lloegr (a'r DU ehangach), gallant chwarae rhan wrth hyrwyddo twf ar draws rhanbarthau. Mae eu datblygu yn cyfrannu at wydnwch masnach yr economi genedlaethol, gan gynnwys mewn nwyddau hanfodol.
- 3.10 Ar lefel ranbarthol a lleol, mae manteision economaidd o ddatblygiadau porthladdoedd yn cynnwys cyfleoedd adfywio a chyflogaeth. Fel datblygiadau masnachol, gall porthladdoedd hefyd gynhyrchu effeithiau crynhoi trwy ddod â busnesau ynghyd, gyda gwahanol raddau o ryngweithio cydfuddiannol, a chynhyrchu manteision economaidd y tu hwnt i'r rhai a adlewyrchir yng ngwerth trafodion ymhlith y busnesau hynny.
- 3.11 Gall porthladdoedd ddarparu swyddi medrus iawn wrth fabwysiadu technoleg yn fwy, gyda manteision ehangach tymor hwy i'r economi.

Effeithiau andwyol

- 3.12 Gellir nodi effeithiau andwyol mewn nifer o ffyrdd: yn yr adroddiad effaith leol y gwahoddir awdurdodau lleol perthnasol i'w gyflwyno ar ôl derbyn cais; gan ymgynghoreion statudol; mewn unrhyw Ddatganiad Amgylcheddol sy'n cyd-fynd â chais; neu mewn sylwadau ysgrifenedig neu lafar a wneir. Yn gyffredinol, mae'r Datganiad Polisi Cenedlaethol yn rhoi pwysau i'w roi ar fanteision neu effeithiau, gan gynnwys effeithiau lluosog a chronnus prosiectau, a rhaid i'r penderfynwr ystyried y rhain wrth ddod i'r penderfyniad. Fodd bynnag, bydd union natur yr effaith yn amrywio yn dibynnu ar sawl ffactor, gan gynnwys materion fel, er enghraifft, y math o seilwaith, lleoliad penodol y prosiect arfaethedig, asedau treftadaeth a'r ddaeareg neu'r fioamrywiaeth leol.

Canllawiau i'r penderfynwr

- 3.13 Dylai'r penderfynwr roi pwyslais sylweddol ar yr effeithiau cadarnhaol sy'n gysylltiedig â datblygiad economaidd, yn unol â'r polisi a nodir yn yr NPS hwn. Dylai'r penderfynwr bwysu a mesur effeithiau andwyol gweddilliol yn erbyn manteision y datblygiad arfaethedig.

- 3.14 Mae'r AoS sy'n cyd-fynd â'r NPS hwn yn asesu natur a graddfa eang yr effeithiau economaidd mewn perthynas â datblygu porthladdoedd yn gyffredinol. Efallai y bydd angen i'r penderfynwr hefyd fesur manteision cais unigol.
- 3.15 Gallai ehangu'r sector porthladdoedd trwy fuddsoddi sy'n canolbwyntio ar y farchnad ysgogi manteision cyflogaeth a hyfforddiant ychwanegol, y gellir eu hystyried, fel y nodwyd uchod, lle bo'n berthnasol yn unol â TAG TPM neu WeITAG lle bo'n berthnasol.

Effeithiau economaidd-gymdeithasol

- 3.16 Mae'n debygol y bydd adeiladu, gweithredu a datgomisiynu seilwaith porthladdoedd yn cael effeithiau economaidd-gymdeithasol ar lefelau lleol a rhanbarthol.

Asesiad yr ymgeisydd

- 3.17 Lle mae'n debygol y bydd gan y prosiect effeithiau economaidd-gymdeithasol ar lefelau lleol neu ranbarthol, dylai'r ymgeisydd gynnal asesiad o'r effeithiau hyn a'i gynnwys yn ei gais (gweler paragraffau 3.29 a throsodd).
- 3.18 Dylai'r asesiad hwn ystyried yr holl effeithiau economaidd-gymdeithasol perthnasol, a allai gynnwys:
- creu swyddi a chyfleoedd hyfforddi;
 - darparu gwasanaethau lleol ychwanegol a gwelliannau i seilwaith lleol, gan gynnwys darparu trafndiaeth, cyfleusterau addysgol ac ymwelwyr, seilwaith gwyrdd (gan gynnwys gofod glas) a chysylltedd gwell, a chyfraniad porthladdoedd, gan gynnwys porthladdoedd hamdden bach, i economïau lleol a chydlyniant cymdeithasol;
 - effeithiau ar dwristiaeth: lle mae twristiaeth gynyddol yn debygol o effeithio'n sylweddol ar y galw am wasanaethau lleol, dylid asesu'r effaith hon. Dylid nodi budd ychwanegol hefyd trwy hyrwyddo etifeddiaeth hanesyddol porthladdoedd gweithredol; mae hyn yn bwysig o ran bywyd economaidd newidiol porthladdoedd a sut mae newid o'r fath yn gydnaws â gwarchod asedau treftadaeth. Gall datblygu porthladdoedd gael effaith andwyol ar dwristiaeth, er enghraifft os yw'n torri neu'n dargyfeirio llwybrau troed neu lwybrau ceffylau, yn cael effaith andwyol ar y dirwedd neu'r morlun cyfagos, neu'n effeithio ar y lle sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau hamdden lleol. (Gweler paragraffau 4.282 ymlaen ar ofod agored.)
 - effaith mewnlifiad newidiol o weithwyr yn ystod gwahanol gyfnodau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r porthladd a/neu seilwaith arall. Gallai hyn, ar yr ymylon, newid deinameg y boblogaeth leol a gallai newid y galw am wasanaethau a chyfleusterau yn yr aneddiadau agosaf at y gwaith adeiladu (gan gynnwys cyfleusterau cymunedol a seilwaith ffisegol fel ynni, dŵr, trafndiaeth a gwastraff). Gallai fod effeithiau ar gydlyniant cymdeithasol hefyd, yn dibynnu ar sut mae poblogaethau a darpariaeth gwasanaethau yn newid oherwydd y datblygiad. Fodd bynnag, yn y mwyafrif helaeth o achosion mae profiad a natur datblygiadau porthladdoedd yn awgrymu nad yw'r ystyriaethau hyn yn debygol o fod yn arwyddocaol iawn; ac

- effeithiau cronrus – pe bai caniatâd datblygu yn cael ei roi ar gyfer sawl prosiect o fewn rhanbarth a'r rhain yn cael eu datblygu mewn amserlen debyg, gallai fod rhai effeithiau negyddol tymor byr, er enghraifft prinder posibl o weithwyr adeiladu i ddiwallu anghenion diwydiannau eraill a phrosiectau mawr o fewn y rhanbarth.
- 3.19 Dylai ymgeiswyr ddisgrifio'r amodau economaidd-gymdeithasol presennol yn yr ardaloedd o amgylch y datblygiad arfaethedig a dylent hefyd gyfeirio at sut mae effeithiau economaidd-gymdeithasol y datblygiad yn cydberthyn â pholisïau cynllunio lleol.
- 3.20 Gallai effeithiau economaidd-gymdeithasol fod yn gysylltiedig ag effeithiau eraill – er enghraifft, ystyrir effaith weledol datblygiad ym mharagraffau 4.242 ymlaen ond gall hefyd gael effaith ar dwristiaeth a busnesau lleol. Dylid asesu sut mae effeithiau amgylcheddol y datblygiad arfaethedig yn effeithio ar wahanol grwpiau cymdeithasol a chymunedau, gan adlewyrchu y gall rhai grwpiau fod yn fwy agored i niwed a/neu'n agored yn anghymesur i niwed amgylcheddol.

Canllawiau i'r penderfynwr

- 3.21 Dylai'r penderfynwr ystyried effeithiau economaidd-gymdeithasol posibl seilwaith porthladd newydd a nodwyd gan yr ymgeisydd ac o unrhyw ffynonellau eraill y mae'r penderfynwr yn eu hystyried yn berthnasol ac yn bwysig i'w benderfyniad, gan gynnwys effeithiau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.
- 3.22 Mae'n rhesymol i'r penderfynwr ddod i'r casgliad nad oes llawer o bwysau neu ddim pwysau i'w roi i honiadau o effeithiau economaidd-gymdeithasol nad ydynt wedi'u cefnogi gan dystiolaeth.
- 3.23 Dylai'r penderfynwr ystyried unrhyw ddarpariaethau cadarnhaol y mae'r datblygwr wedi'u gwneud trwy gyfraniadau'r datblygwr a chyflenwi seilwaith, ac unrhyw fuddion etifeddol a allai godi, yn ogystal ag ystyried unrhyw opsiynau ar gyfer datblygu fesul cam mewn perthynas â'r effeithiau economaidd-gymdeithasol.
- 3.24 Dylai'r penderfynwr ystyried a oes angen mesurau lliniaru ar gyfer unrhyw effeithiau economaidd-gymdeithasol niweidiol y datblygiad. Er enghraifft, gall dylunio o ansawdd uchel wella'r profiad gweledol ac amgylcheddol i ymwelwyr a'r gymuned leol fel ei gilydd.

Effeithiau Masnachol a Chystadleuaeth

- 3.25 Mae porthladdoedd yng Nghymru a Lloegr yn gweithredu ar sail fasnachol, yn bennaf heb gymhorthdal cyhoeddus a chyda buddsoddiad o'u helw gweithredu eu hunain neu o ecwiti a benthyca o'r sector preifat. Felly, rhaid i ddatblygwyr porthladdoedd gynllunio i wneud elw masnachol o'r buddsoddiad a wneir. Efallai y bydd angen i'r penderfynwr wneud dyfarniadau ynghylch a fyddai effeithiau andwyol posibl yn deillio o effaith y datblygiad ar weithredwyr masnachol eraill, yn enwedig lle nodir effeithiau o'r fath mewn asesiadau amgylcheddol, ond i'r graddau y mae effeithiau o'r fath yn fasnachol i raddau helaeth a dim ond canlyniad cystadleuaeth deg, mae'n annhebygol y byddant yn berthnasol.

Canllawiau i'r penderfynwr

- 3.26 Mewn achosion lle byddai'r effeithiau andwyol yn codi dim ond pe bai'r prosiect yn llwyddiannus (e.e. trwy'r traffig cynyddol a gynhyrchir gan ddatblygiad ffyniannus), dylai'r penderfynwr ystyried digonolrwydd y mesurau lliniaru a gynigir mewn digwyddiad o'r fath, heb gyfeirio at y tebygolrwydd y bydd yr effaith yn codi.
- 3.27 Dylid ystyried gwrthwynebiadau gan ddefnyddwyr porthladdoedd yr effeithir arnynt yn andwyol gan y datblygiad yng ngoleuni'r cynnig gan yr ymgeisydd i liniaru'r effeithiau hynny, gan ystyried unrhyw fuddion y mae'r penderfynwr yn credu, ar sail y dystiolaeth a gyflwynir, y byddant yn cronni i'r defnyddwyr hynny o'r datblygiad.
- 3.28 Mewn rhai achosion, yn enwedig os yw datblygiadau porthladdoedd yn digwydd ochr yn ochr, efallai y bydd angen gwneud rhywfaint o asesiad o effeithiau cystadleuaeth wrth asesu'r galw am gysylltiadau mynediad mewndirol ac ar gyflwyno galwadau seilwaith ffyrdd, rheilffyrdd a seilwaith arall fesul cam. Trafodir hyn ymhellach ym mharagraffau 4.119 ymlaen ar drafnidiaeth.

Dull cyffredinol o ymdrin ag effeithiau amgylcheddol ac Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

- 3.29 Mae canllawiau cynllunio'r Llywodraeth yn debygol o fod yn ffynhonnell ddefnyddiol o ganllawiau ar effeithiau nad ydynt wedi'u trafod fel arall yn yr NPS hwn ¹³.
- 3.30 O dan Ddeddf yr Amgylchedd 2021, rhaid i Weinidogion y Goron hefyd roi sylw dyledus i'r Datganiad Polisi Egwyddorion Amgylcheddol wrth lunio polisi, ac felly mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i'r NPS hwn. Nid yw'r ddyletswydd yn berthnasol lle mae Gweinidogion yn gwneud penderfyniadau unigol yn unol ag NPS neu'n penderfynu ar geisiadau cynllunio unigol.
- 3.31 Mae gwybodaeth berthnasol ddigonol, wedi'i hategu gan dystiolaeth, data a modelu cadarn, yn hanfodol ar gyfer gwneud penderfyniadau da, yn enwedig lle mae angen asesiadau ffurfiol (megis Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, Adroddiadau Canlyniadau Amgylcheddol (gweler paragraff 3.38), Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac Asesiad Perygl Llifogydd). Er mwyn osgoi oedi, dylai ymgeiswyr drafod ac adolygu pa wybodaeth a thystiolaeth sydd eu hangen gyda chyrrff amgylcheddol statudol cyn gynted â phosibl yn y cam cyn-ymgeisio. Ar gyfer Cynlluniau Seilwaith Cenedlaethol (NSIP), gall yr Arolygiaeth Gynllunio (ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol) roi barn gwmpasu. Dylai hyn alluogi'r cyrrff hynny i gyfathrebu ag ymgeiswyr mewn modd amserol drwy gydol y broses, a darparu disgwyliadau cymesur a realistig o ba wybodaeth sydd ei hangen, a thros ba fframiau amser.
- 3.32 Mae'r Llywodraeth wedi gosod targedau hirdymor sy'n gyfreithiol rwymol ar gyfer Lloegr o dan Ddeddf yr Amgylchedd 2021, sy'n cwmpasu'r meysydd canlynol: ansawdd aer, dŵr, bioamrywiaeth, effeithlonrwydd adnoddau a lleihau gwastraff, gorchudd coed a choetiroedd, ac Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Bydd cyrraedd y targedau sy'n gyfreithiol rwymol yn ymdrech ar y cyd a fydd yn gofyn am ddull llywodraeth gyfan o'i gyflawni. Cefnogir cyflawni'r targedau hirdymor hyn gan

¹³ Gweler yn benodol y porth [Canllawiau Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol](#).

ymestyn targedau interim. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried dyletswyddau o dan Ddeddf yr Amgylchedd 2021 mewn perthynas â thargedau amgylcheddol a'r fframwaith ar gyfer cyflawni'r targedau hynny a nodir yng Nghynllun Gwella Amgylcheddol y Llywodraeth ar gyfer gwella'r amgylchedd naturiol.

- 3.33 Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried y targed statudol ar gyfer Ardaloedd Morol Gwarchodedig (MPA) (Rheoliadau targedau amgylcheddol (Ardaloedd Morol Gwarchodedig) 2023). Mae targed yr MPA yn ei gwneud yn ofynnol bod o leiaf 70% o nodweddion MPA mewn cyflwr ffafriol erbyn 2042 gyda'r gweddill mewn cyflwr adfer. Diffinnir cyflwr adfer fel 'bod y mesurau sy'n angenrheidiol i ddileu neu reoli'r holl effeithiau perthnasol ar y nodwedd honno wedi'u gweithredu'.
- 3.34 Dylai ymgeiswyr chwilio am gyfleoedd i fabwysiadu dull cyfannol o osgoi, lliniaru neu wneud iawn am effeithiau lluosog ar yr amgylchedd naturiol neu adeiledig, ar dirweddau, morluniau ac ar bobl, a chyflawni gwelliannau iddynt drwy ddefnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur. Gall atebion sy'n seiliedig ar natur ddarparu manteision lluosog i'r hinsawdd, bioamrywiaeth a phobl, a gallant felly chwarae rhan hanfodol wrth fynd i'r afael â'r effeithiau cydberthynol hyn mewn ffordd integredig. Mae atebion sy'n seiliedig ar natur sydd wedi'u cynllunio a'u gweithredu'n ofalus yn fuddiol oherwydd efallai y byddant yn gallu darparu ystod o fanteision i gymdeithas y tu hwnt i'w prif bwrpas. Er enghraifft, gallai coed a blannir i ddal carbon gynnig manteision ar gyfer rheoli llifogydd, sefydlogrwydd pridd, bioamrywiaeth a hamdden. Bydd y strategaeth adfer natur leol berthnasol yn ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol ar gyfer atebion sy'n seiliedig ar natur, gan gynnwys 'seilwaith gwyrdd'. Gellir defnyddio dull Seilwaith Gwyrdd¹⁴ i gynllunio rhwydweithiau amlswyddogaethol o nodweddion naturiol i integreiddio'r gwahanol fanteision ac atebion. Gallai atebion sy'n seiliedig ar natur ac sydd wedi'u cynllunio'n dda hefyd gyfrannu at gyflawni gofynion Elw Net Bioamrywiaeth.
- 3.35 Rhaid i bob cynnig ar gyfer prosiectau sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiad Effaith Amgylcheddol) 2017 (y "Rheoliadau EIA")¹⁵ a'r Rheoliadau Gwaith Morol (EIA) fel cyfraith gymathedig ddod gyda Datganiad Amgylcheddol (ES) sy'n disgrifio agweddau'r amgylchedd y mae'r prosiect yn debygol o effeithio'n sylweddol arnynt.
- 3.36 Mae'r Rheoliadau, yn unol â Chonfensiwn Espoo¹⁶ a'i Phrotocolau wedi'u cadarnhau, yn ymdrin yn benodol â 'phorthladdoedd masnachu...a all gymryd llongau dros 1,350 tonnelli' o fewn Atodlen 1 paragraff 8(2) ac 'adeiladu...harbyrau a gosodiadau porthladd, gan gynnwys harbyrau pysgota (oni bai eu bod wedi'u cynnwys yn Atodlen 1)' o fewn Atodlen 2.
- 3.37 Pan wneir cais am orchymyn adolygu neu rymuso harbwr, nodir gofynion gweithdrefnol yn Atodlen 3 i Ddeddf Harbyrau 1964 fel y'i diwygiwyd.
- 3.38 Mae'r Ddeddf Ffyniant Bro ac Adfywio yn darparu ar gyfer disodli EIA ac SEA gyda system o Adroddiadau Canlyniadau Amgylcheddol (EOR). Pan gaiff ei weithredu, bydd y system EOR yn cynnal cysondeb â rhwymedigaethau rhwyngwladol a bydd yn cyfrannu at gynnal lefelau o adrodd a diogelu amgylcheddol, gan leihau beichiau ar

¹⁴ [Natural England unveils new Green Infrastructure Framework - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/news/natural-england-unveils-new-green-infrastructure-framework)

¹⁵ www.gov.uk/guidance/environmental-impact-assessment

¹⁶ unece.org/environment-policy/environmental-assessment

ymgeiswyr a phartion eraill yn y system Gynllunio. Hyd nes y bydd system newydd yn cael ei gweithredu, mae gofynion cyfreithiol cyfredol ar asesiad amgylcheddol yn parhau i fod yn berthnasol a gellir nodi cyfeiriadau at asesiadau mewn Datganiad Amgylcheddol.

Asesiad yr ymgeisydd

3.39 Mae'r Rheoliadau EIA yn ei gwneud yn ofynnol i ddisgrifiad gael ei wneud o'r effeithiau sylweddol tebygol o'r prosiect arfaethedig ar yr amgylchedd, gan gynnwys yr effeithiau uniongyrchol ac unrhyw effeithiau anuniongyrchol, eilaidd, cronrus, tymor byr, canolig a hir, parhaol a dros dro, cadarnhaol a negyddol y prosiect, a hefyd o'r mesurau a ragwelir ar gyfer osgoi neu liniaru effeithiau andwyol sylweddol. Mae'r Rheoliadau hefyd yn cyfeirio'n benodol at effeithiau ar fodau dynol, ffawna a fflora, pridd, dŵr, aer, hinsawdd, y dirwedd, asedau materol a threftadaeth ddiwylliannol, a'r rhyngweithio rhyngddynt. Dan y Rheoliadau EIA, lle bo'n berthnasol, mae'r canlynol yn ofynion lleiaf:

- (i) disgrifiad o'r prosiect a'r gweithgarwch rheoleiddiedig, yn cynnwys gwybodaeth am y safle, y dyluniad, maint a nodweddion perthnasol eraill y prosiect a'r gweithgarwch rheoleiddiedig;
- (ii) disgrifiad o effeithiau sylweddol tebygol y prosiect a'r gweithgarwch rheoleiddiedig ar yr amgylchedd;
- (iii) disgrifiad o nodweddion y prosiect a'r gweithgarwch rheoleiddiedig neu'r mesurau a ragwelir er mwyn osgoi, atal neu leihau ac, os yn bosibl, gwrthbwysio effeithiau andwyol sylweddol tebygol ar yr amgylchedd;
- (iv) disgrifiad o'r dewisiadau amgen rhesymol a astudiwyd gan yr ymgeisydd sy'n berthnasol i'r prosiect a'i nodweddion penodol, a syniad o'r prif resymau dros yr opsiwn a ddewiswyd, gan ystyried effeithiau'r prosiect ar yr amgylchedd;
- (v) crynodeb annhechnegol o'r wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraffau (i) i (iv); ac
- (vi) unrhyw wybodaeth ychwanegol a bennir yn Atodlen 4 i'r Rheoliadau EIA sy'n berthnasol i nodweddion penodol prosiect penodol neu fath o brosiect ac i'r nodweddion amgylcheddol y mae'n debygol y bydd effaith arnynt.

3.40 Er mwyn ystyried yr effaith bosibl, gan gynnwys manteision cynnig ar gyfer prosiect, bydd yn ddefnyddiol i'r penderfynwr pe bai'r ymgeisydd hefyd yn nodi gwybodaeth am effeithiau cymdeithasol ac economaidd sylweddol tebygol y datblygiad ac yn dangos sut y byddai unrhyw effeithiau negyddol sylweddol tebygol yn cael eu hosgoi neu eu lliniaru. Gallai'r wybodaeth hon gynnwys materion fel cyflogaeth, cydraddoldeb, cydlyniant cymunedol a lles. Bydd yr MMO hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gynnal asesiad o'r cynlluniau morol perthnasol yn yr ardal.

3.41 Wrth ystyried effeithiau cronrus, dylai'r ES ddarparu gwybodaeth am sut y byddai effeithiau cynnig yr ymgeisydd yn cyfuno ac yn rhyngweithio ag effeithiau

datblygiadau eraill (gan gynnwys prosiectau presennol a/neu brosiectau a gymeradwywyd).¹⁷

- 3.42 Er mwyn helpu'r penderfynwr i ystyried yn drylwyr effeithiau posibl prosiect arfaethedig mewn achosion lle nad yw'r Rheoliadau EIA (neu EOR) yn berthnasol i brosiect, ac felly nad oes angen ES, dylai'r ymgeisydd ddarparu gwybodaeth sy'n gymesur â'r prosiect ar yr effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sylweddol tebygol. Dylid cymryd cyfeiriadau at ES yn yr NPS hwn fel pe baent yn cynnwys datganiad sy'n darparu'r wybodaeth hon, hyd yn oed os nad yw'r Rheoliadau EIA yn berthnasol.

Canllawiau i'r penderfynwr

- 3.43 Gallai fod gan y penderfynwr dystiolaeth arall o'i flaen hefyd, er enghraifft o asesiadau o gynaliadwyedd NPS perthnasol neu gynlluniau datblygu, ar effeithiau o'r fath a rhyngweithiadau posibl. Gallai unrhyw wybodaeth o'r fath gynorthwyo'r penderfynwr i ddod i benderfyniadau ar gynigion ac ar fesurau lliniaru a allai fod yn ofynnol.
- 3.44 Wrth ystyried cynnig, dylai'r penderfynwr sicrhau bod effeithiau sylweddol tebygol ym mhob cam o'r prosiect wedi'u hasesu'n ddigonol a dylai ofyn am ragor o wybodaeth lle bo angen. Bydd y gofynion ar y penderfynwr a nodir yn Rhan 3 o Reoliadau Gwaith Morol (EIA) 2007 (fel y'u diwygiwyd) hefyd yn berthnasol i weithgareddau rheoleiddiedig perthnasol.
- 3.45 Dylai'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried sut y gallai cronni effeithiau, a'r gydb berthynas rhyngddynt, effeithio ar yr amgylchedd, yr economi neu'r gymuned gyfan, er y gallent fod yn dderbyniol pan gânt eu hystyried ar sail unigol gyda mesurau lliniaru ar waith.

Dewisiadau eraill

- 3.46 Mewn unrhyw achos cynllunio, mae perthnasedd neu fel arall i'r broses gwneud penderfyniadau o fodolaeth (neu fodolaeth honedig) dewisiadau eraill i'r datblygiad arfaethedig yn y lle cyntaf yn fater o gyfraith, ac mae canllawiau manwl arno y tu allan i gwmpas yr NPS hwn.
- 3.47 Mae'r canllawiau hyn¹⁸ yn berthnasol i asesu dewisiadau eraill ar gyfer NSIPs, yn ogystal â bod yn ystyriaeth berthnasol ar gyfer dewisiadau eraill ar draws pob llwybr cydsynio, gan gynnwys Gorchmynion TCPA a Harbwr.

¹⁷Am ganllawiau ar asesu effeithiau cronus, gweler, er enghraifft, [PINS Advice Note 17](http://ec.europa.eu/environment/eia/eia-studies-and-reports/guide1.pdf) yn ogystal ag *Impact Interactions* (<http://ec.europa.eu/environment/eia/eia-studies-and-reports/guide1.pdf>).

¹⁸<http://www.gov.uk/guidance/habitats-regulations-assessments-protecting-a-european-site>

Asesiad yr ymgeisydd

3.48 Dylai ymgeiswyr gydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol, ac unrhyw ofynion polisi a nodir yn yr NPS hwn, wrth asesu dewisiadau eraill. Er enghraifft, mae'r gofynion cyfredol yn cynnwys:

- lle bo'n berthnasol, mae Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i brosiectau sydd ag effeithiau amgylcheddol sylweddol gynnwys disgrifiad o'r prif ddewisiadau eraill a astudiwyd gan yr ymgeisydd a syniad o'r prif resymau dros ddewis yr ymgeisydd, gan ystyried yr effeithiau amgylcheddol;
- efallai y bydd gofynion cyfreithiol penodol eraill hefyd ar gyfer ystyried dewisiadau eraill, er enghraifft, o dan Reoliadau Cynefinoedd a Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017;
- efallai y bydd gofynion polisi yn yr NPS hwn hefyd, er enghraifft y prawf dilyniannol perygl llifogydd ac asesiad o ddewisiadau eraill ar gyfer datblygiadau mewn Parciau Cenedlaethol, y Broads a Thirweddau Cenedlaethol - lle mae polisi neu ofyniad cyfreithiol i ystyried dewisiadau eraill, dylai'r ymgeisydd ddisgrifio'r dewisiadau eraill a ystyriwyd yn unol â'r gofynion hyn ac mewn modd cymesur.

3.49 Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gynnwys gwybodaeth ffeithiol yn eu Datganiad Amgylcheddol am y prif ddewisiadau eraill y maent wedi'u hastudio. Dylai'r cais cyfan gynnwys arwydd o'r prif resymau dros ddewis yr ymgeisydd, gan ystyried yr effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd a chan gynnwys, lle bo'n berthnasol, hyfywedd technegol a masnachol.

3.50 Wrth ystyried dewisiadau eraill, dylai'r ymgeisydd gynnwys lleoliadau eraill o fewn ei reolaeth yn ogystal â chynlluniau a dyluniadau eraill ar y safle arfaethedig. Dylent egluro a yw lleoliadau a dyluniadau eraill yn peri risg is i'r amgylchedd ac o'r amgylchedd, ac a allant gyfrannu'n gadarnhaol at ganlyniadau amgylcheddol ar y safle neu mewn mannau eraill.

Canllawiau i'r penderfynwr:

3.51 O ystyried y budd cyhoeddus mewn darparu seilwaith porthladd newydd, dylai'r penderfynwr, yn amodol ar unrhyw ofynion cyfreithiol perthnasol (e.e. o dan y Rheoliadau Cynefinoedd) a allai nodi fel arall, gael ei arwain gan yr egwyddorion canlynol wrth benderfynu pa bwysau y dylid ei roi i ddewisiadau eraill:

- a oes posibilrwydd realistig y bydd y dewis arall yn darparu'r un capasiti seilwaith (gan gynnwys diogelwch ynni a manteision newid hinsawdd) yn yr un amserlen â'r datblygiad arfaethedig;
- dylid ystyried dewisiadau eraill er mwyn cydymffurfio â gofynion polisi mewn modd cymesur;
- dim ond i'r graddau y mae'r awdurdod archwilio yn credu eu bod yn bwysig ac yn berthnasol i'w gyngor y dylid ceisio dewisiadau eraill nad ydynt ymhlith y prif

ddewisiadau eraill a astudiwyd yn wreiddiol gan yr ymgeisydd (fel y'u hadlewyrchir yn yr ES);

- gellir gwahardd cynigion eraill, a awgrymir gan wrthwynebydd, sy'n golygu na ellid cyflawni prif amcanion y cais, er enghraifft oherwydd nad yw'r cynigion eraill yn hyfyw yn fasnachol neu na fyddai cynigion eraill ar gyfer safleoedd yn addas yn ffisegol, ar y sail nad ydynt yn bwysig ac yn berthnasol i'r penderfyniad.

3.52 Gellid llywio cynlluniau porthladd posibl i'w hystyried fel dewisiadau eraill gan asesiadau opsiynau a gynhelir i gefnogi penderfyniadau buddsoddi mewn seilwaith porthladdoedd, e.e. wedi'u nodi mewn uwchgynlluniau porthladdoedd. Lle dibynnir arnynt i nodi dewisiadau eraill, dylid eu darparu neu gyfeirio atynt gyda'r cais ochr yn ochr â gwybodaeth ategol arall.

3.53 Bwriedir y dylid nodi dewisiadau eraill posibl i ddatblygiad arfaethedig, lle bynnag y bo modd, cyn gwneud cais mewn perthynas ag ef (er mwyn caniatáu ymgynghori priodol a datblygu sylfaen dystiolaeth addas mewn perthynas ag unrhyw ddewisiadau eraill sy'n arbennig o berthnasol). Felly, lle cyflwynir dewis arall gyntaf gan drydydd parti ar ôl i gais gael ei wneud, gall y person sy'n ystyried y cais hwnnw roi'r baich ar y person sy'n cynnig y dewis arall i ddarparu'r dystiolaeth o'i addasrwydd fel y cyfryw, ac ni ddylid disgwyl i'r ymgeisydd o reidrwydd fod wedi'i asesu.

3.54 Wrth benderfynu ar ddewisiadau eraill priodol, ni fydd prosiect a gynigir gan borthladd cystadleuol yn briodol fel dewis arall ar gyfer y prosiect dan gais. Mae hyn oherwydd ei fod y tu hwnt i reolaeth yr ymgeisydd. Mae hefyd er budd cenedlaethol y dylai rhywfaint o gapasiti ffisegol dros ben fod ar gael ar lefel genedlaethol i helpu gyda gwydnwch masnach.

Enillion Net Bioamrywiaeth

3.55 Nod enillion net bioamrywiaeth (BNG) yw cyflawni gwelliannau mesuradwy ar gyfer bioamrywiaeth drwy greu, gwella, cynnal a monitro cynefinoedd mewn cysylltiad â datblygiadau ac mae'n un o'r mecanweithiau a ddefnyddir i gyflawni buddion bioamrywiaeth. Bydd BNG yn berthnasol i gydrannau prosiectau ar y tir a rhynglanwol. Yn unol â hynny, dylai ymgeiswyr gyflawni enillion net ar gyfer bioamrywiaeth mewn perthynas ag unrhyw gydrannau prosiectau ar y tir a rhynglanwol yn Lloegr.

3.56 Dylid cymhwyso BNG ar y cyd â'r hierarchaeth lliniaru ac nid yw'n newid nac yn disodli rhwymedigaethau amgylcheddol cymwys eraill fel o dan Reoliadau Cynefinoedd. Yn ogystal â darparu enillion net ar gyfer bioamrywiaeth, dylai ymgeiswyr hefyd nodi a chyflawni cyfleoedd priodol ar gyfer adfer natur a gwelliannau amgylcheddol ehangach. Mae'r [Offeryn Manteision Amgylcheddol o Natur](#) yn offeryn gwirfoddol ychwanegol i alluogi buddion ehangach i bobl a natur o enillion net bioamrywiaeth.

3.57 Dylai ymgeiswyr ddefnyddio'r fersiwn berthnasol ddiweddaraf o'r metrig bioamrywiaeth i gyfrifo eu llinell sylfaen bioamrywiaeth a llywio eu canlyniadau BNG.

3.58 Yn unol â chanllawiau cenedlaethol, gellir cyflawni BNG ar y safle neu'n gyfan gwbl neu'n rhannol oddi ar y safle. Dylai ymgeiswyr nodi manylion unrhyw enillion

bioamrywiaeth arfaethedig ar y safle neu oddi ar y safle yn y cais am ganiatâd datblygu. Wrth ddarparu BNG oddi ar y safle, dylai datblygiadau wneud hyn mewn ffordd sy'n cyfrannu orau at gyflawni canlyniadau strategol ehangach perthnasol, er enghraifft drwy gynyddu cysylltedd cynefinoedd neu wella canlyniadau gwasanaeth ecosystem eraill. Dylid cyfeirio at unrhyw strategaethau adfer natur lleol (a ddylai fod y prif bwynt cyfeirio i'r rhai sy'n darparu BNG oddi ar y safle) a chynlluniau a strategaethau cenedlaethol neu leol perthnasol eraill, megis strategaethau seilwaith gwyrdd, a ddefnyddir i lywio darpariaeth BNG.

3.59 Mae Deddf yr Amgylchedd 2021 yn cynnwys darpariaethau ar gyfer gofyniad BNG gorfodol ar gyfer NSIPs. Bydd Datganiad Enillion Bioamrywiaeth y llywodraeth yn nodi'r cysyniad a'r gofynion polisi ar gyfer BNG ar gyfer NSIPs. Pan fydd y darpariaethau hyn yn cael eu cychwyn, bydd angen i'r Ysgrifennydd Gwladol fod yn fodlon bod yr amcan enillion bioamrywiaeth mewn unrhyw Ddatganiad Enillion Bioamrywiaeth perthnasol wedi'i gyflawni. Mae'r darpariaethau BNG hyn yn ymwneud â chydannau ar y tir o geisiadau NSIP yn Lloegr cyn belled â'r marc distyll cymedrig.

3.60 Mae darpariaethau yn Neddf yr Amgylchedd 2021 i ganiatáu i Enillion Net Morol gael eu gwneud yn ofodol ar gyfer NSIPs yn y dyfodol. Mae Enillion Net Morol, a fwriadwyd ar gyfer pob datblygiad newydd o fewn y cwrpas, yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan y Llywodraeth, a fydd yn darparu canllawiau maes o law.

Meini prawf ar gyfer dylunio da ar gyfer seilwaith porthladdoedd

3.61 Dylid ymgorffori dylunio da drwy gydol y prosiect. Mae dylunio o ansawdd uchel a chynhwysol yn mynd ymhell y tu hwnt i ystyriaethau esthetig. Dylai ystyriaethau peirianeg, diogelwch, gweithredol ac amgylcheddol ehangach gael blaenoriaeth ond gall estheteg dda (er yn eilradd o ran pwysoli) fod yn gydnaws â'r amcanion dylunio sylfaenol. Mae swyddogaeth gwrthrych – boed yn adeilad neu'n fath arall o seilwaith – gan gynnwys addasrwydd at y diben a chynaliadwyedd, yr un mor bwysig. Dylai cymhwyso dyluniad da gynhyrchu seilwaith cynaliadwy sy'n sensitif i le, yn effeithlon o ran defnyddio tir ac adnoddau naturiol ac ynni a ddefnyddir wrth eu hadeiladu a'u gweithredu, wedi'i gydweddu â chynllun sy'n lliniaru effaith weledol datblygiad ac yn hwyluso gweithrediad effeithlon ac effeithiol wedi'i ategu gan ymddangosiad, tirwedd a lleoliad ac yn dangos estheteg dda cyn belled ag y bo modd. Byddai cadwraeth briodol o asedau treftadaeth yn ffactor mewn dylunio ystyriol. Er y cydnabyddir y bydd natur llawer o ddatblygiad seilwaith porthladd yn aml yn cyfyngu ar y graddau y gall gyfrannu at wella ansawdd yr ardal, dylid gwneud ymdrech i ymgorffori egwyddorion dylunio da wrth ddatblygu cynlluniau porthladd (a gallai fod o bwys arbennig i borthladdoedd sydd â chynnig i deithwyr). Ar gyfer prosiectau a gwmpeir gan yr NPS hwn, mae ystyriaethau diogelwch yn hanfodol i ddylunio da.

3.62 Gall porthladd, os yw'n dymuno gwneud hynny (nid yw hwn yn ofyniad statudol), elwa o ddefnyddio uwchgynllun i sicrhau dylunio cydlynol, addasadwy, a pharod i'r dyfodol sy'n integreiddio ystyriaethau defnydd tir, trafnidiaeth ac amgylcheddol. Mae'r Awdurdod Trawsnewid Seilwaith a Gwasanaethau Cenedlaethol (NISTA) yn eirioli dros yr egwyddorion dylunio canlynol y dylid eu sefydlu o ddechrau'r prosiect a'u hystyried drwyddo draw:

- 3.63 Hinsawdd – lliniaru allyriadau carbon ac addasu i newid hinsawdd. Mae'n cynnwys cyfleoedd i alluogi datgarboneiddio, yn ymgorffori hyblygrwydd, ac yn meithrin gwydnwch yn erbyn newid hinsawdd. Mae ymarferoldeb prosiectau, gan gynnwys addasrwydd at y diben, gwydnwch a chynaliadwyedd, yr un mor bwysig.
- 3.64 Pobl – helpu gwella ansawdd bywyd cymunedau lleol. Mae'n hyrwyddo cynhwysiant, cydlyniant ac yn cynyddu hygyrchedd. Mae'n creu amgylcheddau mewnol diogel ag aer glân sy'n gwella iechyd a lles.
- 3.65 Lleoedd – mae seilwaith wedi'i gynllunio'n dda yn rhoi ymdeimlad cryf o hunaniaeth i leoedd, a thrwy hynny mae'n ffurfio rhan o'n treftadaeth ddiwylliannol genedlaethol. Gan greu ymdeimlad o le, cysylltu cymunedau, mynd i'r afael â gwahanu cymunedau ac integreiddio i'w amgylchoedd. Mae'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at dirweddau lleol o fewn a thu hwnt i ffin y prosiect. Mae dylunio da yn gwella diwylliant a chymeriad lleol ac yn cefnogi ecoleg leol, gan sicrhau enillion bioamrywiaeth net, wrth amddiffyn coridorau bywyd gwyllt ac asedau a chynefinoedd naturiol na ellir eu hadnewyddu.
- 3.66 Gwerth – ychwanegu gwerth trwy ddiffinio materion yn glir o'r cychwyn cyntaf. Mae dylunio da hefyd yn canfod cyfleoedd i ychwanegu gwerth y tu hwnt i brif bwrpas y seilwaith i ystyried y manteision ehangach o ran arbedion ar gost, yr amgylchedd, deunyddiau a gofod. Mae'n effeithlon wrth ddefnyddio adnoddau naturiol, deunyddiau cynaliadwy ac ynni a ddefnyddir wrth adeiladu.

Asesiad yr ymgeisydd

- 3.67 Dylai ymgeiswyr allu arddangos yn eu dogfennau cais sut y cynhaliwyd y broses ddylunio a sut y datblygodd y dyluniad arfaethedig, gan ystyried y safbwyntiau a fynegwyd gan randdeiliaid a chymunedau perthnasol drwy'r broses cyn-ymgeisio. Lle ystyriwyd nifer o wahanol ddyluniadau, dylai ymgeiswyr nodi'r rhesymau pam y dewiswyd y dewis a ffefrir.
- 3.68 Yn gynnar, dylai'r ymgeisydd ystyried ceisio cyngor proffesiynol ac annibynnol ar yr hyn sy'n gyfystyr â dyluniad da ar gyfer cynnig, gan ystyried canllawiau dylunio a chodau dylunio perthnasol.
- 3.69 Mae dylunio da hefyd yn fodd y gellir cyflawni llawer o amcanion polisi yn yr NPS hwn, er enghraifft mae'r adrannau effaith yn dangos sut y gall dylunio da a defnyddio technolegau priodol helpu i osgoi a lliniaru effeithiau andwyol fel sŵn a dirgryniad.

Canllawiau i'r penderfynwr

- 3.70 Yng ngoleuni'r uchod, ac o ystyried y pwysigrwydd y mae PA08 yn ei roi ar ddylunio da a chynaliadwyedd, mae angen i'r penderfynwr fod yn fodlon bod datblygiadau seilwaith porthladdoedd wedi'u cynllunio'n briodol a, gan ystyried cyfyngiadau rheoleiddiol a chyfyngiadau eraill, eu bod mor ddeniadol, gwydn ac addasadwy (gan gynnwys ystyried peryglon naturiol fel llifogydd) ag y gallant fod. Wrth wneud hynny, dylai'r penderfynwr fodloni ei hun bod yr ymgeisydd wedi ystyried ymarferoldeb (gan gynnwys addasrwydd at y diben, cynllun, lleoliad defnyddiau, a gweithrediad) ac

estheteg (gan gynnwys ei gyfraniad at ansawdd yr ardal) cyn belled ag y bo modd. Er efallai nad oes gan yr ymgeisydd unrhyw ddewis neu ddewis cyfyngedig iawn yng ngwedd ffisegol rhywfaint o seilwaith porthladd, efallai y bydd cyfleoedd i'r ymgeisydd arddangos dyluniad da o'i gymharu â chymeriad tirwedd, tirffurf a llystyfiant presennol.

- 3.71 Wrth ystyried ceisiadau, dylai'r penderfynwr ystyried pwrpas terfynol y seilwaith a chofio'r gofynion gweithredol, diogelwch a diogeledd y mae'n rhaid i'r dyluniad eu bodloni.
- 3.72 Yn gynnar, dylai'r penderfynwr ystyried ceisio cyngor proffesiynol ac annibynnol ar yr hyn sy'n gyfystyr â dyluniad da ar gyfer cynnig.

Lliniaru newid hinsawdd

- 3.73 Gallai datblygiadau porthladdoedd gael effaith ar nwyon tŷ gwydr (GHG) o gyfnodau adeiladu neu weithredu datblygu porthladdoedd, yn enwedig trwy eu heffaith ar drafnidiaeth forol a ffordd. Gall yr effaith hon fod o fudd, os yw'r datblygiad yn arwain at newidiadau moddol o ffyrdd i longau (gan gynnwys llongau arfordirol) neu i drafnidiaeth reilffordd, a bod y manteision o'r newidiadau hyn yn fwy nag unrhyw allyriadau ychwanegol a allai fod yn gysylltiedig â'r datblygiad arfaethedig. Mae angen deall effeithiau'r allyriadau nwyon tŷ gwydr hyn a'u hystyried yn y broses o wneud penderfyniadau. Ar yr un pryd, mae angen canolbwyntio ar asesu cymesur er mwyn peidio â rhoi baich gormodol ar yr ymgeisydd a'r penderfynwr. Felly, o ran allyriadau nwyon tŷ gwydr prosiect, dylai'r EIA ganolbwyntio ar effeithiau arwyddocaol prosiect a dylai'r asesiadau fod yn gymesur â'r dystiolaeth sydd ar gael.
- 3.74 Caiff allyriadau nwyon tŷ gwydr eu dosbarthu'n gyffredin o dan y Protocol nwyon tŷ gwydr (2001) fel Cwmpas 1, Cwmpas 2, a Chwmpas 3. Mae Cwmpas 1 yn cyfeirio at allyriadau uniongyrchol o ffynonellau sy'n eiddo i'r cwmni sy'n adrodd neu'n cael eu rheoli ganddo, tra bod Cwmpas 2 yn cwmpasu allyriadau anuniongyrchol o gynhyrchu trydan, stêm, gwresogi neu oeri a brynwyd a ddefnyddir gan y cwmni. Mae Cwmpas 3 yn cynnwys yr holl allyriadau anuniongyrchol eraill ar draws y gadwyn werth, ac eithrio Cwmpas 2, ac mae wedi'i rannu ymhellach yn allyriadau sylfaenol – fel y rhai o ddeunyddiau adeiladu, logisteg a gweithgareddau'r gadwyn gyflenwi – ac allyriadau is, sy'n deillio o ffactorau fel defnyddio cerbydau, newid moddol, galw ysgogedig ac allyriadau cylch bywyd gweithgareddau sy'n cael eu galluogi gan seilwaith.
- 3.75 Nid yw'r Rheoliadau EIA yn mabwysiadu'r fframwaith hwn sy'n seiliedig ar gwmpas; yn hytrach, maent yn ei gwneud yn ofynnol i asesu effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol sylweddol tebygol prosiect ar yr amgylchedd. Yn unol â pharagraff 5(f) i Atodlen 4 o Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2017, mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am effeithiau'r prosiect ar yr hinsawdd, megis natur a maint allyriadau nwyon tŷ gwydr prosiect lle maent yn debygol o arwain at effeithiau sylweddol ar yr hinsawdd. Fel rhan o gwmpasu ac asesu'r EIA, mae'n angenrheidiol felly ystyried a yw allyriadau nwyon tŷ gwydr uniongyrchol neu anuniongyrchol fel effeithiau posibl y prosiect ar yr hinsawdd yn debygol o godi, h.y. allyriadau meintiol sydd â pherthynas achosol â'r prosiect. Lle nodir allyriadau o'r fath, dylid eu cyflwyno fel rhan o'r Datganiad Amgylcheddol, gyda mesurau priodol yn

cael eu cymryd i osgoi cyfrif ddwywaith. Er y bydd angen ystyried effeithiau allyriadau fesul achos, gallai hyn, er enghraifft, gynnwys allyriadau o weithgarwch adeiladu, tir neu ddefnydd prosiect, a all, fel mater o ffaith a gofyniad cyfreithiol, gynnwys y rhai a ddosbarthir o dan y Protocol GHG (2001) fel allyriadau nwyon tŷ gwydr Cwmpas 1, Cwmpas 2 a/neu Gwmpas 3.

Asesiad yr ymgeisydd

3.76 Mae gan bob datblygiad porthladd y potensial i arwain at effeithiau amgylcheddol sylweddol sy'n deillio o allyriadau nwyon tŷ gwydr. Lle mae gan brosiect effeithiau sylweddol tebygol uniongyrchol neu anuniongyrchol, dylid ystyried y rhain dros oes prosiect, a'u hadrodd fel rhan o fodloni gofynion o dan y Rheoliadau EIA. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, allyriadau o:

- symudiadau llongau i'r porthladd ac oddi yno a'r tanwydd a ddefnyddir;
- cydgyfeirio nifer o ffynonellau allyriadau uchel fel traffig cerbydau nwyddau trwm, yn enwedig o dan amodau gyrru gyda thagfeydd neu stopio a chychwyn;
- gweithrediadau porthladd gan gynnwys defnyddio peiriannau symudol nad ydynt ar gyfer y ffordd ac offer sy'n defnyddio diesel;
- trin a storio rhai llwythi, gan gynnwys tanwyddau ffosil a deunyddiau swmp
- mabwysiadu tanwyddau amgen fel amonia neu hydrogen.

3.77 Yng Nghanllawiau'r Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol (IEMA, bellach y Sefydliad Gweithwyr Proffesiynol Cynaliadwyedd ac Amgylcheddol, ISEP) ar Asesu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr a Gwerthuso eu Harwyddocâd a Chanllawiau Atodol DESNZ ar Asesu Effeithiau Allyriadau Eilaidd Cwmpas 3, mae asesiad chwe cham y gall ymgeiswyr fod eisiau ei ddilyn wrth asesu'r allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â'u prosiect:

- dylai'r ymgeisydd ddiffinio cwmpas a nod yr asesiad;
- dylai'r ymgeisydd osod ffiniau clir;
- dylai'r ymgeisydd sefydlu'r llinell sylfaen ar gyfer y porthladd, y derfynfa neu ddatblygiad arall a'r llinell sylfaen fyd-eang;
- dylai'r ymgeisydd ddewis methodoleg briodol ar gyfer cyfrifo allyriadau;
- yna dylai'r ymgeisydd gasglu'r holl ddata angenrheidiol ar gyfer y cyfrifiadau; a
- dylai'r ymgeisydd gyfrifo'r rhestr o allyriadau nwyon tŷ gwydr.

3.78 Dylid gwneud hyn yng nghyfnod cwmpasu'r EIA a dylid ei nodi yn y Datganiad Amgylcheddol. Dylai'r Datganiad Amgylcheddol, cyn belled ag y bo modd, nodi ac asesu effaith allyriadau datblygiadau porthladd mewn ffordd glir a thryloyw.

Lliniaru

3.79 Pan fo prosiect yn debygol o arwain at allyriadau nwyon tŷ gwydr sylweddol, dylai ymgeiswyr, cyn gynted â phosibl, gydweithio ag awdurdodau perthnasol i nodi a gweithredu mesurau lliniaru trwy ddylunio. Gall dylunio da leihau allyriadau, a dylid dylunio datblygiadau newydd gan ystyried effeithlonrwydd tanwydd wrth weithredu adeiladau ac offer a pheiriannau awyr agored, yn ogystal â'r defnydd mwyaf posibl o ffynonellau ynni adnewyddadwy, gan gynnwys ar gyfer pŵer glan y môr i longau. Dylid ystyried y rhain ar draws pob cam o'r datblygiad. Mae'r rhyngweithio rhwng y broses ddylunio a'r broses EIA wedi'i ategu gan bedwar egwyddor allweddol: (1) rhyngweithio cynnar, effeithiol a pharhaus; (2) ymgysylltu priodol â rhanddeiliaid; (3) rheoli risg cydsynio; a (4) naratif clir. Mae hyn yn sicrhau bod mesurau lliniaru nwyon tŷ gwydr yn cael eu hymgorffori yn hytrach na'u hychwanegu yn ddiweddarach. Dylai'r dyluniad da hwn ystyried allyriadau o fewn a thu hwnt i gyffiniau uniongyrchol y porthladd, o ystyried natur fyd-eang effeithiau hinsawdd.

3.80 Dylai'r lliniariadau hyn ddilyn yr hierarchaeth lliniaru – osgoi, lleihau, lliniaru, gwneud iawn. Dim ond os nad yw mesurau i osgoi, atal neu leihau effeithiau andwyol sylweddol tebygol yn addas y dylid ystyried gwrthbwysu ar gyfer allyriadau cwmpas 1 a 2. O fewn yr hierarchaeth lliniaru hon, mae mesurau lliniaru addas sydd ar gael i ddatblygwr i osgoi, atal neu leihau unrhyw effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd o gwmpas 3, yn wahanol i gwmpas 1 neu 2, yn gallu bod yn gyfyngedig gan nad oes gan y datblygwr reolaeth uniongyrchol dros y rhain sy'n golygu y gallai gwrthbwysu fod y ffordd orau o ymdrin â'r allyriadau hyn. Dylai ymgeiswyr chwilio am gyfleoedd o fewn dyluniad y datblygiad arfaethedig i ymgorffori atebion sy'n seiliedig ar natur neu dechnolegol i lliniaru, cipio neu wrthbwysu allyriadau nwyon tŷ gwydr. Dylai datblygwyr porthladdoedd fod yn barod i gyfiawnhau digonolrwydd y lliniaru neu'r gwrthbwysu arfaethedig yng nghyd-destun amcanion hinsawdd cenedlaethol.

3.81 Mae dulliau cynaliadwy o ddefnyddio ac aildddefnyddio deunyddiau wrth adeiladu porthladdoedd hefyd yn gyfle i gefnogi'r newid i Economi Gylchol. Dylai'r ymgeisydd arddangos sut y maent wedi ystyried:

- defnyddio deunyddiau adeiladu newydd y gellir eu haildddefnyddio'n hawdd;
- defnyddio deunyddiau adeiladu cynaliadwy (e.e. pren neu ddeunyddiau wedi'u hailgylchu);
- aildddefnyddio deunyddiau adeiladu o adeiladau wedi'u dymchwel; ac
- aildddefnyddio mwynau.

3.82 Mae'n bwysig nodi, ar gyfer rhai allyriadau eilaidd cwmpas 3 fel y rhai sy'n deillio o longau, y gall fod yn anodd neu'n amhosibl i borthladd ar ei ben ei hun lliniaru. Gall dull mwy rhyngwladol, fel drwy'r IMO a chynlluniau masnachu allyriadau, fod yn fwy addas.

3.83 Dylai penderfynwyr asesu a yw lliniariadau'n ddigonol. Yn arbennig, dylai'r penderfynwr ystyried i ba raddau y mae'r ymgeisydd wedi ystyried defnyddio ynni adnewyddadwy ar ystâd y porthladd. Lle nad oes bwriad i ddefnyddio ynni adnewyddadwy ar gyfer datblygiad porthladd mawr, dylid craffu ar y rhesymau.

- 3.84 Os yw datblygiad porthladd wedi'i leoli mewn ardal sydd â chynllun gweithredu hinsawdd presennol neu darged sero net lleol, dylai ymgeiswyr ymgysylltu ag awdurdodau lleol i wneud y gorau o gyd-fanteision.
- 3.85 Gall darparu pŵer trydanol sefydlog ar lan y môr i ddisodli'r defnydd o generaduron llongau yn y porthladd ('pŵer y lan') leihau llygredd lleol a gall hefyd leihau allyriadau carbon yn dibynnu ar ffynonellau cynhyrchu, er y bydd yr effeithiau'n fach o'i gymharu ag allyriadau byd-eang. Mae paragraff 4.200 yn cynnig mwy o fanylion ar bŵer y lan.

Canllawiau i'r penderfynwr

- 3.86 Dylai'r penderfynwr ystyried effaith fesuradwy datblygiad porthladd newydd ar allyriadau nwyon tŷ gwydr cenedlaethol a byd-eang o longau sy'n teithio i'r porthladd ac oddi yno. Yn yr achos annhebygol y bydd Datganiad Amgylcheddol yn nodi effaith o'r fath fel un sy'n cael ei chanfod yn arwyddocaol o bosibl, dylai'r pwysau a roddir i unrhyw allyriadau cwmplas 3 o'r fath fod yn gymesur ag effeithiau penodol y datblygiad porthladd ar yr allyriadau perthnasol hyn.
- 3.87 Mae'n annhebygol y bydd allyriadau o longau mewn porthladdoedd yng Nghymru a Lloegr yn gyfranwyr sylweddol at newid hinsawdd mewn cyd-destun byd-eang ond mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo'n gryf i leihau allyriadau o longau wrth angori, gan gynnwys er budd amgylcheddol lleol. Lle mae angen Datganiad Amgylcheddol, dylai nodi unrhyw fesurau a gymerwyd i leihau effaith leol allyriadau a hefyd sut mae'r rhain yn debygol o effeithio ar nwyon tŷ gwydr.
- 3.88 Trafnidiaeth fewndirol. Lle bydd datblygiad yn arwain at gynnydd sylweddol mewn anghenion trafndiaeth fewndirol, bydd angen ymdrin â'r effaith amcangyfrifedig ar CO₂, a nwyon tŷ gwydr eraill os ydynt yn arwyddocaol, a all gynnwys Cwmpas 3 eto os yw'n arwyddocaol, yn y Datganiad Amgylcheddol. Fel arfer bydd angen asesiad trafndiaeth hefyd. Gweler paragraffau 4.119 ymlaen a chanllawiau [TAG](#) (ac, yng Nghymru, [WeITAG](#)).
- 3.89 Dylai'r penderfynwr roi pwysau cyfyngedig i berfformiad allyriadau carbon net tebygol datblygiadau porthladd, yn wahanol i effeithiau llygredd lleol, o ystyried y cyfraniad cyfyngedig sy'n debygol o fod yn bosibl yng nghyd-destun ymdrechion byd-eang. Fodd bynnag, efallai y bydd yn briodol cytuno ar ofynion neu rwymedigaethau a fydd yn cadarnhau ffyrdd cost-effeithiol o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr wrth weithredu. Gellid atal caniatâd os gwrthododd yr ymgeisydd dderbyn gofynion neu rwymedigaethau rhesymol a fforddiadwy sy'n gysylltiedig â dylunio neu weithrediadau, neu sy'n deillio o'r asesiad trafndiaeth (gweler paragraffau 4.119 ymlaen eto ar drafndiaeth).

Addasu i newid hinsawdd

- 3.90 Mae Adran 10(3)(a) PA08 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried dymunoldeb lliniaru, ac addasu i, newid hinsawdd wrth ddynodi NPS.
- 3.91 Mae'r adran flaenorol o'r NPS hwn yn ymdrin â lliniaru newid hinsawdd. Er bod lliniaru newid hinsawdd yn hanfodol i leihau effeithiau mwyaf peryglus newid

hinsawdd, mae allyriadau nwyon tŷ gwydr byd-eang blaenorol eisoes wedi ein hymrwymo i ryw raddau o newid hinsawdd parhaus am o leiaf y 30 mlynedd nesaf.

- 3.92 Bydd effeithiau newid hinsawdd yn arwain at y DU yn profi hafau poethach, sychach a gaeafau cynhesach, gwlypach. Mae tebygolrwydd o fwy o lifogydd, sychder, tonnau gwres, digwyddiadau glawiad dwys a digwyddiadau eithafol eraill fel stormydd, yn ogystal â lefelau'r môr yn codi.¹⁹ Mae ardaloedd arfordirol a morol ymhlith y rhai mwyaf agored i effeithiau hinsawdd. Felly mae addasu yn angenrheidiol i ddelio ag effeithiau posibl y newidiadau hyn sydd eisoes yn digwydd.
- 3.93 Mae Deddf Newid Hinsawdd 2008 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywodraeth gwblhau Asesiad Risg Newid Hinsawdd (yr Asesiad Risg Newid Hinsawdd) bob 5 mlynedd, ac yna Rhaglen Addasu Genedlaethol sy'n nodi sut y bydd y llywodraeth yn mynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd yn yr Asesiad Risg Newid Hinsawdd.
- 3.94 Nododd y trydydd Asesiad Risg Newid Hinsawdd sawl risg sy'n berthnasol i'r sector porthladdoedd gan gynnwys: Risgiau i wasanaethau seilwaith o lifogydd ac erydiad arfordirol, a risgiau i drafnidiaeth o dymheredd uchel ac isel, gwyntoedd cryfion, mell.²⁰
- 3.95 Cyhoeddwyd y drydedd Raglen Addasu Genedlaethol yn 2023²¹ ac mae camau gweithredu ar gyfer y sector porthladdoedd wedi'u cynnwys yn yr adran drafnidiaeth.
- 3.96 I gefnogi penderfyniadau cynllunio, mae'r Swyddfa Feteorolegol wedi cynhyrchu set o Ragamcanion Hinsawdd y DU. Yn ogystal, mae Pŵer Adrodd Addasu'r Llywodraeth, o dan y Ddeddf Newid Hinsawdd, yn gwahodd awdurdodau (rhestr ddifiniedig o gyrrff cyhoeddus ac ymgymerywyr statudol, gan gynnwys rhai awdurdodau harbwr statudol²²) i asesu'r risgiau a gyflwynir gan hinsawdd sy'n newid, cynnwys polisïau a champau gweithredu i fynd i'r afael â risg hinsawdd, a nodi'r cynnydd a wnaed.
- 3.97 Mewn rhai amgylchiadau, gall mesurau a weithredir i sicrhau y gall porthladd addasu i newid hinsawdd arwain at effeithiau ychwanegol, e.e. oherwydd amddiffyn rhag risg llifogydd gall fod effeithiau canlyniadol ar newid arfordirol.
- 3.98 Wrth baratoi mesurau i gefnogi addasu i newid hinsawdd, dylai ymgeiswyr gymryd camau rhesymol i wneud y defnydd mwyaf o atebion sy'n seiliedig ar natur i ddarparu'r sail ar gyfer addasu o'r fath. Yn ogystal ag osgoi allyriadau nwyon tŷ gwydr pellach o'u cymharu â rhai dulliau addasu mwy traddodiadol, gall atebion sy'n seiliedig ar natur hefyd arwain at fanteision bioamrywiaeth yn ogystal â chynyddu amsugno carbon deuocsid o'r atmosffer.

Asesiad yr ymgeisydd

- 3.99 Fel arfer, bydd seilwaith porthladd newydd yn golygu buddsoddiadau hirdymor y bydd angen iddynt barhau i weithredu am sawl degawd, yn wyneb hinsawdd sy'n newid. O ganlyniad, rhaid i ymgeiswyr ystyried effeithiau newid hinsawdd wrth

¹⁹ www.metoffice.gov.uk/weather/climate-change/effects-of-climate-change

²⁰ www.ukclimaterisk.org/wp-content/uploads/2021/06/CCRA3-Briefing-Transport.pdf

²¹ www.gov.uk/government/publications/third-national-adaptation-programme-nap3

²² Rhestr o sefydliadau sy'n adrodd o dan y pŵer adrodd addasu: trydydd cylch - GOV.UK (www.gov.uk)

gynllunio lleoliad, dyluniad, adeiladu a gweithredu seilwaith porthladd newydd. Rhaid i gynigion sy'n ddarostyngedig i'r Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol gael eu hategu gan Ddatganiad Amgylcheddol (ES) sy'n disgrifio'r agweddau ar yr amgylchedd sy'n debygol o gael eu heffeithio'n sylweddol gan y prosiect. Dylai'r ES nodi sut y bydd y cynnig yn rheoli risgiau gweithredol sy'n deillio o effeithiau rhagamcanol newid hinsawdd dros oes y porthladd. Dylai hyn gynnwys unrhyw effeithiau uniongyrchol sylweddol newid hinsawdd ar y porthladd (e.e. o lefelau'r môr yn codi) ac unrhyw effeithiau anuniongyrchol sylweddol sy'n deillio o ddibyniaethau gweithredol ar seilwaith glannau a/neu seilwaith ategol (e.e. rhwydweithiau trafndiaeth, cyflenwadau ynni). Bydd hyn yn helpu penderfynwyr a gweithredwyr i ddeall a yw'r porthladd arfaethedig yn wydn i risgiau hinsawdd yn y dyfodol.

3.100 Dylai unrhyw fesurau addasu gael eu llywio gan y set ddiweddaraf o Ragamcanion Hinsawdd y DU, Asesiad Risg Newid Hinsawdd diweddaraf y Llywodraeth ar Newid Hinsawdd y DU, pan fydd ar gael²³ ac wrth ymgynghori â Lwfansau Newid Hinsawdd Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer Asesiadau Perygl Llifogydd. Rhaid asesu unrhyw fesurau addasu eu hunain hefyd fel rhan o unrhyw asesiad amgylcheddol, a ddylai nodi sut a ble y bwriedir sicrhau mesurau o'r fath. Dylai ymgeiswyr arddangos bod gan gynigion lefel uchel o wydnwch hinsawdd wedi'i chynnwys o'r cychwyn cyntaf a dylent hefyd ddangos sut y gellir addasu cynigion dros eu hoes ragweledig. Dylid ystyried y canlyniadau hyn ochr yn ochr ag ymchwil berthnasol sy'n seiliedig ar ragolygon newid hinsawdd megis Mapiau Llifogydd Asiantaeth yr Amgylchedd (EA), asesiad cenedlaethol o berygl llifogydd ac erydiad arfordirol, Mapio Risg Erydiad Arfordirol Cenedlaethol a Chynlluniau Rheoli Traethlin.

3.101 Yn ogystal, lle mae gan seilwaith porthladd elfennau sy'n hanfodol i ddiogelwch (e.e. storio nwy, petrocemegion) dylai'r ymgeisydd gymhwyso senario newid hinsawdd mwyaf credadwy. Mae'n briodol cymryd dull osgoi risg gydag elfennau o seilwaith sy'n hanfodol i ddiogelwch ei weithrediad.

Canllawiau i'r penderfynwr

3.102 Dylai'r penderfynwr fodloni ei hun bod ymgeiswyr am seilwaith porthladd newydd wedi ystyried effeithiau posibl newid hinsawdd gan ddefnyddio'r Rhagamcanion Hinsawdd diweddaraf ar gyfer y DU a oedd ar gael ar yr adeg y paratowyd yr ES, Asesiad Risg Newid Hinsawdd diweddaraf y Llywodraeth, ymchwil gysylltiedig a chanllawiau arbenigol (megis Lwfansau Newid Hinsawdd yr EA ar gyfer Asesiadau Perygl Llifogydd), ac mewn ymgynghoriad â'r EA a chyrrff perthnasol eraill sydd ag arbenigedd ar risgiau hinsawdd, i sicrhau eu bod wedi nodi mesurau addasu priodol. Rhaid i hyn gwmpasu oes amcangyfrifedig y seilwaith newydd. Os bydd set newydd o Ragamcanion Hinsawdd y DU neu ymchwil gysylltiedig yn dod ar gael ar ôl paratoi'r ES, dylai'r penderfynwr ystyried a oes angen iddo ofyn am ragor o wybodaeth gan yr ymgeisydd.

3.103 Os bydd unrhyw fesurau addasu yn arwain at effeithiau canlyniadol, dylai'r penderfynwr ystyried effaith y rheini mewn perthynas â'r cais cyfan a'r canllawiau

²³ Gweler er enghraifft <https://www.gov.uk/government/publications/uk-climate-change-risk-assessment-2022>

effeithiau a nodir mewn mannau eraill yn yr NPS hwn (e.e. ar berygl llifogydd, adnoddau dŵr a newid arfordirol).

- 3.104 Dylai'r penderfynwr fodloni ei hun nad oes nodweddion hollbwysig o ddyluniad seilwaith porthladdoedd newydd a allai gael eu heffeithio'n ddifrifol gan newidiadau mwy sylweddol i'r hinsawdd y tu hwnt i'r hyn a ragwelir yn y set ddiweddaraf o Ragamcanion Hinsawdd y DU, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol gredadwy ddiweddaraf ar, er enghraifft, cynnydd yn lefel y môr (e.e. trwy gyfeirio at senarios mwyaf credadwy ychwanegol gan y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd neu EA) a bod modd cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau gweithrediad y seilwaith dros ei oes amcangyfrifedig.
- 3.105 Dylai unrhyw fesurau addasu gael eu llywio gan y set ddiweddaraf o Ragamcanion Hinsawdd y DU, Asesiad Risg Newid Hinsawdd cenedlaethol diweddaraf y Llywodraeth ac mewn ymgynghoriad â'r EA.
- 3.106 Gellir ei gwneud yn ofynnol i fesurau addasu gael eu gweithredu ar adeg adeiladu lle bo angen a lle bo'n briodol gwneud hynny.
- 3.107 Lle mae angen mesurau addasu i ymdrin ag effaith newid hinsawdd a byddai'r mesur hwnnw'n cael effaith andwyol ar agweddau eraill ar y cais a/neu'r amgylchedd cyfagos (e.e. prosesau arfordirol), gallai'r penderfynwr ystyried ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd sicrhau y gellid gweithredu'r mesur addasu pe bai'r angen yn codi, yn hytrach nag ar ddechrau'r datblygiad (e.e. cynyddu uchder morglawdd presennol, neu ei gwneud yn ofynnol i gael un newydd).

Iechyd a niwsans

- 3.108 Mae gan borthladdoedd y potensial i effeithio ar iechyd, lles ac ansawdd bywyd y boblogaeth, gan gynnwys y potensial ar gyfer niwsans statudol.
- 3.109 Gall datblygiadau porthladdoedd gael effeithiau uniongyrchol ar iechyd, gan gynnwys cynyddu traffig, llygredd aer, llwch, arogl, dŵr llygredig, gwastraff peryglus a phlâu.
- 3.110 Gall datblygiadau porthladdoedd newydd hefyd effeithio ar gyfansoddiad, maint ac agosrwydd y boblogaeth leol, a thrwy wneud hynny gallant gael effeithiau ar iechyd – er enghraifft os ydynt yn effeithio ar fynediad at wasanaethau cyhoeddus allweddol, trafnidiaeth neu ddefnyddio mannau agored ar gyfer hamdden a gweithgarwch corfforol.
- 3.111 Mae Adran 158 PA08 yn rhoi awdurdod statudol i gynnal datblygiad y rhoddir caniatâd ar ei gyfer gan orchymyn sy'n rhoi caniatâd datblygu, neu wneud unrhyw beth arall a awdurdodir gan orchymyn sy'n rhoi caniatâd datblygu. Dim ond at ddiben darparu amddiffyniad mewn achosion sifil neu droseddol am niwsans y rhoddir awdurdod o'r fath. Byddai hyn yn cynnwys amddiffyniad mewn achosion am niwsans o dan Ran III o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (EPA) 1990 (niwsans statudol). Nid yw'r amddiffyniad yn dileu dyletswyddau'r awdurdod lleol o dan Ran III o'r EPA 1990 i archwilio ei ardal a chymryd camau rhesymol ymarferol i ymchwilio i gwynion am niwsans statudol a wneir iddo gan berson sy'n byw yn ei ardal ac i gyflwyno

hysbysiad atal lle mae'n fodlon ei fod yn bodoli, ei fod yn debygol o ddigwydd neu ei fod yn ailddigwydd. Ni fwriedir i'r amddiffyniad ymestyn i achosion lle mae'r mater yn 'niweidiol i iechyd' ac heb fod yn niwsans.

Asesiad yr ymgeisydd

- 3.112 Dylai'r ymgeisydd nodi unrhyw effeithiau andwyol ar iechyd, gan gynnwys y potensial ar gyfer niwsans statudol a nodi mesurau i osgoi, lleihau neu wneud iawn am yr effeithiau hyn yn ôl yr angen.
- 3.113 Mae'n bwysig iawn, yng nghyfnod ymgeisio Cynllun Seilwaith Cenedlaethol (NSIP), bod ffynonellau posibl o niwsans o dan adran 79(1) o Ddeddf 1990 a sut y gellir eu lliniaru neu eu cyfyngu yn cael eu hystyried gan yr ymgeisydd.
- 3.114 Gall yr effeithiau hyn effeithio ar bobl ar yr un pryd, felly dylai'r ymgeisydd ystyried yr effaith gronnus ar iechyd, lles a thegwch.

Canllawiau i'r penderfynwr

- 3.115 Dylai'r penderfynwr ystyried yr effaith gronnus ar iechyd, lles a thegwch.
- 3.116 O ran niwsans statudol, gall y penderfynwr ddatgymhwyso amddiffyniad awdurdod statudol yn gyfan gwbl neu'n rhannol, mewn unrhyw achos penodol, ond wrth wneud hynny dylai ystyried a yw unrhyw niwsans penodol yn ganlyniad anochel i'r datblygiad.

Ystyriaethau diogelwch

- 3.117 Mae ystyriaethau diogelwch cenedlaethol yn berthnasol ar draws pob sector seilwaith cenedlaethol. Mae'r Adran Drafnidiaeth yn gweithredu fel yr Adran Noddwr y Sector ar gyfer y sector porthladdoedd ac yn rhinwedd hyn mae ganddi gyfrifoldeb arweiniol am faterion diogelwch yn y sector hwnnw ac am gyfarwyddo'r dull diogelwch i'w gymryd. Mae'n gweithio'n agos gyda gwasanaethau diogelwch y llywodraeth, gan gynnwys yr [Awdurdod Diogelwch Amddiffynnol Cenedlaethol](#) (NPSA) (y Ganolfan Diogelu Seilwaith Cenedlaethol (CPNI) gynt) a'r [Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol](#) (NCSC), i roi cyngor i'r asedau seilwaith mwyaf hanfodol ar derfysgaeth a bygythiadau diogelwch cenedlaethol eraill, yn ogystal ag ar liniaru risg.
- 3.118 Polisi'r llywodraeth yw sicrhau, lle bo modd, bod mesurau diogelwch amddiffynnol cymesur yn cael eu cynllunio i brosiectau seilwaith newydd yn gynnwys yn natblygiad y prosiect. Lle mae ceisiadau am ganiatâd datblygu ar gyfer seilwaith a gwmpesir gan yr NPS hwn yn ymwneud â seilwaith a allai fod yn 'hanfodol', efallai y bydd ystyriaethau diogelwch cenedlaethol.

Asesiad yr ymgeisydd

- 3.119 Bydd y DfT yn cael ei hysbysu yn ystod y cam cyn-ymgeisio am bob cais tebygol yn y dyfodol am NSIPs porthladd, fel y gellir nodi unrhyw oblygiadau o ran Amddiffyn a/neu ddiogelwch cenedlaethol. Lle mae goblygiadau o ran Amddiffyn neu ddiogelwch cenedlaethol wedi'u nodi, dylai'r ymgeisydd ymgynghori ag arbenigwyr diogelwch perthnasol o CPNI a DfT, er mwyn sicrhau bod mesurau diogelwch ffisegol, gweithdrefnol a phersonél wedi'u hystyried yn ddigonol yn y broses ddylunio a bod ystyriaeth ddigonol wedi'i rhoi i reoli risgiau diogelwch.
- 3.120 Dylai'r ymgeisydd gynnwys dim ond digon o wybodaeth yn y cais sydd ei hangen i alluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i archwilio'r materion caniatâd datblygu a gwneud penderfyniad gwybodus iawn ar y cais.

Canllawiau i'r penderfynwr

- 3.121 Os yw'r NPSA a'r DfT, fel y bo'n briodol, yn fodlon bod materion diogelwch wedi cael sylw digonol yn y prosiect pan gyflwynir y cais i'r penderfynwr, byddant yn cadarnhau hyn i'r penderfynwr, ac ni ddylai fod angen i'r penderfynwr roi unrhyw ystyriaeth bellach i fanylion y mesurau diogelwch yn ei archwiliad.
- 3.122 Ni ddylai datblygiad a gynigir mewn porthladdoedd ragfarnu buddiannau amddiffyn cenedlaethol. Os oes amheuaeth, dylid ymgynghori â'r Weinyddiaeth Amddiffyn.
- 3.123 Mewn achosion eithriadol, lle byddai archwilio cais yn golygu datgelu gwybodaeth am amddiffyn neu ddiogelwch cenedlaethol i'r cyhoedd na fyddai er budd cenedlaethol, gall yr Ysgrifennydd Gwladol ymyrryd a chael tystiolaeth wedi'i hystyried mewn sesiwn gaeedig.

4. Effeithiau generig

Bioamrywiaeth a chadwraeth ddaearegol

- 4.1 Mae'r adran hon yn rhoi canllawiau ar fathau generig o effeithiau sy'n aml yn berthnasol i geisiadau porthladdoedd a/neu ddatblygiadau cysylltiedig. Bioamrywiaeth yw amrywiaeth bywyd ym mhob un o'i ffurfiau ac mae'n cwmpasu pob rhywogaeth o blanhigion ac anifeiliaid, yr amrywiaeth genetig sydd ynddynt a'r ecosystemau cymhleth y maent yn rhan ohonynt. Mae cadwraeth ddaearegol yn ymwneud â'r safleoedd sydd wedi'u dynodi oherwydd eu daeareg a/neu eu pwysigrwydd geomorffolegol. Mae'r polisi a nodir yn yr adrannau canlynol yn cydnabod yr angen i amddiffyn a gwella buddiannau bioamrywiaeth a chadwraeth ddaearegol.
- 4.2 Mae polisi a blaenoriaethau'r Llywodraeth ar gyfer yr amgylchedd naturiol wedi'u nodi yng Nghynllun Gwella Amgylcheddol y Llywodraeth²⁴. Mae cyhoeddi a diweddarau'r Cynllun Gwella Amgylcheddol yn ofynnol gan Ddeddf yr Amgylchedd 2021, ochr yn ochr â thargedau amgylcheddol hirdymor sy'n gyfreithiol rwymol, dyletswydd bioamrywiaeth uwch ar gyfer awdurdodau cyhoeddus, enillion net bioamrywiaeth a strategaethau adfer natur lleol. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ddatblygu dull o ymdrin ag enillion net morol o dan y Cynllun Gwella Amgylcheddol.
- 4.3 Mae'r ystod eang o ddarpariaethau deddfwriaethol rhyngwladol a chenedlaethol sy'n effeithio ar benderfyniadau cynllunio ar faterion bioamrywiaeth a chadwraeth natur wedi'u nodi yn y Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol. Mae'r ddogfen Canllawiau Ymarfer Cynllunio'r Amgylchedd Naturiol²⁵ yn nodi arfer da yn Lloegr mewn perthynas â chynllunio ar gyfer bioamrywiaeth a chadwraeth ddaearegol. Mae canllawiau ar gyfer Cymru wedi'u nodi yn Nodyn Cyngor Technegol 5,²⁶ Cadwraeth Natur a Chynllunio.
- 4.4 Mae porthladdoedd môr o reidrwydd wedi'u lleoli ar arfordiroedd ac aberoedd. Yn aml, mae'r ardaloedd hyn o bwys sylfaenol i fioamrywiaeth, yn enwedig i fywyd adar a physgod, gan weithredu fel y prif feysydd meithrin ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau masnachol ac fel llwybrau mudo hanfodol ar gyfer rhywogaethau eraill.

²⁴Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. [Cynllun Gwella Amgylcheddol 2023](#).

²⁵<https://www.gov.uk/guidance/natural-environment>.

²⁶[Nodiadau cyngor technegol | GOV.WALES](#).

4.5 Gall adeiladu a gweithredu seilwaith porthladdoedd gael effaith andwyol ar fioamrywiaeth a/neu geoamrywiaeth, gan gynnwys drwy:

- garthu i gynnal dyfnderoedd datganedig ac i ddyfnhau dyfroedd i ddarparu ar gyfer llongau mawr. Gall hyn gael goblygiadau ar gyfer cludo gwaddodion, gan gynnwys mygu, a all yn ei dro effeithio ar fywyd gwyllt y môr a gall achosi ail-symud sylweddau a maetholion gwenwynig, cynnydd mewn solidau crog, gwelededd is a gostyngiad mewn ocsigen toddedig;
- trin a storio cargo, a all achosi dŵr ffo, gollyngiadau, neu ollyngiadau i'r amgylchedd morol, a allai gynnwys deunydd gwenwynig neu niweidiol o bosibl, gan gynnwys mater organig neu gyfansoddion olewog. Gall llygredd dŵr a halogiad gwaelodion sy'n deillio o'r carthion hyn arwain at ddirywiad bywyd dyfrol ac adnoddau pysgodfeydd;
- gollwng dŵr balast llongau: mae'r risgiau'n cynnwys y posibilrwydd o gyflwyno rhywogaethau estron;
- erydiad cynefinoedd sy'n deillio o symudiadau llongau;
- sŵn, a all gael effeithiau ar batrymau ymddygiad pysgod a mamaliaid morol;
- llygredd aer o longau a thrafnidiaeth ffyrdd sy'n gwasanaethu'r porthladd;
- cynnydd mewn sbwriel morol; a
- golau, a all newid neu rwystro mudo pysgod trwy aberoedd.

Asesiad yr ymgeisydd

- 4.6 Dylai'r ymgeisydd ystyried yr ystod lawn o effeithiau posibl ar ecosystemau (gan gynnwys cynefinoedd a rhywogaethau gwarchodedig) a darparu gwybodaeth amgylcheddol sy'n gymesur ag effeithiau tebygol y seilwaith ar fioamrywiaeth a natur.
- 4.7 Dylai'r ymgeisydd ddangos sut mae'r prosiect wedi dilyn yr hierarchaeth lliniaru ac wedi manteisio ar gyfleoedd i warchod, adfer a gwella bioamrywiaeth a buddiannau cadwraeth ddaearegol, yn ogystal ag ystyried sut y bydd ei gynnydd yn cyfrannu at dargedau amgylcheddol cenedlaethol a lleol, gan gynnwys y rhai mewn Strategaethau Adfer Natur Lleol, a chyflawni Enillion Net Bioamrywiaeth yn unol â'r polisi a nodir yn adran 3 uchod a gofynion mewn Datganiad Enillion Bioamrywiaeth perthnasol.
- 4.8 Dylai ymgeiswyr gydweithio â rhanddeiliaid sy'n ymwneud â diogelu a gwella ecosystemau lleol, megis partneriaethau arfordirol a chyrrff cadwraeth natur statudol, i sicrhau bod eu cynigion datblygu, gan gynnwys y mesurau lliniaru a gwneud iawn, yn cyd-fynd â strategaethau a chynlluniau natur presennol a rhai sy'n dod i'r amlwg.

Safleoedd Rhyngwladol

- 4.9 Y safleoedd pwysicaf ar gyfer bioamrywiaeth yn y DU yw'r rhai sydd wedi'u nodi a'u dynodi i fodloni rhwymedigaethau confensiynau bioamrywiaeth rhyngwladol, ac sy'n cael amddiffyniad arbennig gan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd) a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017 (fel y'u diwygiwyd) a elwir gyda'i gilydd yn Rheoliadau Cynefinoedd. Mae'r safleoedd hyn wedi'u dynodi'n Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ac fe'u gelwir gyda'i gilydd yn Safleoedd Cynefinoedd. Dylid rhoi'r un amddiffyniad i'r canlynol â safleoedd a warchodir yn gyfreithiol gan y Rheoliadau Cynefinoedd: Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig posibl ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ymgeisydd, Gwlyptiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol rhestredig neu arfaethedig (safleoedd Ramsar); a safleoedd a nodwyd, neu sy'n ofynnol, fel mesurau gwneud iawn am effeithiau andwyol ar safleoedd cynefinoedd.
- 4.10 Mae'r Rheoliadau Cynefinoedd yn nodi proses benodol (gweler paragraffau 4.38 ymlaen) i asesu'r goblygiadau tebygol i'r safleoedd hyn o gynllun neu brosiect arfaethedig, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill. Er mwyn cynnal cydlyniant cyffredinol y Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol, dim ond os yw'r ymgeisydd yn arddangos yn foddhaol na fydd yn effeithio'n andwyol ar gyfanrwydd y safle y caniateir bwrw ymlaen â chynlluniau neu brosiectau o'r fath, neu, yn achos asesiad negyddol, os nad oes atebion eraill, a rhaid iddynt fwrw ymlaen am resymau hanfodol o fudd cyhoeddus tra phwysig gyda'r mesurau gwneud iawn angenrheidiol wedi'u sicrhau. Mae'n bwysig bod yr ymgeisydd yn disgrifio'r dewisiadau eraill yr ystyrir eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion hyn a bod hyn yn cael ei wneud mewn modd cymesur.

Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)

- 4.11 Mae llawer o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig hefyd wedi'u dynodi'n safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol a byddant yn cael eu gwarchod yn unol â hynny. Mae'r rhai nad ydynt, neu'r nodweddion hynny o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig nad ydynt wedi'u cynnwys o dan ddynodiad rhyngwladol, yn cael gradd uchel o warchodaeth gan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Mae'r rhan fwyaf o'r tir sydd wedi'i ddatgan gan Natural England fel Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol hefyd wedi'i hysbysu fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

Parthau Cadwraeth Morol ac Ardaloedd Morol Gwarchodedig iawn

- 4.12 Parthau Cadwraeth Morol (MCZs), a gyflwynwyd o dan Ddeddf Mynediad i'r Môr a'r Arfordir (MCAA) 2009, yw ardaloedd sydd wedi'u dynodi at ddiben gwarchod fflora neu ffawna morol, cynefinoedd morol neu fathau o gynefinoedd morol neu nodweddion o ddiddordeb daearegol neu geomorffolegol. Nodir y nodwedd neu'r nodweddion gwarchodedig a'r amcanion cadwraeth ar gyfer yr MCZ yn y gorchymyn dynodi ar gyfer yr MCZ, sy'n darparu amddiffyniad statudol ar gyfer yr ardaloedd hyn.

Bydd mesurau i gyfyngu ar weithgareddau niweidiol yn cael eu gweithredu gan yr MMO a sefydliadau perthnasol eraill.

- 4.13 O dan adran 126 yr MCAA, rhaid cynnal asesiad MCZ lle mae gweithgaredd yn gallu effeithio (ac eithrio'n ddibwys) naill ai (i) ar nodweddion gwarchodedig MCZ; neu (ii) ar unrhyw broses ecolegol neu geomorffolegol y mae cadwraeth unrhyw nodwedd warchodedig MCZ yn ddibynnol arni (yn gyfan gwbl neu'n rhannol). Rhaid i ymgeisydd fodloni'r awdurdod naill ai (i) nad oes unrhyw risg sylweddol y bydd y weithred yn rhwystro cyflawniad yr amcanion cadwraeth a nodwyd ar gyfer yr MCZ neu (ii) nad oes unrhyw ffordd arall o fwrw ymlaen sy'n creu risg sylweddol is, bod y budd cyhoeddus yn gorbwyso'r risg o ddifrod amgylcheddol, ac y cyflawnir Mesurau Budd Amgylcheddol Cyfwerth (MEEB) i'r difrod a fydd neu sy'n debygol o gael ei achosi i'r MCZ.
- 4.14 Ardaloedd Morol Gwarchodedig lawn (HPMAs) yw ardaloedd o'r môr sy'n caniatáu amddiffyniad ac adferiad llawn ecosystemau morol. Mae'r safleoedd hyn yn amddiffyn pob rhywogaeth, cynefin a phroses ecosystem cysylltiedig o fewn ffin y safle. Bydd angen mesurau rheoli i hyrwyddo amcan cadwraeth HPMAs.

Safleoedd Rhanbarthol a Lleol

- 4.15 Mae gan safleoedd o ddiddordeb bioamrywiaeth a daearegol rhanbarthol a lleol, sy'n cynnwys Safleoedd Daearegol Pwysig Rhanbarthol, Gwarchodfeydd Natur Lleol a Safleoedd Lleol, rôl sylfaenol i'w chwarae wrth gyrraedd targedau bioamrywiaeth cenedlaethol cyffredinol; cyfrannu at ansawdd bywyd a lles y gymuned; ac wrth gefnogi ymchwil ac addysg.

Cynefinoedd anadnewyddadwy, gan gynnwys coetiroedd hynafol, coed hynafol a hen goed a choed a choetiroedd

- 4.16 Gall coetiroedd hynafol, porfeydd coed hynafol a pharcdir, a choed hynafol a hen fod yn berthnasol weithiau i geisiadau porthladdoedd. Mae eu presenoldeb hirhoedlog, eu rhywogaethau a'u ffurf yn gwasanaethu fel cofnod diwylliannol cyfoethog o arferion rheoli'r gorffennol. Mae coed hynafol a hen yn adnodd bioamrywiaeth gwerthfawr ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau ac amodau ecolegol unigryw, unwaith y byddant wedi'u colli ni ellir eu hail-greu. Mae llawer o goetiroedd hynafol yn darparu gwasanaethau ecosystem, er enghraifft, iechyd dŵr a phridd, storio carbon, lliniaru llifogydd a lliniaru llygredd yn ogystal â darparu mynediad cyhoeddus, gan ganiatáu i bobl wneud cyswllt pwysig â natur sy'n helpu hyrwyddo diddordeb mewn gwarchod y cynefinoedd hyn, gan ddarparu llawer o fanteision iechyd a lles. Mewn achosion o'r fath, gall y rhestr o goetiroedd hynafol, y rhestr o hen goed a'r canllawiau cyngor sefydlog gynorthwyo i benderfynu ar unrhyw effaith bosibl ar gynefinoedd o'r fath²⁷.
- 4.17 Mae Keepers of Time, a gyhoeddwyd o dan y Llywodraeth flaenorol, yn nodi polisi'r Llywodraeth ar gyfer coed a choetiroedd hynafol a brodorol yn Lloegr, yn ogystal â nodi'r ymrwymiad i gynnal a gwella'r ardal bresennol o goetiroedd hynafol, cynnal a gwella'r adnodd presennol o goed hynafol a hen hysbys, gan eithrio colledion naturiol

²⁷ Gweler [MAGIC \(defra.gov.uk\)](https://www.gov.uk/guidance/ancient-woodland-ancient-trees-and-veteran-trees-advice-for-making-planning-decisions) ar gyfer y mapiau a <https://www.gov.uk/guidance/ancient-woodland-ancient-trees-and-veteran-trees-advice-for-making-planning-decisions> am ganllawiau ar effeithiau a lliniaru.

o ganlyniad i glefyd a marwolaeth, ac i gynyddu canran y coetiroedd hynafol mewn rheolaeth weithredol.

- 4.18 Dylid cadw coed a choetiroedd presennol gymaint â phosibl. Dylai'r ymgeisydd asesu'r effeithiau ar, a cholled, pob coeden a choetir o fewn ffin y prosiect a datblygu mesurau lliniaru i leihau effeithiau andwyol ac unrhyw risg o ddatgoedwigo net o ganlyniad i'r cynllun (mae Cynefinoedd Anadnewyddadwy²⁸ angen ystyriaeth ar wahân). Gall lliniaru gynnwys defnyddio clustogfeydd i wella gwydnwch, gwelliannau i gysylltedd, a rheoli coetiroedd yn well. Lle na ellir osgoi colli coetiroedd, bydd angen cynlluniau gwneud iawn, a dylid sicrhau rheolaeth a chynnal a chadw hirdymor ar gyfer coed sydd newydd eu plannu. Dylai ymgeiswyr gynnwys mesurau i osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol datblygiad ar bob coetir yn ystod y cyfnod cynllunio, adeiladu a gweithredu a dylid manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i blannu coed a chreu coetiroedd.
- 4.19 Mae coedwigoedd cynhyrchiol yn darparu buddion economaidd i gymunedau ac yn sicrhau cyflenwad o adnoddau pren domestig. Yn ogystal, mae coedwigoedd, coed a choetiroedd hefyd yn darparu gwasanaethau ecosystem ehangach. Mae'r Cynllun Gwella Amgylcheddol yn cydnabod yr angen i amddiffyn a chynyddu canopi coed a gorchudd coetir. Nodir camau gweithredu penodol yng Nghynllun Gweithredu Coed Lloegr 2021 i 2024, gan gynnwys ymrwymiad i sicrhau y bydd diwygiadau cynllunio cryf yn arwain at fwy o goed yn cael eu plannu a sicrhau amddiffyniadau cryf i goed presennol.
- 4.20 Dylai ymgeiswyr gynnwys mesurau i liniaru'n llawn effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol datblygiad ar goetir hynafol, coed hynafol a hen neu gynefinoedd eraill na ellir eu hadnewyddu yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu. Ni ddylai'r Ysgrifennydd Gwladol roi caniatâd datblygu ar gyfer unrhyw ddatblygiad a fyddai'n arwain at golli neu ddirywiad unrhyw gynefinoedd na ellir eu hadnewyddu, gan gynnwys coetir hynafol, a choed hynafol a hen oni bai bod rhesymau cwbl eithriadol a bod strategaeth gwneud iawn addas yn bodoli.
- 4.21 Lle bo modd, dylai prosiectau gynnwys aildddefnyddio deunyddiau a defnyddio deunyddiau cynaliadwy fel pren, neu ddeunyddiau wedi'u hailgylchu.

Gwarchod rhywogaethau

- 4.22 Mae llawer o rywogaethau bywyd gwyllt unigol yn derbyn gwarchodaeth statudol o dan ystod o ddarpariaethau deddfwriaethol.²⁹

²⁸ Cynefinoedd anadnewyddadwy yw cynefinoedd a fyddai'n anodd iawn yn dechnegol (neu'n cymryd amser sylweddol iawn) i'w hadfer, eu hail-greu neu eu hamnewid ar ôl eu dinistrio, gan ystyried eu hoedran, eu hunigrywiaeth, eu hamrywiaeth rhywogaethau neu eu prinder.

²⁹ Mae rhywogaethau penodol o blanhigion ac anifeiliaid, gan gynnwys pob aderyn gwyllt, wedi'u gwarchod o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Mae rhywogaethau planhigion ac anifeiliaid Ewropeaidd wedi'u gwarchod o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010. Mae rhai anifeiliaid eraill wedi'u gwarchod o dan eu deddfwriaeth eu hunain, er enghraifft Deddf Diogelu Moch Daear 1992.

4.23 Mae rhai rhywogaethau a chynefinoedd wedi'u nodi fel rhai o bwys mawr ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth yng Nghymru a Lloegr³⁰ ac oherwydd hynny maent yn galw am gamau cadwraeth. Fel awdurdod cyhoeddus, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi'i rwymo gan y ddyletswydd yn adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (fel y'i diwygiwyd gan adran 102 o Ddeddf yr Amgylchedd 2021) i ystyried yn rheolaidd pa gamau y gall yr awdurdod eu cymryd, yn gyson â chyflawni ei swyddogaethau, i hyrwyddo cadwraeth a gwella bioamrywiaeth. Wrth wneud hynny, gall yr Ysgrifennydd Gwladol ystyried yr effaith ar rywogaethau neu gynefinoedd a restrir o dan adran 41 o Ddeddf 2006. Dylai'r Ysgrifennydd Gwladol sicrhau bod ymgeiswyr wedi cymryd mesurau i sicrhau bod y rhywogaethau a'r cynefinoedd hyn yn cael eu hamddiffyn rhag effeithiau andwyol datblygiad trwy ddefnyddio gofynion a osodir ar roi caniatâd datblygu, rhwymedigaethau cynllunio, neu amodau trwydded. Dylai'r Ysgrifennydd Gwladol wrthod caniatâd lle byddai niwed i'r cynefinoedd neu'r rhywogaethau a'u cynefinoedd yn deillio o hynny, oni bai bod manteision y datblygiad (gan gynnwys yr angen) yn amlwg yn drech na'r niwed hwnnw.

4.24 Rhaid i ymgeiswyr nodi, asesu a rheoli effeithiau posibl ar rywogaethau pysgod mudol a'u cynefinoedd yn unol â'r hierarchaeth lliniaru. Dylent:

- gynnal asesiad cadarn o bresenoldeb, poblogaeth a phatrymau symud rhywogaethau pysgod mudol a allai gael eu heffeithio gan y datblygiad;
- osgoi tarfu ar lwybrau mudol hysbys neu debygol (a all fod o sŵn, carthu, gollyngiadau, tynnu dŵr neu strwythurau ffisegol), gan gymryd dull rhagofalus yn absenoldeb data digonol neu ddibynadwy;
- ystyried effeithiau cronus gan gynnwys effeithiau seilwaith porthladdoedd presennol;
- cynnwys mesurau lliniaru i reoli unrhyw effeithiau na ellir eu hosgoi, ac os oes effeithiau gweddilliol, fel dewis olaf, cynnwys pecyn gwneud iawn sy'n darparu canlyniadau cyfatebol neu well i'r poblogaethau yr effeithir arnynt. Dylid cytuno ar y cynigion hyn gydag Asiantaeth yr Amgylchedd (a Natural England lle bo'n briodol) a gallant gynnwys mecanweithiau ar gyfer monitro a rheoli tymor hir;
- nodi a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i gyflawni gwelliannau net i bysgod mudol, megis cael gwared ar rwystrau i lwybrau pysgod.

Lliniaru

4.25 Er mwyn osgoi niwed neu aflonyddu uniongyrchol ac anuniongyrchol yn unol â'r hierarchaeth lliniaru, dylai'r ymgeisydd arddangos:

³⁰ I Gymru, mae'r rhestr o gynefinoedd a rhywogaethau o bwys pennaf yn www.biodiversitywales.org.uk/wales_biodiversity_partnership_documents-134.aspx. Cyhoeddwyd Strategaeth ar y cyd ar Rhywogaethau Estron Ymledol Prydain Fawr ym mis Chwefror 2023. Mae dangosyddion bioamrywiaeth ar gyfer y DU yn cael eu diweddarau'n rheolaidd.

- fod datblygiadau wedi'u cynllunio i osgoi'r risg o niwed, er enghraifft drwy osgoi derbynyddion sensitif yn lleoliad ac ôl troed y datblygiad, osgoi ymyrryd â chyrff dŵr, a/neu gadw nodweddion cynefin pwysig y safle;
- mae datblygiadau wedi'u cynllunio a'u tirlunio i ddarparu coridorau gwyrdd a glas ac osgoi darnio cynefinoedd (er enghraifft defnyddio isffyrdd neu bontydd gwyrdd i gysylltu cynefinoedd, ac osgoi creu rhwystrau newydd i symudiad rhywogaethau);
- yn ystod y gwaith adeiladu a gweithredu, dilyniar arfer gorau i sicrhau bod y risg o aflonyddu neu ddifrod i rywogaethau neu gynefinoedd yn dilyn yr hierarchaeth lliniaru. Er enghraifft, cynllunio ar gyfer gwaith adeiladu a charthu i'w wneud ar adegau penodol i osgoi amseroedd a lleoliadau sensitif, fel tymor bridio adar gwyllt a chylchoedd bywyd pysgod mudol.

4.26 Os nad yw osgoi neu leihau niwed yn bosibl, dylai'r ymgeisydd gynnwys mesurau lliniaru priodol, yn unol â'r hierarchaeth lliniaru, er mwyn osgoi effeithiau sylweddol tebygol fel rhan annatod o'r datblygiad arfaethedig, gan gynnwys nodi ble a sut y bydd y rhain yn cael eu sicrhau yn y tymor hir. Yn benodol, dylai'r ymgeisydd arddangos:

- yn ystod y gwaith adeiladu, bydd yn ceisio sicrhau y bydd gweithgareddau'n cael eu cyfyngu i'r ardaloedd lleiaf sydd eu hangen ar gyfer y gwaith;
- yn ystod y gwaith adeiladu a gweithredu, bydd arfer gorau yn cael ei ddilyn i sicrhau bod y risg o aflonyddu neu ddifrod i rywogaethau neu gynefinoedd yn cael ei lleihau i'r lleiafswm, gan gynnwys o ganlyniad i drefniadau mynediad trafndiaeth;
- bydd cynefinoedd, lle bo'n ymarferol, yn cael eu hadfer ar ôl i'r gwaith adeiladu orffen; a
- bydd cyfleoedd yn cael eu cymryd i wella cynefinoedd presennol a, lle bo'n ymarferol, i greu cynefinoedd newydd o werth o fewn cynigion tirlunio'r safle.

Canllawiau i'r penderfynwr

4.27 Dylai'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried amcanion a thargedau Cynllun Gwella Amgylcheddol y llywodraeth, Confensiwn Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol 1992 ac unrhyw fesurau a thargedau perthnasol, megis targedau Deddf yr Amgylchedd 2021, y Cynlluniau Rheoli Basn Afon perthnasol, a Deddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975.

4.28 Wrth wneud hynny, dylai'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd ystyried cyd-destun her newid hinsawdd. Gall manteision datblygu seilwaith trafndiaeth carbon isel o arwyddocâd cenedlaethol gynnwys manteision i fuddiannau bioamrywiaeth a chadwraeth ddaearegol a gall y manteision hyn fod yn bwysicach na'r niwed i'r buddiannau hyn. Fodd bynnag, bydd angen cymhwyso'r hierarchaeth lliniaru o hyd.

4.29 Fel egwyddor gyffredinol, ac yn amodol ar y polisiâu penodol isod, dylai datblygiad, er mwyn glynu wrth yr hierarchaeth lliniaru, osgoi niwed sylweddol i fuddiannau bioamrywiaeth a chadwraeth ddaearegol yn y lle cyntaf, gan gynnwys trwy ystyried dewisiadau amgen rhesymol a chymesur o fewn rheolaeth yr ymgeisydd, a bod yn

ymwybodol o'r budd cenedlaethol yng ngwydnwch capasiti porthladd yn gyffredinol. Os nad yw osgoi yn bosibl, mae angen ystyried lleihau effeithiau ac yna lliniaru (fel y nodir mewn paragraffau uchod). Lle na ellir osgoi neu lliniaru niwed sylweddol, dylid gwneud iawn amdano fel dewis olaf, gan ystyried lliniaru ar y safle cyn lliniaru oddi ar y safle. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi pwyslais sylweddol ar unrhyw niwed gweddilliol. Dylai gwneud iawn ddarparu enillion, a dylid cytuno arno gyda'r ymgynghorwyr cadwraeth natur perthnasol, gan gynnwys Natural England ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn ôl yr angen.

- 4.30 Mae cynigion datblygu porthladdoedd yn darparu llawer o gyfleoedd ar gyfer adeiladu bioamrywiaeth fuddiol neu nodweddion daearegol fel rhan o ddylunio da, megis rhwystrau naturiol i wneud lle i gynefin rhynglanwol a therasau rhynglanwol llystyfiant. Wrth ystyried cynigion, dylai'r penderfynwr wneud y mwyaf o gyfleoedd o'r fath mewn datblygiadau ac o'u cwrdd, gan gynnwys gwneud y mwyaf o gyfleoedd a nodwyd mewn Strategaethau Adfer Natur Lleol cyhoeddedig neu sy'n dod i'r amlwg, gan ddefnyddio gofynion neu gytundebau cynllunio lle bo'n briodol.
- 4.31 Dylid sicrhau pecynnau creu neu wella cynefinoedd a gynigir at ddibenion cyflawni enillion net bioamrywiaeth yn y tymor hir, am o leiaf 30 mlynedd.
- 4.32 Dylai'r penderfynwr wrthod caniatâd lle byddai niwed i'r cynefinoedd neu'r rhywogaethau a'u cynefinoedd yn deillio o hynny, oni bai bod manteision (gan gynnwys yr angen am) y datblygiad yn amlwg yn drech na'r niwed hwnnw.
- 4.33 Wrth wneud penderfyniadau, dylai'r Ysgrifennydd Gwladol sicrhau bod pwysau priodol yn cael ei roi i: safleoedd dynodedig o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol a lleol; cynefinoedd na ellir eu hadnewyddu³¹; rhywogaethau a chynefinoedd gwarchodedig; rhywogaethau eraill o bwys mawr ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth; ac i fuddiannau bioamrywiaeth a daearegol o fewn yr amgylchedd ehangach, gan gynnwys ardaloedd a flaenoriaethwyd ar gyfer adferiad natur yn y strategaethau adfer natur lleol perthnasol.³²
- 4.34 Lle mae datblygiad arfaethedig ar dir o fewn neu y tu allan i Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn debygol o gael effaith andwyol ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (naill ai'n unigol neu ar y cyd â datblygiadau eraill), ni ddylid rhoi caniatâd datblygu fel arfer. Yr unig eithriad yw lle mae manteision y datblygiad yn y lleoliad arfaethedig yn amlwg yn gorbwyso ei effaith debygol ar nodweddion y safle sy'n ei wneud o ddiddordeb gwyddonol arbennig, ac unrhyw effeithiau ehangach ar y rhwydwaith cenedlaethol o Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi'i rwymo gan y ddyletswydd a roddir ar bob corff cyhoeddus yn adran 28G o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 i gymryd camau rhesymol, yn gyson â chyflawni eu swyddogaethau'n briodol, i hyrwyddo cadwraeth a gwella'r nodweddion sydd wedi achosi i'r safle fod o ddiddordeb gwyddonol arbennig.

³¹ Cynefinoedd a fyddai'n anodd iawn yn dechnegol (neu'n cymryd amser sylweddol iawn) i'w hadfer, eu hail-greu neu eu hamnewid ar ôl eu dinistrio, gan ystyried eu hoedran, eu hunigrywiaeth, eu hamrywiaeth rhywogaethau neu eu prinder. Maent yn cynnwys coetir hynafol, coed hynafol a hen, corsydd, palmant calchfaen, twyni tywod, morfa heli a ffen iseldir.

³² Gallai [Estuary Edges](#), wedi'i baratoi ar gyfer y PLA, fod yn gyfeirnod defnyddiol.

- 4.35 Dylai'r penderfynwr roi ystyriaeth ddyledus i ddynodiadau rhanbarthol neu leol. Fodd bynnag, o ystyried yr angen am seilwaith newydd, ni ddylid defnyddio'r dynodiadau hyn ynddynt eu hunain i wrthod caniatâd datblygu.
- 4.36 Fel awdurdod cyhoeddus, mae'r penderfynwr wedi'i rwymo gan y dyletswyddau mewn perthynas â Pharthau Cadwraeth Morol (MCZs) a osodir gan adrannau 125-126 Deddf Mynediad i'r Môr a'r Arfordir 2009.
- 4.37 Os, ar ôl dilyn yr hierarchaeth lliniaru, nad yw mesurau osgoi a lliniaru pwrpasol yn ddigonol i reoli'r effeithiau ar gynefinoedd a rhywogaethau, fel dewis olaf, dylid ceisio a gweithredu mesurau gwneud iawn priodol. Mae angen i fesurau gwneud iawn ddarparu ar gyfer gwerth cyfatebol neu fwy o fioamrywiaeth. Dylai'r penderfynwr ystyried pa ofynion priodol y dylid eu cysylltu ag unrhyw ganiatâd a/neu rwymedigaethau cynllunio a wneir.
- 4.38 Bydd angen i'r penderfynwr ystyried y cyngor a roddwyd i'r ymgeisydd gan Natural England (neu Cyfoeth Naturiol Cymru) a/neu'r Sefydliad Rheoli Morol (MMO) a/neu'r EA, ac a yw'r sefydliadau hyn wedi rhoi neu wrthod, neu'n bwriadu rhoi neu wrthod, unrhyw drwyddedau neu ganiatadau perthnasol, gan gynnwys trwyddedau lliniaru rhywogaethau gwarchodedig. Cyn y cyflwyniad ffurfiol, anogir ymgeiswyr i ddefnyddio Dull Llythyr Dim Rhwystr Natural England ac ymgysylltu â Natural England.

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Asesiad yr ymgeisydd

- 4.39 Lle gallai cynllun neu brosiect effeithio ar safle cynefinoedd, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill, rhaid i'r awdurdod cymwys (yn achos gorchymyn caniatâd datblygu, yr Ysgrifennydd Gwladol) gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA). Rhaid i'r ymgeisydd ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar yr awdurdod cymwys i wneud penderfyniad. Gall yr ymgeisydd baratoi'r wybodaeth hon ar ffurf HRA drafft. Dylai'r ymgeisydd hefyd ystyried cytuno ar Gynllun Tystiolaeth gyda'r Corff Cadwraeth Natur Statudol (SNCB) i helpu penderfynu ar y wybodaeth sydd ei hangen.³³
- 4.40 Cynghorir yr ymgeisydd i geisio cyngor cynnar gan yr SNCB priodol a darparu unrhyw wybodaeth y gall yr Ysgrifennydd Gwladol fod ei hangen yn rhesymol i benderfynu a ddylai'r cynllun neu'r prosiect symud ymlaen i gam yr Asesiad Priodol o'r Asesiad Rheoleiddiadau Cynefinoedd ai peidio. Rhaid i gynlluniau neu brosiectau symud ymlaen i gam yr Asesiad Priodol o HRA os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried y gallent gael effaith sylweddol ar safle cynefinoedd.
- 4.41 Yng ngham yr Asesiad Priodol, asesir goblygiadau'r cynllun neu'r prosiect ar gyfer y safle cynefinoedd yng ngoleuni amcanion cadwraeth y safle. Gellir ystyried mesurau lliniaru yn y cam hwn. Dyma fesurau sy'n atal unrhyw effaith andwyol a nodwyd rhag

³³ Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol. Nodyn Cyngor Un ar Ddeg, Atodiad H – Cynlluniau Tystiolaeth ar gyfer Asesiadau Rheoleiddiadau Cynefinoedd o Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol

digwydd fel y rhagwelwyd. Rhaid ymgynghori'n ffurfiol â'r SNCB at ddibenion gwneud yr asesiad priodol a rhaid ystyried ei gyngor. Dim ond os daw'r Ysgrifennydd Gwladol, ar sail yr asesiad priodol, i'r casgliad na fyddant yn effeithio'n andwyol ar gyfanrwydd y safle cynefinoedd y caniateir bwrw ymlaen â chynlluniau neu brosiectau o'r fath. Yr unig eithriad i hyn yw os rhoddir rhanddirymiad i'r cynllun neu'r prosiect. I ganiatáu rhanddirymiad, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol fod yn fodlon nad oes unrhyw atebion eraill a bod yn rhaid i'r cynllun neu'r prosiect fynd rhagddo am resymau hanfodol o fudd cyhoeddus tra phwysig, a bod modd sicrhau mesurau gwneud iawn. Rhaid i'r ymgeisydd arddangos ei fod wedi ceisio cyngor gan yr SNCB ynghylch a yw unrhyw fesurau gwneud iawn arfaethedig yn briodol i gynnal cydlyniant cyffredinol Rhwydwaith y Safleoedd Cenedlaethol.

- 4.42 Ni fydd darparu gwybodaeth o'r fath yn cael ei gymryd fel derbyniad o effeithiau andwyol ar gyfanrwydd ac os yw ymgeisydd yn anghytuno â'r tebygolrwydd o effeithiau andwyol, gall ddarparu'r wybodaeth hon heb ragfarn i benderfyniad terfynol yr Ysgrifennydd Gwladol ar effeithiau'r datblygiad posibl ar safle'r cynefinoedd. Os, yn yr amgylchiadau hyn, nad yw ymgeisydd yn cyflenwi gwybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer asesu rhanddirymiad posibl, ni fydd disgwyl i'r Ysgrifennydd Gwladol ganiatáu cyfle i'r ymgeisydd ddarparu gwybodaeth o'r fath yn dilyn yr archwiliad.
- 4.43 Yn ystod y cyfnod cyn-ymgeisio, a heb ragfarnu'r HRA ffurfiol ar gyfer y cynllun neu'r prosiect a gyflwynwyd, os yw'r SNCB yn rhoi arwydd cynnar, waeth beth fo unrhyw fesurau lliniaru disgwylidig, bod y datblygiad arfaethedig yn debygol iawn o arwain at effeithiau andwyol ar gyfanrwydd un neu fwy o safleoedd cynefinoedd, rhaid i'r ymgeisydd gynnwys gyda'i gais y wybodaeth sydd ei hangen i asesu rhanddirymiad posibl o dan y Rheoliadau Cynefinoedd.³⁴

Canllawiau i'r penderfynwr

- 4.44 Cyfeiriwch at baragraff 4.1 uchod ar fioamrywiaeth a chadwraeth ddaearegol. Os bydd angen Asesiad Priodol, rhaid i'r ymgeisydd ddarparu'r wybodaeth y gall fod ei hangen yn rhesymol i'r penderfynwr er mwyn iddo allu cynnal yr Asesiad Priodol. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am unrhyw fesurau lliniaru a gynigir i leihau neu osgoi effeithiau tebygol.
- 4.45 Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol sicrhau, ar gyfer prosiectau y bernir bod ganddynt effaith sylweddol debygol ar gynefinoedd / rhywogaethau gwarchodedig, mai dim ond os daw'r asesiad i'r casgliad na fyddant yn effeithio'n andwyol ar gyfanrwydd y safle neu, er gwaethaf asesiad negyddol, nad oes unrhyw atebion eraill, y bydd y prosiect yn mynd rhagddo, a rhaid iddo fynd rhagddo am resymau hanfodol o fuddiant cyhoeddus tra phwysig. Dylid asesu dewisiadau eraill yn gymesur.
- 4.46 Os bodlonir y dewisiadau eraill a'r profion IROPI, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol fod yn fodlon hefyd fod unrhyw fesurau gwneud iawn gofynnol wedi'u sicrhau.

³⁴ Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol [Nodyn Cyngor Deg: Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd sy'n berthnasol i brosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol | Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol \(planninginspectorate.gov.uk\)](#)

Carthu

4.47 Yn aml iawn, mae gofynion carthu yn elfen ganolog o gais datblygu porthladd, yn hanfodol i ddarparu capasiti cychwynnol a pharhaus, ac yn codi ystyriaethau ar gyfer asesiad amgylcheddol, ac ar gyfer yr hierarchaeth lliniaru a'r mesurau gwneud iawn.

Asesiad yr ymgeisydd

4.48 Fel gyda gwaith ar ochr y tir, dylai'r datblygiad, i ddechrau, er mwyn glynu wrth yr hierarchaeth lliniaru, osgoi niwed sylweddol i fuddiannau bioamrywiaeth a chadwraeth ddaearegol, gan gynnwys drwy ystyried dewisiadau eraill rhesymol. Os nad yw osgoi yn bosibl, mae angen ystyried lliniaru, a lle na ellir osgoi na lliniaru niwed sylweddol, dylid gwneud iawn amdano fel dewis olaf. Bydd bob amser yn bwysig arddangos bod yr hierarchaeth lliniaru wedi'i dilyn, gyda rhagdybiaeth o'r opsiwn mwyaf cynaliadwy, fel bod effeithiau amgylcheddol carthu a dyddodiad yn cael eu lleihau a'u rheoli'n briodol.

4.49 Mae'r angen i arddangos yr hierarchaeth lliniaru yn cael ei bwysleisio gan enillion net bioamrywiaeth (BNG) ac mae'n cael ei ystyried fel rhan o ddatblygiad enillion net morol (MNG).

4.50 **Gwaith carthu dyfnhaol:** lle mae angen gwaith carthu dyfnhaol (h.y. carthu newydd, neu garthu ar ôl cyfnod o fwy na 10 mlynedd, y tu hwnt i ddyfnderoedd neu ystod ddaearyddol carthu cynnal a chadw blaenorol, ar gyfer pocedi angori a/neu sianeli) fel rhan o'r datblygiad, bydd angen i hyn fod yn destun asesiad amgylcheddol, gan gynnwys effeithiau tebygol ar safleoedd neu rywogaethau Ewropeaidd gwarchodedig, a bydd bron yn sicr o fod angen trwydded forol MMO [dybiedig]³⁵. Fel addasiad ffisegol, bydd angen ei asesu o dan Rheoliadau Amgylchedd Dŵr (Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017 ac o dan OSPAR a Chonfensiwn/Protocol Llundain. Bydd dyddodi deunydd wedi'i garthu ar dir i'w adfer neu ei waredu yn amodol ar yr angen am drwydded gan Asiantaeth yr Amgylchedd, neu gofrestru esemptiad. Nid oes gofyniad i archaeolegydd cymwys fod ar fwrdd carthwr sy'n ymwneud â gwaith carthu dyfnhaol, er y gallai hyn fod yn briodol lle mae tystiolaeth hanesyddol neu hydrograffig i gyfiawnhau hyn. Am ganllawiau pellach ar asedau hanesyddol, gweler paragraffau 4.261 ymlaen isod.

4.51 **Gwaith carthu cynnal a chadw:** ers 2014, mae carthu a gwaredu cynnal a chadw yn weithgaredd trwyddedadwy gan y Sefydliad Morol, gydag esemptiadau. Mae'r Protocol Carthu Cynnal a Chadw³⁶ yn tywys gweithredwyr a rheoleiddwyr ar weithgareddau gwaith carthu cynnal a chadw a allai effeithio ar safleoedd Ewropeaidd o amgylch arfordir Lloegr. Mae Rheoliadau Amgylchedd Dŵr

³⁵ Mae rhai gweithgareddau carthu'n esempt rhag gofynion trwydded forol (er enghraifft, gweler adran 75 Deddf Mynediad Morol ac Arfordirol 2009, Gorchymyn Trwyddedu Morol (Gweithgareddau Esempt) 2011/409, Erthyglau 18, 18A, 23).

³⁶ <http://archive.defra.gov.uk/wildlife-pets/wildlife/protect/bird-habitat/mdpe.htm>. Defnyddir y protocol gwaith carthu cynnal a chadw i greu dogfen sylfaenol ar gyfer porthladdoedd sy'n ymgymryd â gweithrediadau carthu/gwaredu yn rheolaidd, lle gellir gwneud yr angen am AA. Dylai unrhyw asesiad yn yr ES ystyried y ddogfen sylfaenol i weld a fydd cynnydd yn faint o waith carthu cynnal a chadw sy'n ofynnol gan y datblygiad yn effeithio'n andwyol ar y safle dynodedig.

(Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017 ac OSPAR hefyd yn berthnasol³⁷.

- 4.52 Mae'r Protocol yn darparu ar gyfer asesiad amgylcheddol o waith carthu cynnal a chadw fel rhaglen, gan osgoi unrhyw angen i ailasesu ar wahân bob tro y bydd carthu unigol yn cael ei wneud. Dylai hyn amlygu unrhyw ofyniad i waredu neu ddefnyddio sgil-gynhyrchion ar dir, yn hytrach nag ar y môr.
- 4.53 Mae carthu yn digwydd dros sawl blwyddyn, ac yn ystod y cyfnod hwnnw gall dosbarthiadau amgylcheddol, safonau a gofynion cyfreithiol newid. Er enghraifft, gallai ymgyrch carthu ymestyn dros 2 neu 3 chylch o Gynllun Rheoli Basn Afon. Dylai'r ymgeisydd nodi yn ei asesiad sut y bydd yn monitro effeithiau amgylcheddol ei weithgareddau carthu ac yn diweddarau ei fesurau asesu a lliniaru i sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio â safonau amgylcheddol newydd neu wedi'u diweddarau, e.e. Safonau Ansawdd Amgylcheddol y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr.
- 4.54 Dylai'r ymgeisydd nodi pa effaith (os o gwbl) y bydd y datblygiad yn ei chael ar ofynion gwaith carthu cynnal a chadw, a lle bo angen dylai sicrhau bod asesiad priodol drafft o dan y Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer y datblygiad cyfan yn ymgorffori gwaith carthu cynnal a chadw canlyniadol.
- 4.55 Dylid rheoli deunydd a garthwyd o borthladdoedd yn unol â'r Hierarchaeth Gwastraff, gan ystyried nodweddion y deunyddiau (e.e. maint gronynnau, lefelau halogiad) a hyfywedd logistaidd ac economaidd. Yn unol â'r Hierarchaeth Gwastraff, lle mae 'atal' yn anochel, ystyrir mai 'paratoi ar gyfer ailddefnyddio' yw'r opsiwn mwyaf ffafriol ar gyfer rheoli gwaddod a garthwyd sy'n deillio o hynny. Gellir diffinio'r defnydd buddiol o waddod a garthwyd (BUDS) fel 'defnyddio deunydd a garthwyd mewn modd a fydd o fudd i gymdeithas a'r amgylchedd naturiol' ([Laboyrie et al, 2018](#); [Manning et al, 2021](#)). Gall defnyddiau buddiol gynnwys dulliau 'peirianeg' (e.e. rheoli risg, deunyddiau adeiladu) a '[gwella'r amgylchedd](#)' (e.e. [creu cynefinoedd](#)). Dylai ymgeiswyr ddefnyddio adnoddau presennol i ystyried a datblygu cyfleoedd BUDS yn llawn cyn ystyried gwaredu ar y môr. Er mwyn helpu datblygu dulliau tymor hwy o reoli adnoddau gwaddod, dylai ymgeiswyr ddefnyddio'r [Syllwr Data Adnoddau Gwaddodion Carthu](#), gan weithio gyda phartneriaid lle bo modd, i gefnogi cydlynu strategol cyflenwad gwaddodion wedi'u carthu posibl a chyfleoedd BUDS. Mae gan waredu'r flaenoriaeth isaf yn yr Hierarchaeth Gwastraff ac mae'r dulliau'n cynnwys gwaredu dŵr agored, gwaredu dyfrol cyfyngedig, neu gyfleusterau gwaredu cyfyngedig.
- 4.56 Dylid darparu amserlen ar gyfer sut y bydd deunyddiau'n cael eu rheoli o unrhyw waith carthu dyfnhaol a/neu waith carthu cynnal a chadw, gyda'r Cynllun Rheoli Deunyddiau, er mwyn hwyluso nodweddu deunyddiau'n gynnar, ac i nodi lle y gallai fod angen caniatâd neu asesiadau pellach.

³⁷Gweler manylion ar ddadansoddi gwaddodion a Lefelau Gweithredu mewn [Trwyddedu Morol: cynlluniau dadansoddi gwaddodion a samplu - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#).

Canllawiau i'r penderfynwr

- 4.57 Dylid ystyried gofynion trwydded forol tybiedig (o dan PA08) neu ar wahân yn Lloegr ar sail cyngor gan yr MMO.
- 4.58 Bydd angen y trwyddedau hyn ar gyfer gosod unrhyw ddeunyddiau a garthwyd yn y môr a dyfroedd llanw eraill unrhyw le islaw Penllanw cymedrig y Gorllanw yn ardal forol y DU (fel y'i diffinnir yn adran 42 MCAA09). Yng Nghymru, ni fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gallu tybio trwyddedau morol yn awtomatig o dan PA08. Felly, efallai y bydd angen trwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Rheoli llygredd a chyfundrefnau rheoleiddio amgylcheddol eraill

- 4.59 Gall materion sy'n ymwneud â gollyngiadau neu allyriadau o brosiect arfaethedig sy'n effeithio ar ansawdd aer, ansawdd dŵr, ansawdd tir a'r amgylchedd morol, neu sy'n cynnwys sŵn a dirgryniad, fod yn destun rheoleiddio ar wahân o dan y fframwaith rheoli llygredd neu gyfundrefnau caniatâd a thrwyddedu eraill.
- 4.60 Mae'r systemau cynllunio a rheoli llygredd ar wahân ond yn gyflenwol. Mae'r system gynllunio yn rheoli datblygu a defnyddio tir er budd y cyhoedd. Mae'n chwarae rhan allweddol wrth amddiffyn a gwella'r amgylchedd naturiol, iechyd a diogelwch y cyhoedd, ac amwynder, er enghraifft trwy atodi gofynion i ganiatáu i ddatblygiadau na fyddai fel arall yn dderbyniol yn amgylcheddol fynd rhagddynt ac atal datblygiad niweidiol na ellir ei wneud yn dderbyniol hyd yn oed trwy ofynion.
- 4.61 Mae rheoli llygredd yn ymwneud ag atal llygredd trwy ddefnyddio mesurau i wahardd neu gyfyngu i'r lefel ymarferol isaf ar ryddhau sylweddau i'r amgylchedd o wahanol ffynonellau. Mae hefyd yn sicrhau bod ansawdd aer, dŵr a thir amgylchynol yn bodloni safonau sy'n gwarchod rhag effeithiau ar yr amgylchedd neu iechyd pobl.

Asesiad yr ymgeisydd

- 4.62 Dylai'r ymgeisydd ymgynghori â'r [Sefydliad Rheoli Morol](#) (MMO) yn Lloegr, neu Lywodraeth Cymru yng Nghymru ar brosiectau o arwyddocâd cenedlaethol a fyddai'n effeithio ar, neu a fyddai'n debygol o effeithio ar, unrhyw ardaloedd morol perthnasol fel y'u diffinnir yn PA08 (fel y'i diwygiwyd gan adran 23 MCAA09). Gall y caniatâd datblygu gynnwys trwydded forol dybiedig, a bydd y MMO yn cynghori ar ba amodau ddylai fod yn berthnasol i'r drwydded forol dybiedig. Dylai'r penderfynwr a'r MMO (neu Lywodraeth Cymru) gydweithredu'n agos i sicrhau bod NSIPs wedi'u trwyddedu yn unol ag unrhyw gynllun morol drafft neu fabwysiedig perthnasol, yn ogystal â deddfwriaeth amgylcheddol.
- 4.63 Gall prosiectau a gwmpesir gan yr NPS hwn fod yn ddarostyngedig i'r gyfundrefn Trwyddedu Amgylcheddol³⁸, sydd hefyd yn ymgorffori gofynion rheoli gwastraff gweithredol ar gyfer gweithgareddau penodol neu weithgareddau llygrol, gan gynnwys trin cargo. Pan fydd datblygwr yn gwneud cais am Drwydded

³⁸ Gweler Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010, OS 2010/675, <http://www.legislation.gov.uk/ukSI/2010/675/contents/made>.

Amgylcheddol, mae'r rheoleiddiwr perthnasol (fel arfer Asiantaeth yr Amgylchedd neu Gyfoeth Naturiol Cymru, ond weithiau'r awdurdod lleol) yn ei gwneud yn ofynnol bod y cais yn arddangos bod prosesau ar waith i fodloni'r holl ofynion Trwyddedu Amgylcheddol perthnasol.

- 4.64 Dylai ymgeiswyr ymgynghori ag Awdurdod Cymwys COMAH (gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) fel y pwynt cyswllt cychwynnol, a fydd yn trosglwyddo materion ymgynghori i Asiantaeth yr Amgylchedd yn ystod y cam cyn-ymgeisio³⁹ os yw'n debygol y bydd angen caniatâd sylweddau peryglus ar y prosiect. Mae'r HSE yn gosod pellter ymgynghori o amgylch pob safle sydd â chaniatâd sylweddau peryglus ac yn hysbysu'r awdurdodau cynllunio lleol perthnasol. Felly, dylai'r ymgeisydd ymgynghori â'r awdurdod cynllunio lleol yn ystod y cam cyn-ymgeisio i nodi a yw ei safle arfaethedig o fewn pellter ymgynghori unrhyw safle sydd â chaniatâd sylweddau peryglus ac, os felly, dylai ymgynghori â'r HSE am ei gyngor ar leoli'r datblygiad penodol yno.
- 4.65 Dylai ymgeiswyr ddeall pa drwyddedau / caniatadau nad ydynt yn ganiatadau cynllunio y bydd eu hangen ar y datblygiad ac ystyried yr amseru ar gyfer cael y caniatadau hyn ochr yn ochr â'r amseru ar gyfer cael y DCO. Dylent gysylltu'n gynnar â rheoleiddwyr perthnasol, gan gynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd neu Gyfoeth Naturiol Cymru a'r MMO, i drafod eu gofynion ar gyfer Trwyddedau Amgylcheddol a chaniatadau eraill, megis trwyddedau morol. Gall ymgeiswyr gael mynediad at gymorth cyn-ymgeisio uwch (â thâl) cyn gwneud cais am drwydded amgylcheddol. Argymhellir cyngor cyn-ymgeisio uwch ar gyfer datblygiadau cymhleth neu arwyddocaol i sicrhau bod ceisiadau'n cynnwys yr asesiadau angenrheidiol i fynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd arfaethedig. Gall ymgeiswyr hefyd archwilio opsiynau, megis cyflwyno eu cais fesul cam drwy'r llwybr hwn os yw'r cais yn gymhleth neu'n defnyddio technolegau newydd. Argymhellir ymgysylltu â rheoleiddwyr amgylcheddol i gael cyngor cyn-ymgeisio ar y caniatadau sydd eu hangen ar gyfer y datblygiad cyn gynted â phosibl, er mwyn helpu rheoli amserlenni ar gyfer datblygu a helpu sicrhau bod dyluniad y prosiect yn ystyried gofynion trwyddedu o'r cychwyn cyntaf. Gall methu â chynllunio ar gyfer hyn yn gynnar yn y broses ddatblygu achosi oedi yn ddiweddarach.
- 4.66 Lle bynnag y bo'n briodol, dylai ymgeiswyr amseru'r cyflwyniad ar gyfer ceisiadau am Drwyddedau Amgylcheddol a chaniatadau angenrheidiol eraill i alluogi olrhain ochr yn ochr â'r cais i'r Ysgrifennydd Gwladol am ganiatâd datblygu. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu cyflwyno ceisiadau ar yr un pryd. Bydd sgysiau cynnar â rheoleiddwyr yn helpu deall amserlenni.

Canllawiau i'r penderfynwr

- 4.67 Dylai'r penderfynwr fod yn fodlon y gellir rhoi caniatâd datblygu, gan ystyried effeithiau amgylcheddol yn llawn a bod yn fodlon y gellir cael yr holl ganiatâd angenrheidiol arall (gan gynnwys Trwyddedau Amgylcheddol a thrwyddedau morol). Bydd hyn yn gofyn am gydweithrediad agos ag Asiantaeth yr Amgylchedd a/neu'r awdurdod rheoli llygredd, Llywodraeth Cymru a chyrrff perthnasol eraill, fel y Sefydliad Rheoli Morol, Natural England neu Cyfoeth Naturiol Cymru, Byrddau Draenio ac

³⁹ Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan yr HSE: <https://www.hse.gov.uk/coshh/>.

ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth, er mwyn sicrhau, yn achos datblygiadau a allai fod yn llygreddig:

- bod yr awdurdod rheoli llygredd perthnasol yn fodlon y gellir rheoleiddio gollyngiadau posibl yn ddigonol o dan y fframwaith rheoli llygredd; ac
- nad yw effeithiau ffynonellau llygredd presennol yn y safle ac o'i gwmpas yn golygu y byddai effeithiau cronus llygredd pan ychwanegir y datblygiad arfaethedig yn gwneud y datblygiad hwnnw'n annerbyniol, yn enwedig mewn perthynas â therfynau a thargedau ansawdd amgylcheddol statudol.

4.68 Wrth ystyried cais am ganiatâd datblygu, dylai'r penderfynwr ganolbwyntio ar a yw'r datblygiad ei hun yn ddefnydd derbyniol o'r tir, ac ar effeithiau'r defnydd hwnnw, yn hytrach na rheoli prosesau, allyriadau neu ollyngiadau sy'n rhan o'r system drwyddedu amgylcheddol. Dylai'r penderfynwr weithio ar y dybiaeth y bydd y gyfundrefn rheoli llygredd berthnasol, cyfundrefnau rheoleiddio amgylcheddol eraill, gan gynnwys y rhai ar ddraenio tir, tynnu dŵr a bioamrywiaeth yn cael eu cymhwyso a'u gorfodi'n briodol gan y rheoleiddiwr perthnasol. Dylai weithredu i'w hategu ond nid i geisio ei ddyblygu.

4.69 Lle gwneir cais am ganiatâd sylweddau peryglus, bydd y penderfynwr yn ystyried a ddylid gwneud gorchymyn yn cyfarwyddo y dylid ystyried bod caniatâd sylweddau peryglus wedi'i roi ochr yn ochr â gwneud gorchymyn sy'n rhoi caniatâd datblygu. Dylai'r penderfynwr ymgynghori ag Awdurdod Cymwys COMAH (gyda'r HSE fel y pwynt cyswllt cychwynnol, a fydd yn trosglwyddo materion ymgynghori i'r EA) ynghylch hyn.

4.70 Bydd HSE yn asesu'r risgiau yn seiliedig ar y cais am ganiatâd datblygu. Lle nad yw HSE yn cynghori yn erbyn i'r penderfynwr roi'r caniatâd, bydd hefyd yn argymhell a ddylid rhoi'r caniatâd yn amodol ar unrhyw amodau.

4.71 Ni ddylai'r penderfynwr wrthod caniatâd ar sail effeithiau rheoleiddiedig oni bai fod ganddo reswm da i gredu na fydd unrhyw ganiatadau neu drwyddedau rheoli llygredd gweithredol perthnasol angenrheidiol neu ganiatadau eraill yn cael eu rhoi wedi hynny.

Perygl Ilifogydd

4.72 Mae llifogydd yn broses naturiol sy'n chwarae rhan bwysig wrth lunio'r amgylchedd naturiol. Fodd bynnag, mae llifogydd yn bygwth bywyd ac yn achosi difrod sylweddol i eiddo. Gall effeithiau digwyddiadau tywydd ar yr amgylchedd naturiol, bywyd ac eiddo gynyddu o ran difrifoldeb, o ganlyniad i benderfyniadau ynghylch lleoliad, dyluniad a natur aneddiadau a defnydd tir, ac fel canlyniad posibl i newid hinsawdd yn y dyfodol. Er na ellir atal llifogydd yn llwyr, gellir osgoi neu leihau eu heffeithiau andwyol trwy gynllunio a rheoli da.

4.73 Mae'n debygol y bydd newid hinsawdd dros yr ychydig ddegawdau nesaf yn golygu gaeafau mwynach a gwlypach a hafau poethach a sychach yn y DU, tra bydd lefelau'r môr yn parhau i godi. O fewn oes NSIPs, bydd y ffactorau hyn yn arwain at fwy o berygl llifogydd mewn ardaloedd sy'n agored i lifogydd, ac at fwy o berygl

llifogydd mewn rhai ardaloedd nad ydynt yn cael eu hystyried ar hyn o bryd fel rhai sydd mewn perygl. Dylai'r ymgeisydd a'r penderfynwr ystyried y polisi ar addasu i newid hinsawdd ym mharagraffau 3.90 ymlaen.

4.74 Nodau polisi cynllunio ar ddatblygu a pherygl llifogydd yw sicrhau bod perygl llifogydd o bob ffynhonnell llifogydd yn cael ei ystyried ym mhob cam o'r broses gynllunio, er mwyn osgoi datblygiadau amhriodol mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd ac i gyfeirio datblygiadau i ffwrdd o ardaloedd sydd mewn perygl uchaf. Lle mae datblygiad newydd yn eithriadol angenrheidiol mewn ardaloedd o'r fath, gan gynnwys datblygiad 'sy'n gydnaws â dŵr', nod polisi yw ei wneud yn ddiogel heb gynyddu'r perygl llifogydd mewn mannau eraill a lle bo modd, lleihau'r perygl llifogydd yn gyffredinol. Mae prif elfennau seilwaith porthladd sydd angen lleoliad ar lan y dŵr (e.e. dociau, glanfeydd) yn ddatblygiad sy'n gydnaws â dŵr, ond gall elfennau eraill sy'n gysylltiedig â'r porthladd ddod o dan ddosbarthiad bregusrwydd gwahanol (e.e. gosodiadau sydd angen caniatâd sylweddau peryglus, swyddfeydd). Dylid adlewyrchu gwahanol fregusrwydd yn yr Asesiad Perygl Llifogydd, yn unol â Chanllawiau Ymarfer Cynllunio. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i fynnu Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) mewn datblygiadau newydd.

Asesiad yr ymgeisydd

4.75 Dylai ceisiadau am brosiectau yn y lleoliadau parthau llifogydd canlynol fod ynghyd ag Asesiad Risg Llifogydd:

- ceisiadau ym Mharthau Llifogydd 2 a 3, sy'n cynrychioli tebygolrwydd canolig ac uchel o lifogydd afonydd neu'r môr;
- ceisiadau ym Mharthau Llifogydd 1, sy'n cynrychioli tebygolrwydd isel o lifogydd afonydd a'r môr, sy'n cynnwys: prosiectau o 1 hectar neu fwy, prosiectau a allai fod yn destun ffynonellau llifogydd eraill (cyrsiau dŵr lleol, dŵr wyneb, dŵr daear neu gronfeydd dŵr), prosiectau lle mae'r map llifogydd ar gyfer cynllunio neu Asesiad Perygl Llifogydd Strategol yr awdurdod cynllunio lleol yn dangos y bydd y safle mewn mwy o berygl o lifogydd yn ystod ei oes, prosiectau mewn ardaloedd lle mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol bod problemau draenio critigol, neu brosiectau sy'n cynnwys cynyddu'r dosbarthiad bregusrwydd llifogydd a gallai datblygiad fod yn destun ffynonellau llifogydd heblaw afonydd neu'r môr.

4.76 Y gofynion lleiaf ar gyfer FRAs yw y dylent:

- fod yn briodol i raddfa, natur a lleoliad y datblygiad ac yn gymesur â graddfa'r perygl llifogydd;
- ystyried y perygl llifogydd sy'n deillio o'r prosiect, yn ogystal â'r perygl llifogydd i'r prosiect;
- ystyried effeithiau newid hinsawdd, gan nodi'n glir oes y datblygiad y gwnaed yr asesiad drosto. O ystyried gwydnwch ac anhawster addasu elfennau strwythurol parhaol porthladdoedd, mae oes o 100 mlynedd yn debygol o fod yn fan cychwyn addas;

- cael ei wneud gan bobl gymwys, cyn gynted â phosibl yn y broses o baratoi'r cynnig;
- ystyried effeithiau andwyol a buddiol posibl seilwaith rheoli perygl llifogydd, gan gynnwys amddiffynfeydd uchel, sianeli llif, ardaloedd storio llifogydd a nodweddion artiffisial eraill, ynghyd â chanlyniadau eu methiant;
- ystyried pa mor agored i niwed yw'r rhai sy'n defnyddio'r safle, gan gynnwys trefniadau ar gyfer mynediad a dianc diogel;
- ystyried a meintio'i'r gwahanol fathau o lifogydd (boed o ffynonellau naturiol neu ddynol a chan gynnwys effeithiau ar y cyd a chronnus) a nodi mesurau lleihau perygl llifogydd, fel bod asesiadau'n addas at ddiben y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud;
- ystyried effeithiau amrywiaeth o ddigwyddiadau llifogydd, gan gynnwys digwyddiadau eithafol ar bobl, eiddo, yr amgylchedd naturiol a hanesyddol a phrosesau afonydd ac arfordirol;
- cynnwys yr asesiad o'r perygl sy'n weddill (a elwir yn berygl 'gweddilliol') ar ôl ystyried mesurau lleihau perygl ac arddangos bod hyn yn dderbyniol ar gyfer y prosiect penodol;
- ystyried sut y gall gallu dŵr i socian i'r ddaear newid gyda datblygiad, ynghyd â sut y gall cynllun arfaethedig y prosiect effeithio ar systemau draenio;
- ystyried a oes angen bod yn ddiogel a pharhau i weithredu yn ystod digwyddiad llifogydd gwaethaf posibl dros oes y datblygiad; a
- cael eu cefnogi gan ddata a gwybodaeth briodol, gan gynnwys gwybodaeth hanesyddol am ddigwyddiadau blaenorol.

4.77 Gellir dod o hyd i ganllawiau pellach yn y Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol a dylai ymgeiswyr roi sylw penodol i'r canllawiau ar [Berygl Llifogydd a Newid Arfordirol](#). Mae canllawiau i Gymru yn [TAN 15](#).

4.78 Dylai ymgeiswyr am brosiectau a allai gael eu heffeithio gan, neu a allai ychwanegu at, berygl llifogydd drefnu trafodaethau cyn ymgeisio gyda'r penderfynwr ac Asiantaeth yr Amgylchedd, a, lle bo'n berthnasol, cyrff eraill fel Byrddau Draenio Mewnol, ymgymmerwyr carthffosiaeth, awdurdodau mordwyo, awdurdodau priffyrdd a pherchnogion a gweithredwyr cronfeydd dŵr. Dylai trafodaethau o'r fath nodi tebygolrwydd a maint a natur posibl y perygl llifogydd, er mwyn helpu cwmpasu'r FRA, a nodi'r wybodaeth y bydd ei hangen ar y penderfynwr i ddod i benderfyniad ar y cais pan gaiff ei gyflwyno. Dylai'r penderfynwr gynghori darpar ymgeiswyr i gymryd y camau hyn lle maent yn ymddangos yn angenrheidiol ond nad ydynt wedi cael sylw eto.

4.79 Os oes gan Asiantaeth yr Amgylchedd bryderon ynghylch y cynnig ar sail perygl llifogydd, dylai'r ymgeisydd drafod y pryderon hyn gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a chymryd pob cam rhesymol i gytuno ar ffyrdd y gellid diwygio'r cynnig, neu ddarparu gwybodaeth ychwanegol, a fyddai'n bodloni pryderon Asiantaeth yr Amgylchedd.

Risgiau o fewn porthladdoedd

- 4.80 Yn gyffredinol, bydd er budd yr hyrwyddwyr eu hunain bod ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i effeithiau newid hinsawdd a'r tebygolrwydd cynyddol o ddigwyddiadau tywydd eithafol mewn ceisiadau, fel na fydd unrhyw golled fasnachol yn cael ei phrofi oherwydd diffyg seilwaith.
- 4.81 Barn y Llywodraeth yw, wrth asesu agweddau gwydnwch masnachol y cyfleuster porthladd, nad oes angen 'er lles y cyhoedd', ar sail gwydnwch cenedlaethol, i fynnu manyleb uwch nag a fydd yn sicrhau cydnerthedd masnachol y cyfleuster unigol, er gwaethaf y ffaith y gall rhai mathau o dywydd garw effeithio ar bob porthladd mewn rhanbarth neu ar hyd darn penodol o arfordir, er enghraifft o ymchwydd storm. Mae'r NPS hwn yn darparu'n fwy cyffredinol ar gyfer gwydnwch ac amrywiaeth darpariaeth porthladdoedd. Bydd ymgeiswyr yn y sefyllfa orau i wneud barn fasnachol ar fesurau addasu priodol i reoli'r risg o newid hinsawdd gan ei fod yn effeithio ar eu cyfleusterau eu hunain. Dylai'r farn fasnachol gael ei llywio gan ddealltwriaeth o risgiau hinsawdd ar seilwaith porthladdoedd yr ymgeisydd a'r seilwaith cysylltiedig (e.e. cysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd), wedi'i chefnogi gan asesiad risg hinsawdd.

Perygl llifogydd y tu allan i ardal y porthladd

- 4.82 Mae angen i'r ymgeisydd ystyried effaith datblygiad y porthladd ar y perygl llifogydd y tu allan i ardal y porthladd. Ni ddylai datblygiad, ar ôl mesurau lliniaru os oes angen, gynyddu'r perygl llifogydd mewn mannau eraill.

Datblygiad cysylltiedig

- 4.83 Gall datblygiad cysylltiedig gynnwys cyfleusterau nad oes rhaid eu lleoli ar neu gerllaw ystâd y porthladd. Lle bynnag y bo'n dechnegol ymarferol ac yn economaidd rhesymol, dylid cyfeirio cyfleusterau ar y tir at safleoedd sydd â thebygolrwydd isel o lifogydd o bob ffynhonnell. Yn ogystal â'r gofynion uchod, dylid cymhwyso Prawf Dilyniannol i arddangos nad oes unrhyw safleoedd sydd ar gael yn rhesymol a fyddai'n briodol i'r math o ddatblygiad neu ddefnydd tir arfaethedig, mewn ardaloedd â thebygolrwydd sylweddol is o lifogydd.

Lliniaru

- 4.84 Er mwyn rheoli'r perygl llifogydd yn foddhaol, mae angen trefniadau i reoli dŵr wyneb ac effaith y cylch dŵr naturiol ar bobl ac eiddo. Dylai datblygiad ymgorffori systemau draenio cynaliadwy (SuDS), oni bai fod tystiolaeth glir y byddai hyn yn amhriodol. Dylid cefnogi ceisiadau gan Strategaeth SuDS, sy'n dangos sut y bydd y Safonau Cenedlaethol ar gyfer SuDS yn cael eu bodloni.
- 4.85 Yn y ddogfen hon, mae'r term Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) yn cyfeirio at yr ystod gyfan o ddulliau cynaliadwy o reoli draenio dŵr wyneb, gan gynnwys, lle bo'n briodol:
- mesurau rheoli ffynonellau, gan gynnwys ailgylchu a draenio dŵr glaw;

- dyfeisiau treiddio i ganiatáu i ddŵr socian i'r ddaear, a all gynnwys suddfannau unigol a chyfleusterau cymunedol;
- stribedi a phantiau hidlo, sef nodweddion llystyfiant sy'n dal ac yn draenio dŵr i lawr y bryn, gan efelychu patrymau draenio naturiol;
- draeniau hidlo a phalmentydd mân-dyllog i ganiatáu i ddŵr glaw a dŵr ffo dreiddio i ddeunydd athraidd o dan y ddaear a darparu storfa os oes angen;
- basnau a phyllau i ddal dŵr gormodol ar ôl glaw a chaniatáu rhyddhau rheoledig sy'n osgoi llifogydd; a
- llwybrau llifogydd i gario a chyfeirio dŵr gormodol trwy ddatblygiadau i leihau effaith llifogydd glaw difrifol.

4.86 Dylai cynllun y safle a systemau draenio dŵr wyneb ymdopi â digwyddiadau sy'n fwy na chynhwysedd dylunio'r system, fel y gellir storio dŵr gormodol yn ddiogel ar y safle neu ei gludo o'r safle heb effeithiau andwyol.

4.87 Dylai trefniadau draenio dŵr wyneb ar gyfer unrhyw brosiect fod o'r fath fel nad yw cyfeintiau a chyfraddau llif brig dŵr wyneb sy'n gadael y safle yn fwy na'r cyfraddau cyn y prosiect arfaethedig, oni bai fod trefniadau penodol oddi ar y safle yn cael eu gwneud ac yn arwain at yr un effaith net.

4.88 Efallai y bydd angen darparu storfa a threiddiad dŵr wyneb i gyfyngu a lleihau'r gyfradd brig o ryddhau o'r safle a'r cyfanswm cyfaint sy'n cael ei ryddhau o'r safle. Gall fod amgylchiadau lle mae'n briodol darparu storfa arafu treiddiad y tu allan i safle'r prosiect, os oes angen trwy ddefnyddio rhwymedigaeth gynllunio. Lle cynigir draenio treiddiad, ni ddylai hynny achosi llygredd i ansawdd dŵr wyneb neu ddŵr daear.

4.89 Dylid nodi unrhyw effeithiau o'r datblygiad arfaethedig ar seilwaith draenio presennol, fel goferoedd. Dylai'r ymgeisydd ddangos sut y bydd yr effeithiau hyn yn cael eu rheoli i osgoi cynyddu'r perygl llifogydd neu lygredd.

4.90 Dylid defnyddio dull dilyniannol ar gyfer cynllun a dyluniad y prosiect. Dylid lleoli defnyddiau mwy agored i niwed ar rannau o'r safle sydd mewn llai o berygl llifogydd. Gallai hyn gynnwys asesu'r datblygiad mewn rhannau cydrannol, megis seilwaith porthladd, mannau storio a gosod, swyddfeydd, cysgu hanfodol, trafndiaeth ategol a llwybrau gwacáu a lleoli'r elfennau mwyaf agored i niwed mewn ardaloedd â'r risg isaf, lle bo'n ymarferol, a sicrhau bod mynediad a llwybrau dianc diogel ar gael. Dylai ymgeiswyr geisio cyfleoedd i ddefnyddio mannau agored at ddibenion lluosog, megis amwynder, cynefin bywyd gwyllt a defnyddiau storio llifogydd. Dylid manteisio ar gyfleoedd i leihau'r perygl llifogydd trwy leihau ôl troed adeiledig safleoedd a ddatblygwyd yn flaenorol a defnyddio SuDS.

4.91 Dylid dylunio seilwaith hanfodol y mae'n rhaid ei leoli mewn ardaloedd perygl llifogydd i aros yn weithredol pan fydd llifogydd yn digwydd.

4.92 Dylid arddangos sut y mae cyfleoedd i ddarparu, gwella neu alluogi rheoli perygl llifogydd wedi'u nodi a'u hymgorffori yn y cynigion, gan gynnwys trwy gyfraniadau

datblygwyr a chyfleoedd i weithio gyda phrosesau naturiol⁴⁰. Dylai hyn gael ei lywio gan strategaethau a chynlluniau llifogydd presennol neu sy'n dod i'r amlwg a thrwy ymgynghori ag awdurdodau rheoli risg perthnasol i sicrhau bod y cynigion yn gydnaws â rheoli perygl llifogydd y presennol a'r dyfodol. Dylid diogelu tir rhag datblygiad sydd ei angen, neu sy'n debygol o fod ei angen, ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac arfordirol presennol neu yn y dyfodol, gan gynnwys ar gyfer mynediad, cynnal a chadw asedau a/neu weithgareddau adeiladu. Lle mae amddiffynfeydd llifogydd newydd yn cael eu hymgorffori yn y porthladd, dylent gysylltu'n briodol ag amddiffynfeydd presennol neu arfaethedig. Dylid dangos blaenoriaeth tuag at opsiynau 'goddefol' lle bo'n ymarferol ac yn ddichonadwy. Lle mae angen amddiffynfeydd llifogydd 'gweithredol' (e.e. gatiau, rhwystrau) yna dylid arddangos sut y bydd y risgiau gweddilliol yn cael eu rheoli ac unrhyw reolaethau gweithredol (e.e. protocol agor/cau).

- 4.93 Mae derbyn ac ymateb i rybuddion llifogydd yn elfen hanfodol wrth reoli'r perygl gweddilliol o lifogydd. Dylai cynlluniau rhybuddio llifogydd a gwacáu fod ar waith ar gyfer yr ardaloedd hynny sydd mewn perygl a nodwyd o lifogydd. Dylai ymgeiswyr gymryd cyngor gan y gwasanaethau brys wrth gynhyrchu cynllun gwacáu ar gyfer y prosiect fel rhan o'r FRA. Dylid nodi unrhyw ddogfennau cynllunio brys, rhybuddion llifogydd a gweithdrefnau gwacáu sydd eu hangen yn yr FRA.

Canllawiau i'r penderfynwr

- 4.94 Pan fo perygl llifogydd yn ffactor wrth benderfynu ar gais am ganiatâd datblygu, dylai'r Ysgrifennydd Gwladol fod yn fodlon, lle bo'n berthnasol:

- mae'r cais wedi'i gefnogi gan Asesiad Risg Llifogydd priodol;
- mae Prawf Dilyniannol wedi'i gymhwyso'n foddhaol fel rhan o ddewis safle ac, os oes angen, y Prawf Eithriad.
- Wrth benderfynu ar gais, dylai'r Ysgrifennydd Gwladol fod yn fodlon na fydd y perygl llifogydd yn cynyddu mewn mannau eraill a dim ond ystyried datblygiad yn briodol mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd lle (ar ôl cael ei lywio gan Asesiad Risg Llifogydd, yn dilyn y Prawf Dilyniannol ac, os oes angen, y Prawf Eithriad), gellir arddangos bod:
- o fewn y safle, y datblygiad mwyaf agored i niwed yw mewn ardaloedd â'r perygl llifogydd isaf oni bai bod rhesymau gor-redol dros ffafrio lleoliad gwahanol;
- mae'r datblygiad yn wydn ac yn gallu gwrthsefyll llifogydd yn briodol, gan gynnwys mynediad diogel a llwybrau dianc lle bo angen, a bod modd rheoli unrhyw risg weddilliol yn ddiogel, gan gynnwys trwy gynllunio am argyfyngau. Dylid ymgorffori systemau draenio cynaliadwy oni bai bod tystiolaeth glir y byddai hyn yn amhriodol.

⁴⁰ <https://www.gov.uk/flood-and-coastal-erosion-risk-management-research-reports/working-with-natural-processes-to-reduce-flood-risk>

- 4.95 Ar gyfer gwaith adeiladu sydd â goblygiadau draenio⁴¹, bydd cymeradwyaeth ar gyfer system draenio'r prosiect yn rhan o unrhyw ganiatâd datblygu a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Felly, bydd angen i'r Ysgrifennydd Gwladol fod yn fodlon bod y system draenio arfaethedig yn cydymffurfio â Safonau Technegol a gyhoeddwyd gan Weinidogion⁴². Yn ogystal, bydd angen i'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu, neu unrhyw rwymedigaethau cynllunio cysylltiedig, wneud darpariaeth ar gyfer mabwysiadu a chynnal unrhyw Systemau Draenio Cynaliadwy, gan gynnwys unrhyw hawliau mynediad angenrheidiol i eiddo. Dylai Systemau Draenio Cynaliadwy ddarparu buddion amlswyddogaethol a helpu cyflawni Enillion Net Bioamrywiaeth. Dylai'r Ysgrifennydd Gwladol fod yn fodlon bod y corff mwyaf priodol yn cael y cyfrifoldeb am gynnal unrhyw Systemau Draenio Cynaliadwy, gan ystyried natur a diogelwch y seilwaith ar y safle arfaethedig. Gallai'r corff cyfrifol gynnwys, er enghraifft, yr ymgeisydd, perchennog y tir, yr awdurdod lleol perthnasol a'r Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy perthnasol neu gorff arall fel y Bwrdd Draenio Mewnol. Lle cynigir Systemau Draenio Cynaliadwy o fath ymdreiddiad, argymhellir ceisiadau blaenorol gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i sicrhau nad ydynt yn achosi llygredd i ansawdd dŵr wyneb a dŵr daear a dylai ymgeiswyr ystyried rôl cadwyni rheoli Systemau Draenio Cynaliadwy i reoli a thrin dŵr ffo.
- 4.96 Os yw Asiantaeth yr Amgylchedd yn parhau i fod â phryderon ac yn gwrthwynebu rhoi caniatâd datblygu ar sail perygl llifogydd, gall y penderfynwr roi caniatâd, ond byddai angen iddo fod yn fodlon cyn penderfynu a ddylid gwneud hynny ai peidio bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd gan yr ymgeisydd ac Asiantaeth yr Amgylchedd i geisio datrys y pryderon.
- 4.97 Ni ddylai'r penderfynwr ganiatáu datblygiad ym Mharth Llifogydd 2 (yn Lloegr neu Barth B yng Nghymru), oni bai ei fod yn fodlon bod gofynion y Prawf Dilyniannol wedi'u bodloni. Ni ddylai ganiatáu datblygiad ym Mharth Llifogydd 3 (neu Barth C) oni bai ei fod yn fodlon bod gofynion y Prawf Dilyniannol a'r Prawf Eithriad wedi'u bodloni (gweler isod). Fodd bynnag, wrth geisio caniatâd datblygu ar safle a ddyrannwyd mewn cynllun datblygu trwy gymhwyso'r Prawf Dilyniannol, wedi'i lywio gan asesiad perygl llifogydd strategol, nid oes angen i ymgeiswyr gymhwyso'r Prawf Dilyniannol, ond dylent gymhwyso'r dull dilyniannol i leoli datblygiad o fewn y safle.

Y Prawf Dilyniannol

- 4.98 Nod y prawf dilyniannol yw llywio datblygiad newydd i ardaloedd sydd â'r perygl isaf o lifogydd o unrhyw ffynhonnell. Ni ddylid caniatáu datblygiad os oes safleoedd ar gael yn rhesymol sy'n briodol ar gyfer y datblygiad arfaethedig mewn ardaloedd sydd â pherygl is o lifogydd. Bydd yr asesiad perygl llifogydd strategol yn darparu'r sail ar gyfer cymhwyso'r prawf hwn. Dylid defnyddio'r prawf dilyniannol mewn ardaloedd y gwyddys eu bod mewn perygl nawr neu yn y dyfodol o unrhyw fath o lifogydd, ac eithrio mewn sefyllfaoedd lle mae asesiad perygl llifogydd penodol i'r safle yn dangos na fyddai unrhyw ddatblygiad adeiledig o fewn ffin y safle, gan gynnwys llwybrau mynediad neu ddianc, codi tir neu elfennau eraill a allai fod yn fregus, wedi'i leoli ar

⁴¹ Fel y'i diffinnir ym mharagraff 7(2) o Atodlen 3 i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Gall rhai sefydliadau fod yn esempt rhag unrhyw Safonau Cenedlaethol o dan Atodlen 3 i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 ac offerynnau eilaidd cysylltiedig.

⁴² Mae'r Safonau Cenedlaethol yn nodi gofynion ar gyfer dylunio, adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw Systemau Draenio Cynaliadwy a gallant gynnwys canllawiau y dylai'r Ysgrifennydd Gwladol eu hystyried.

ardal a fyddai mewn perygl o lifogydd o unrhyw ffynhonnell, nawr ac yn y dyfodol (gan ystyried newidiadau posibl mewn perygl llifogydd).

Y Prawf Eithriad

- 4.99 Os, yn dilyn cymhwyso'r Prawf Dilyniannol, nad yw'n bosibl, yn gyson ag amcanion cynaliadwyedd ehangach, i'r prosiect gael ei leoli mewn ardaloedd â pherygl is o lifogydd, efallai y bydd angen cymhwyso'r Prawf Eithriad. Mae'r prawf yn darparu dull o reoli perygl llifogydd tra'n dal i ganiatáu i ddatblygiad angenrheidiol ddigwydd.
- 4.100 Dim ond mewn achosion lle, gan ystyried amcanion datblygu cynaliadwy ehangach, byddai cymhwyso polisiâu lleol a chenedlaethol perthnasol yn darparu rheswm clir dros wrthod datblygiad mewn unrhyw leoliadau amgen a nodwyd y byddai'n briodol symud ymlaen i'r Prawf Eithriad. Mae [Tabl 2](#) o'r Canllawiau Ymarfer Cynllunio ar gyfer Perygl Llifogydd a Newid Arfordirol yn nodi'r amgylchiadau pan fydd angen y Prawf Eithriad.
- 4.101 Bydd yn rhaid pasio'r ddwy elfen o'r Prawf Eithriad er mwyn i ddatblygiad gael caniatâd. Er mwyn i'r Prawf Eithriad gael ei basio, dylid arddangos:
- fod y prosiect yn darparu manteision cynaliadwyedd ehangach i'r gymuned ⁴³ sy'n gorbwyso'r risg o lifogydd; a
 - rhaid i FRA arddangos y bydd y prosiect yn ddiogel am ei oes gan ystyried pa mor agored i niwed yw ei ddefnyddwyr, heb gynyddu'r perygl llifogydd mewn mannau eraill a, lle bo modd, y bydd yn lleihau'r perygl lifogydd yn gyffredinol.
- 4.102 Dylai'r penderfynwr fod yn fodlon na fydd y datblygiad yn atal cyflawni cynlluniau a gweithgareddau rheoli llifogydd sy'n gyffredol, wedi'u cynllunio neu'n rhesymol i'w rhagweld, e.e. rhag adeiladu ar dir sydd ei angen ar gyfer amddiffynfeydd yn y dyfodol, neu ar lwybrau mynediad sydd eu hangen i gynnal amddiffynfeydd

Newid arfordirol

- 4.103 Ar gyfer yr adran hon, mae newid arfordirol yn golygu newid ffisegol i'r draethlin, h.y. erydiad, tirlithriad arfordirol, gorlif parhaol a chronni arfordirol. Lle cynigir prosiectau seilwaith ar y tir ar yr arfordir, mae newid arfordirol yn ystyriaeth allweddol. Mae rhai mathau o newid arfordirol yn digwydd yn raddol iawn; eraill dros gyfnodau llai o amser. Mae rhai yn ganlyniad prosesau cwbl naturiol; mae eraill, gan gynnwys addasiadau sylweddol posibl i'r arfordir neu'r amgylchedd arfordirol sy'n deillio o newid hinsawdd, yn gyfan gwbl neu'n rhannol wedi'u gwneud gan ddyn. Mae'r adran hon yn ymwneud â'r effeithiau y gall seilwaith porthladd eu cael fel gyrrwr newid arfordirol a sut i sicrhau bod datblygiadau'n wydn i newid arfordirol parhaus a phosibl yn y dyfodol.
- 4.104 Gall adeiladu datblygiad porthladd gynnwys, er enghraifft, carthu, dyddodi rwbél carthu, adeiladu cyfleusterau glanio morol a mesurau amddiffyn rhag llifogydd a

⁴³ Byddai'r rhain yn cynnwys manteision, gan gynnwys yr angen am, y seilwaith a nodir yn adran 2.

mesurau amddiffyn arfordiroedd, a allai arwain at effeithiau uniongyrchol ar yr arfordir, gwely'r môr, asedau treftadaeth ac ecoleg a bioamrywiaeth forol.

- 4.105 Yn ogystal, gallai newidiadau anuniongyrchol i'r arfordir a gwely'r môr godi oherwydd ymateb hydrodynamig i rai o'r newidiadau uniongyrchol hyn. Gallai hyn arwain at erydiad neu Gronni arfordirol lleol neu fwy eang a newidiadau i nodweddion alltraeth fel glannau a chribau suddedig a bioamrywiaeth forol.
- 4.106 Gall newid arfordirol ddylanwadu'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ar berygl llifogydd arfordirol. Er enghraifft, gall erydiad arfordirol cyflymach gynyddu maint ardaloedd sy'n cael eu gorlifo'n barhaol neu'n amlach. Gall hefyd gyfyngu ar yr ystod o opsiynau rheoli arfordirol hyfyw, gan gynnwys y gallu i weithredu dulliau a nodir mewn Cynlluniau Rheoli Traethlin. Yn ogystal, gall gweithgareddau fel carthu newid dynameg llifogydd lleol, gan effeithio ymhellach ar risg llifogydd.

Asesiad yr ymgeisydd

- 4.107 Lle bo'n berthnasol, dylai ymgeiswyr ymgymryd â modelu geomorffolegol arfordirol a chlodiant gwaddod, i'w gynnwys yn y datganiad amgylcheddol, er mwyn rhagweld a deall effeithiau a helpu nodi mesurau lliniaru neu wneud iawn perthnasol, gan lynu wrth yr hierarchaeth lliniaru.
- 4.108 Dylai'r ES (gweler paragraff 4.200) gynnwys asesiad o'r effeithiau ar yr arfordir. Yn benodol, dylai ymgeiswyr asesu:
- effaith y prosiect arfaethedig ar brosesau arfordirol a geomorffoleg, gan gynnwys drwy ystyried effeithiau posibl newid hinsawdd. Os bydd y datblygiad yn cael effaith ar brosesau arfordirol, rhaid i'r ymgeisydd arddangos sut y bydd yr effeithiau'n cael eu rheoli i leihau effeithiau andwyol ar rannau eraill o'r arfordir;
 - goblygiadau'r prosiect arfaethedig ar strategaethau a pholisïau ar gyfer rheoli'r arfordir, fel y nodir yn y dulliau rheoli mewn Cynlluniau Rheoli Traethlin, ardaloedd rheoli newid arfordirol, unrhyw gynlluniau morol perthnasol, Cynlluniau Rheoli Basn Afon, strategaethau adfer natur lleol a rhaglenni cyfalaf ar gyfer cynnal amddiffynfeydd rhag llifogydd ac amddiffynfeydd arfordirol;
 - effeithiau'r prosiect arfaethedig ar ecoleg forol, bioamrywiaeth a safleoedd gwarchodedig;
 - effeithiau'r prosiect arfaethedig ar gynnal safleoedd a nodweddion hamdden arfordirol; a
 - bregusrwydd y datblygiad arfaethedig gan gynnwys seilwaith ategol fel cysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd i newid arfordirol, gan ystyried newid hinsawdd, yn ystod oes weithredol y prosiect ac unrhyw gyfnod datgomisiynu. Dylai hyn fod gan gyfeirio at Fap Risg Erydiad Arfordirol Cenedlaethol Asiantaeth yr Amgylchedd, ac unrhyw SMPs⁴⁴ a

44 <https://environment.data.gov.uk/shoreline-planning>

CCMAs perthnasol. Dylai'r Datganiad Amgylcheddol ddangos sut mae cynllun a dyluniad y datblygiad yn ymateb i'r risgiau hyn, gan gynnwys unrhyw liniaru.

- 4.109 Efallai y bydd angen i gynigion ar gyfer seilwaith porthladd newydd neu estynedig o fewn Ardaloedd Rheoli Newid Arfordirol gael eu hategu gan asesiad bregusrwydd newid arfordirol, gan arddangos a ellir bodloni gofynion paragraffau 4.112 ymlaen.
- 4.110 Ar gyfer unrhyw brosiectau sy'n cynnwys carthu neu waredu i'r môr, dylai'r ymgeisydd ymgynghori â'r Sefydliad Rheoli Morol (MMO) neu Cyfoeth Naturiol Cymru yn gynnar.
- 4.111 Dylai'r ymgeisydd fod yn arbennig o ofalus i nodi unrhyw effeithiau andwyol ar nodweddion gwarchodedig Ardaloedd Morol Gwarchodedig (MPAs), gan gynnwys Ardaloedd Morol Gwarchodedig lawn, Parthau Cadwraeth Morol (MCZs), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA), safleoedd Ramsar, Safleoedd o Bwysigrwydd Cymunedol gwirioneddol a photensial a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

Lliniaru

- 4.112 Dylai ymgeiswyr gynnig mesurau lliniaru priodol i fynd i'r afael â newidiadau ffisegol niweidiol i'r arfordir, mewn ymgynghoriad â'r Sefydliad Morol, Llywodraeth Cymru neu Asiantaeth yr Amgylchedd, Awdurdodau Cynllunio Lleol, ymgylgoreion statudol eraill, Awdurdodau Diogelu'r Arfordir, Partneriaethau Arfordirol a grwpiau arfordirol eraill, fel y mae'n ei ystyried yn briodol.

Canllawiau i'r penderfynwr

- 4.113 Dylai'r penderfynwr fod yn fodlon y bydd y datblygiad arfaethedig yn gallu gwrthsefyll newid arfordirol, gan ystyried newid hinsawdd, yn ystod oes weithredol y prosiect ac unrhyw gyfnod datgomisiynu.
- 4.114 Fel arfer, ni ddylai'r penderfynwr ganiatáu datblygiad newydd lle gallai'r cynnig atal llif gwaddod neu gael effaith ar brosesau arfordirol mewn lleoliadau eraill. Rhaid rheoli effeithiau ar brosesau arfordirol i leihau effeithiau andwyol ar rannau eraill o'r arfordir. Lle cyflwynir cynigion o'r fath, dim ond pan fo'r gwneuthurwr penderfyniadau yn fodlon bod manteision (gan gynnwys yr angen) y datblygiad yn gorbwyso'r effeithiau andwyol y dylid rhoi caniatâd.
- 4.115 Dylai'r penderfynwr sicrhau bod gan ymgeiswyr gynlluniau adfer ar gyfer ardaloedd o flaen y lan a aflonyddir gan waith uniongyrchol a byddant yn ymgymryd â threfniadau monitro arfordirol cyn ac ar ôl adeiladu gyda sbardunau wedi'u diffinio ar gyfer ymyrryd ac adfer.
- 4.116 Dylai'r penderfynwr archwilio cyd-destun ehangach amddiffyn yr arfordir o amgylch y safle arfaethedig, a'r dylanwad i'r ddau gyfeiriad, h.y. arfordir ar y safle, a safle ar yr arfordir.

4.117 Dylai'r penderfynwr ymgynghori â'r MMO neu Lywodraeth Cymru ar brosiectau a allai effeithio ar newid arfordirol (neu'r ddau lle mae effeithiau'n croesi ffiniau gweinyddol), yn enwedig y rhai sydd angen trwydded forol, gan y gall y MMO neu Lywodraeth Cymru hefyd fod yn rhan o ystyried prosiectau eraill a allai gael effeithiau arfordirol.

4.118 Yn ogystal â'r NPS hwn, rhaid i'r penderfynwr ystyried y Datganiad Polisi Morol a chynlluniau morol, fel y darperir ar eu cyfer yn Neddf Mynediad i'r Môr a'r Arfordir 2009. Dylai'r penderfynwr hefyd ystyried y Cynlluniau Rheoli Traethlin a'r Ardaloedd Rheoli Newid Arfordirol perthnasol ar gyfer yr arfordir lle mae'r cynlluniau'n cael eu hystyried. Wrth asesu ceisiadau mewn Ardal Rheoli Newid Arfordirol, ni ddylai'r Ysgrifennydd Gwladol roi caniatâd datblygu oni bai yr arddangosir y bydd y datblygiad:

- yn ddiogel dros ei oes arfaethedig ac ni fydd yn cael effaith annerbyniol ar newid arfordirol;
- yn gyson â chymeriad arbennig yr arfordir sydd wedi'i gynnwys yn y dynodiadau, ac yn cydnabod pwysigrwydd ei gadwraeth;
- yn darparu manteision cynaliadwyedd ehangach; ac
- heb rwystro creu a chynnal llwybr parhaus wedi'i arwyddo a'i reoli o amgylch yr arfordir.

4.119 Dylid rhoi pwys sylweddol ar y risgiau o lifogydd a newid arfordirol. Lle bo'n berthnasol, dylid cydnabod y cysylltiadau rhwng llifogydd a newid arfordirol, er enghraifft lle mae datblygiad yn effeithio ar gynefinoedd rhynglanwol, gallai hyn gynyddu'r risgiau o orlifo amddiffynfeydd cyfagos, neu gallai gwaith carthu cyfalaf mawr gynyddu ymlediad llanw i fyny'r afon, gan godi lefelau dŵr brig. Rhaid i'r ymgeisydd arddangos bod ystyriaeth lawn wedi'i rhoi i'r polisi ar asesu a lliniaru ym mharagraffau 4.71 ymlaen uchod o'r NPS hwn ar berygl llifogydd, gan ystyried effeithiau posibl newid hinsawdd a newid arfordirol ar y risgiau hyn fel y trafodwyd uchod. Dylai'r penderfynwr ystyried pa ofynion lliniaru priodol a allai fod ynghlwm wrth unrhyw ganiatâd datblygu a roddir.

Effeithiau ar draffig a thrafnidiaeth

4.120 Mae nwyddau (a theithwyr a gweithwyr) yn mynd i mewn ac allan o'r porthladd trwy wahanol gyfuniadau o gludiant ffyrdd, rheilffyrdd a dŵr (ac mewn rhai achosion trwy biblinell). Gall cydbwysedd y dulliau a ddefnyddir gael amrywiaeth o effeithiau ar y seilwaith ffyrdd, rheilffyrdd a dŵr cyfagos ac o ganlyniad ar ddefnyddwyr presennol y seilwaith hwn yn ogystal â'r amgylchedd. Mae teithwyr a gweithwyr porthladdoedd a busnesau sy'n gysylltiedig â phorthladdoedd yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus a phreifat, yn bennaf ffyrdd, a gall eu teithio hefyd effeithio ar dagfeydd ar rwydweithiau cysylltu.

4.121 Mae'n debygol mai'r effeithiau mwyaf arwyddocaol o'r rhain, yn achos traffig unedol, fydd ar y seilwaith ffyrdd cyfagos, yn enwedig mewn cymunedau gwledig neu'r rhai sydd â seilwaith trafndiaeth llai datblygedig. Byddai effaith traffig cynyddol, oni bai bod mesurau lliniaru yn cael eu cymryd, yn debygol o fod yn gynnydd mewn

tagfeydd. Mae yna effeithiau amgylcheddol hefyd i gludiant ffyrdd o ran sŵn ac allyriadau.

- 4.122 Gall oedi mewn porthladdoedd ddigwydd am sawl rheswm, gan gynnwys amodau tywydd garw, aflonyddwch ar y ffin a phroblemau cysylltiadau diwydiannol. Gall oedi o'r fath yn aml arwain at ôl-groniad sylweddol o nwyddau yn aros i adael ar long. Gall y math hwn o ddigwyddiad gael effaith andwyol ar seilwaith ffyrdd cysylltu os nad yw ystâd y porthladd yn gallu darparu digon o gapasiti ar gyfer parcio cerbydau nwyddau trwm (HGVs).
- 4.123 Felly, mae trafndiaeth yn bwysig i sicrhau bod y porthladd yn gallu gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol; ac mae ystyried a lliniaru effeithiau trafndiaeth yn rhan hanfodol o amcan polisi eang y Llywodraeth ar gyfer datblygu cynaliadwy fel y nodir ym mharagraffau 2.6 ymlaen o'r NPS hwn.

Asesiad yr ymgeisydd

- 4.124 Os yw prosiect yn debygol o gael goblygiadau sylweddol ar drafndiaeth, dylai ES yr ymgeisydd (gweler paragraffau 3.29 ymlaen) gynnwys gwerthusiad trafndiaeth, gan ddefnyddio'r fethodoleg a nodir yng nghanllawiau'r Adran Drafndiaeth (TAG), WeITAG ar gyfer datblygiadau yng Nghymru, neu unrhyw olynydd i'r fethodoleg honno. Dylai ymgeiswyr ymgynghori â Phriffyrdd Cenedlaethol a/neu'r awdurdod priffyrdd perthnasol, yn ôl yr angen, ynghylch asesu a lliniaru'r effaith. Dylai'r asesiad wahaniaethu rhwng camau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r prosiect yn ôl yr angen.
- 4.125 Lle bo'n briodol, dylai'r ymgeisydd baratoi cynllun teithio, gan gynnwys mesurau rheoli a monitro'r galw i lliniaru effeithiau trafndiaeth. Dylai'r ymgeisydd hefyd ddarparu manylion am fesurau arfaethedig i wella mynediad trwy drafndiaeth gyhoeddus, cerdded, olwyno a beicio, i leihau'r angen am barcio sy'n gysylltiedig â'r cynnig, i gynnig dewis moddol gwirioneddol a gwella cyfnewid moddol ar gyfer nwyddau, gweithwyr a theithwyr i lliniaru effeithiau trafndiaeth.
- 4.126 Os oes angen neu os cynigir seilwaith trafndiaeth ychwanegol, dylai bob amser gynnwys llwybrau cerdded, olwyno a beicio o ansawdd da, a chyfleusterau cysylltiedig (newid/storio ac ati) sydd eu hangen i wella darpariaeth trafndiaeth egniol a sicrhau gwell hygyrchedd i drafndiaeth gyhoeddus er mwyn gwella dewis defnyddwyr ar gyfer teithiau. Dylid ystyried cyfleoedd ar gyfer newid moddol a chyfnewid ar gyfer cludo nwyddau hefyd, gan gynnwys ystyriaeth ofalus o'r cyfleoedd a gynigir gan arloesiadau mewn technolegau trafndiaeth a darparu'r seilwaith sydd ei angen i gefnogi'r technolegau hyn (e.e. cysylltedd a gwasanaeth digidol gwell).
- 4.127 Dylai ymgeiswyr drafod gyda darparwyr rhwydwaith y posibilrwydd o gyd-ariannu gan y Llywodraeth ar gyfer unrhyw fuddion trydydd parti. Cyhoeddwyd canllawiau⁴⁵ yn Lloegr⁴⁶ sy'n egluro'r amgylchiadau lle gallai hyn fod yn bosibl, er na all y Llywodraeth warantu ymlaen llaw y bydd cyllid ar gael ar gyfer unrhyw gynllun

⁴⁵ <http://www.dft.gov.uk/pgr/regional/fundingtransportinfrastructure/>

⁴⁶ Noder nad oes canllawiau ar wahân wedi'u cyhoeddi ar gyfer Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn trafod trefniadau ariannu gyda datblygwyr ar sail prosiect-benodol.

penodol heb ei ymrwymo ar unrhyw adeg benodol. Ar gyfer datblygiadau yng Nghymru, dylid trafod y mater gyda Llywodraeth Cymru.

- 4.128 Yn achos datblygu terfynellau cynwysyddion, dylid ystyried y gyfran ragweledig o drawsgludo cynwysyddion a'i amrywiad dros amser gan y gall, er enghraifft, cyfran y galwadau uniongyrchol dyfu gyda'r galw cyffredinol, gan leihau'r angen i drawsgludo cynwysyddion sy'n dod i mewn o longau nad ydynt yn galw yn y DU.
- 4.129 Dylai asesiad trafndiaeth gynnwys yr holl draffig sy'n mynd i mewn ac yn gadael y porthladd, a sut y byddai hyn yn cronni â thraffig nad yw'n cael ei gynhyrchu gan y datblygiad dan sylw. Dylid ystyried cyfleoedd i hybu cysylltedd cludo nwyddau rheilffordd lle bo'n ymarferol.

Lliniaru: rheoli galw

- 4.130 Lle mae angen lliniaru, rhaid ystyried mesurau rheoli galw posibl. Gallai hyn gynnwys nodi cyfleoedd i:

- cydgrynhoi teithiau, felly yn lleihau nifer y teithiau a gynhyrchir;
- lleoli datblygiadau mewn ardaloedd â lefelau uchel o gysylltedd ac sydd eisoes yn hygyrch drwy deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus;
- darparu cyfleoedd ar gyfer symudedd a rennir;
- galluogi teithio drwy ddull cynaliadwy sy'n fwy buddiol i'r rhwydwaith;
- ail-amseru teithio y tu allan i'r oriau brig hysbys;
- ailgyfeirio i ddefnyddio rhannau o'r rhwydwaith sy'n llai prysur.

- 4.131 Os yw'n ymarferol ac yn rhesymol yn weithredol, dylai lliniaru o'r fath fod yn ofynnol cyn ystyried amodau ar gyfer darparu seilwaith trafndiaeth mewndirol newydd i ymdrin ag effeithiau trafndiaeth sy'n weddill. Dylai pob cam o'r prosiect ystyried yn ofalus gyfleoedd i wella cyfnewid moddol a newid moddol cludo nwyddau o'r ffordd i ddewisiadau amgen mwy cynaliadwy ac ystyried sut y gall arallgyfeirio mewn porthladdoedd helpu lleihau'r milltiroedd y mae'n rhaid eu teithio i brosesu'r nwyddau hynny. Yn ogystal, dylid ystyried darparu'r seilwaith sydd ei angen i gefnogi'r defnydd o danwydd amgen gan gynnwys gwefru ar gyfer cerbydau trydan, gan ystyried Cynllun Gwellu Amgylcheddol y Llywodraeth.

- 4.132 Gall mesurau rheoli galw gynnwys trefniadau archebu lorïau yn benodol gyda'r nod o wasgaru traffig brig o fewn y diwrnod gwaith. Pan fydd rhesymoldeb mesurau o'r fath yn cael ei bennu, ni ddylid rhoi pwyslais mawr ar anhyblygrwydd amseru ar gyfer cyrraedd neu adael ar ben arall y daith (er enghraifft, mewn depo dosbarthu). Mae hyn oherwydd mai polisi'r Llywodraeth yw annog hyblygrwydd ar ddau ben y daith lle bynnag y bo modd.

- 4.133 Dylai'r penderfynwr ystyried cost-ffeithiolrwydd mesurau rheoli galw o'u cymharu â seilwaith trafndiaeth newydd, yn ogystal â'r nod o sicrhau patrymau datblygu trafndiaeth mwy cynaliadwy wrth ystyried mesurau lliniaru.

Lliniaru: cyfran foddol

- 4.134 Mae angen ystyried cyfran foddol y traffig sy'n mynd i mewn ac allan o'r porthladd, lle bo'n berthnasol, yn wrthrychol yng nghyd-destun unrhyw dagfeydd allanol a chostau amgylcheddol. Yn fras, dylid annog cludiant rheilffordd a llongau arfordirol neu fewndirol yn hytrach na chludiant ffyrdd, lle bo'n gost-ffeithiol, ond dylai gofynion neu rhwymedigaethau, os ydynt yn angenrheidiol er mwyn osgoi niwed sylweddol i ddefnyddwyr y rhwydwaith, fod yn seiliedig ar dystiolaeth a chyflwyno cymhellion effeithlon.
- 4.135 Oherwydd arbedion maint llwythi cyfunol, mae'n debygol y bydd cyfran o'r rheilffordd yn hyfyw ar gyfer traffig wedi'i unedu yn y terfynellau cynwysyddion mwy, ac efallai y bydd posibilrwydd o annog rhywfaint o draffig ro-ro i gysylltiadau rheilffordd. Ar gyfer rhai mathau o draffig swmp, efallai mai'r rheilffordd yw'r dull mewndirol mwyaf masnachol. Gall llongau arfordirol a dyfrffyrdd mewndirol fod yn hyfyw ar gyfer rhai llifau.
- 4.136 Ar gyfer cynwysyddion, dylid ystyried cliriad lled y llwybr rheilffordd i'r cyrchfannau mwyaf tebygol ar gyfer traffig, yn benodol a oes cliriad i led W10 o leiaf ar gael neu a ddylid ei ddarparu i alluogi cludo cynwysyddion 'ciwb uchel' 9'6" ar wagenni confensiynol. Gellir dod o hyd i ganllawiau perthnasol pellach ar gysylltedd rheilffordd a chyfnewidfeydd cludo nwyddau rheilffordd strategol yn yr NPS ar gyfer Rhwydweithiau Cenedlaethol.
- 4.137 Dylid ystyried defnyddio dyfrffyrdd mewndirol ar gyfer symud nwyddau i'r porthladd ac oddi yno. Yn yr un modd, dylid ystyried y posibilrwydd o hyrwyddo llongau arfordirol fel dewis arall yn lle cludiant ffordd a rheilffordd.
- 4.138 Dylid strwythuro rhwymedigaethau neu ofynion cynllunio yn hyblyg er mwyn cadw i'r lleiafswm rhesymol y risg y byddai'n ofynnol i ymgeiswyr neu ddarparwyr rhwydwaith ysgwyddo costau wrth ddarparu seilwaith nad yw'n cael defnydd digonol yn y pen draw. Gallai mesurau o'r fath gynnwys amrywiol fecanweithiau, megis sbardunau lefel traffig, tollau cysgodol a/neu drefniadau ysgrow i warantu cyllid.
- 4.139 Gall cyfrannau moddol targed ar gyfer cludiant rheilffordd neu arfordirol fod yn briodol weithiau, ond nid ydynt yn orfodol, a dylai'r pwyslais pennaf fod ar fecanweithiau cymhelliant yn hytrach na gosod targedau anhyblyg. Ni ddylid ystyried cyfrannau o'r fath fel dibenion ynddynt eu hunain, ond fel dangosyddion o ganlyniad rhwymedigaethau trafndiaeth cost-ffeithiol. Lle mae targedau o'r fath i'w gosod, dylai fod dealltwriaeth gytunedig bob amser o'r mecanweithiau eang y gellir eu cyflawni drwyddynt, a phwyntiau penderfynu 'rhybudd cynnar' fel y gellir cymryd mesurau cywirol os yw'n briodol.
- 4.140 Ni ddylid ceisio rhwymedigaethau rheilffyrdd i'r fath raddau fel bod y gost gymdeithasol net amcangyfrifedig o'u cyflawni (net o fanteision milltiroedd cerbydau ffordd a osgoir) yn fwy na'r gost gymdeithasol net gyfatebol o ddarparu ar gyfer y

traffig ymylol ar y ffyrdd. Wrth asesu a yw hyn yn wir, dylid ystyried TAG (a WeITAG yng Nghymru) neu ganllawiau methodolegol eraill a gyhoeddwyd gan y DfT.

- 4.141 Ni ddylid darllen cyfrannau rheilffyrdd (neu gludiant arfordirol) ar draws o ddatblygiad blaenorol i'r un dan sylw yn unig, gan y gall y canlyniad trafndiaeth mwyaf effeithlon amrywio'n sylweddol yn ôl holl amgylchiadau'r achos.

Lliniaru: HGVs

- 4.142 Dylai pob cam o'r prosiect gefnogi ac annog cludo nwyddau drwy ddulliau sy'n fuddiol i'r amgylchedd, yn ogystal â gwneud darpariaeth briodol ar gyfer a'r seilwaith sydd ei angen i gefnogi'r defnydd o danwydd amgen gan gynnwys pwyntiau gwefru ar gyfer cerbydau trydan, gan gynnwys HGVs allyriadau sero.
- 4.143 Lle mae datblygiad, gan gynnwys unrhyw ddatblygiad cynwysyddion neu ro-ro, yn debygol o gynhyrchu neu ddenu traffig nwyddau trwm sylweddol, yn ystod y gwaith adeiladu a/neu wrth weithredu, gall y penderfynwr atodi gofynion i ganiatâd sy'n:
- rheoli nifer y symudiadau HGV i'r safle ac oddi yno mewn cyfnod penodol yn ystod ei adeiladu ac o bosibl ar lwybro'r symudiadau hynny;
 - gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer parcio HGV a chyfleusterau eraill o ansawdd uchel i'w gyrwyr, naill ai ar ystâd y porthladd neu mewn cyfleusterau pwrpasol mewn mannau eraill, er mwyn osgoi parcio 'gorlif' ar ffyrdd cyhoeddus yn ystod amodau gweithredu arferol. Dylid dylunio datblygiadau gyda digon o gapasiti ffyrdd a darpariaeth parcio (boed ar y safle neu oddi arno) i osgoi'r angen am giwio hirfaith ar ffyrdd mynediad, ac yn enwedig ar gyfer parcio cerbydau nwyddau trwm heb ei reoli ar y stryd ar ffyrdd cyhoeddus cyfagos mewn amodau gweithredu traffig arferol, a chaniatáu amcangyfrifon rhesymol ar gyfer patrymau traffig brig ac amrywiadau yn ystod gweithrediadau arferol;
 - sicrhau trefniadau boddhaol, gan ystyried barn darparwyr rhwydwaith ffyrdd a'r heddlu(oedd) cyfrifol, ar gyfer delio ag aflonyddwch annormal rhesymol ragweladwy. Lle mae effeithiau o'r fath yn debygol o achosi ciwio ar y rhwydwaith ffyrdd strategol neu giwio sylweddol ar ffyrdd lleol, dylai'r ymgeisydd gynnwys canlyniad ymgynghori â'r heddlu(oedd) perthnasol ynghylch y mesurau rheoli traffig a fydd yn cael eu rhoi ar waith, beth fydd y gweithdrefnau ar gyfer eu sbarduno, a phriodoli costau.
- 4.144 Gall porthladdoedd ddarparu cyfleusterau gwerthfawr ar gyfer gwirio cerbydau nwyddau trwm. Dylid cynllunio datblygiad porthladdoedd sy'n cynnwys cyfleusterau ro-ro yn y fath fodd fel y gellir darparu cyfleusterau i asiantaethau gorfodi gynnal gwiriadau pan fo'n briodol.

Lliniaru: mynediad

- 4.145 Lle byddai datblygiad yn gwaethygu hygyrchedd i weithwyr, defnyddwyr porthladdoedd neu eraill, dylid lliniaru effeithiau o'r fath cyn belled ag y bo'n rhesymol bosibl.

- 4.146 Dylid cynnal asesiad teithio gweithwyr ar gyfer pob datblygiad porthladd mawr. Lle mae hyn yn nodi effaith y mae angen ei lliniaru, dylid ystyried y strategaethau rheoli galw a lliniaru rhannu moddol uchod, yn ogystal â chyfleoedd i wneud y defnydd mwyaf o gerdded, olwyno a beicio.

Cyllido seilwaith

- 4.147 Yr egwyddor hanfodol yw bod disgwyl i'r datblygwr gyllido darpariaeth seilwaith sydd ei angen yn unig i ddarparu ar gyfer defnyddwyr y datblygiad heb niwed i ddefnyddwyr sydd eisoes yn bodoli. Lle mae achos dros gyflwyno cynlluniau sy'n helpu diwallu'r twf 'cefnidir' mewn traffig 'trydydd parti', mae'r canllawiau'n egluro'r amgylchiadau y byddai'r Llywodraeth yn disgwyl 'cyd-gyllido' mewn perthynas â'r manteision hynny a'r fethodoleg y dylid ei defnyddio i bennu cyfrannau cyllido.
- 4.148 Ni all y Llywodraeth warantu ymlaen llaw y bydd cyllid ar gael ar gyfer unrhyw gynllun penodol heb ei ymrwymo ar unrhyw adeg benodol. Mewn perthynas â chynllunio ar gyfer rhwydweithiau lleol, gweler adran 9 o'r Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol (NPPF).
- 4.149 Dylai ymgeiswyr ymgysylltu, o gamau cynharaf datblygu prosiectau, â darparwyr rhwydwaith, i asesu a allai cyd-gyllido gan y Llywodraeth fod yn briodol, yn achos datblygiad porthladd mawr penodol, i gydnabod manteision trydydd parti.
- 4.150 Dylai partïon ymdrechu i gytuno ymlaen llaw, mor fanwl â phosibl, ar gwmpas y gwaith, union sail priodoli costau a risgiau, a threfniadau ar gyfer datrys anghydfodau. Os nad yw'r penderfynwr yn fodlon bod rhwymedigaethau/gofynion caniatâd datblygu drafft neu fathau eraill o gytundeb yn ddigon manwl, gall wahodd y partïon i gymryd rhan mewn trafodaethau pellach i ddod i gytundeb mwy manwl cyn y rhoddir caniatâd.
- 4.151 Dylid gosod amserlen ar gyfer trafodaethau o'r fath. Gan roi mwy o bwyslais priodol o'r broses ymgeisio, dylai fod yn bosibl cael pob parti wedi'i alinio mewn pryd i gwblhau unrhyw gytundebau angenrheidiol cyn gwneud y penderfyniad. Os na ellir dod i gytundeb o fewn yr amser hwnnw, gellir gosod gofynion priodol.
- 4.152 Os yw'r ymgeisydd yn awgrymu y byddai costau bodloni unrhyw rwymedigaethau a/neu ofynion yn gwneud y cynnig yn anhyfyw yn economaidd, ni ddylai hyn ynddo'i hun gyfiawnhau llacio unrhyw rwymedigaethau neu ofynion sydd eu hangen i sicrhau'r lliniaru gan y penderfynwr.

Canllawiau i'r penderfynwr

- 4.153 Gallai NSIP newydd arwain at effeithiau sylweddol ar y seilwaith trafnidiaeth cyfagos, a dylai'r Ysgrifennydd Gwladol felly sicrhau bod yr ymgeisydd wedi ceisio lliniaru'r effeithiau hyn, gan gynnwys yn ystod cyfnodau adeiladu a gweithredu'r datblygiad. Lle nad yw'r mesurau lliniaru arfaethedig yn ddigonol i leihau'r effaith ar y seilwaith trafnidiaeth i lefelau derbyniol, dylai'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried gofynion i lliniaru effeithiau andwyol ar rwydweithiau trafnidiaeth sy'n deillio o'r datblygiad, fel y nodir uchod. Gall ymgeiswyr hefyd fod yn fodlon ymrwymo i

rwymedigaethau cynllunio ar gyfer cyllido seilwaith a lliniaru effeithiau andwyol fel arall.

- 4.154 Ar yr amod bod yr ymgeisydd yn fodlon ymrwymo i rwymedigaethau cynllunio neu drafnidiaeth, neu y gellir gosod gofynion i lliniaru effeithiau trafnidiaeth a nodwyd yn yr asesiad trafnidiaeth TAG/WeTAG, gyda phriodoli costau wedi'u cyfrifo yn unol â chanllawiau'r Adran Drafnidiaeth, yna ni ddylid gwrthod caniatâd datblygu a dylid rhoi pwysau cyfyngedig priodol i effeithiau gweddilliol ar y seilwaith trafnidiaeth cyfagos. Dim ond os byddai effaith annerbiniol ar ddiogelwch priffyrdd, neu os byddai'r effeithiau cronus gweddilliol ar y rhwydwaith ffyrdd yn ddifrifol yn dilyn lliniaru y dylid atal neu wrthod datblygiad ar sail priffyrdd, gan ystyried pob senario rhesymol yn y dyfodol.

Rheoli gwastraff

- 4.155 Bwriad polisi'r llywodraeth ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus yw amddiffyn iechyd pobl a'r amgylchedd drwy gynhyrchu llai o wastraff yn y lle cyntaf a thrwy warchod adnoddau drwy baratoi ar gyfer ailddefnyddio ac ailgylchu lle bynnag y bo modd. Lle nad yw hyn yn bosibl, mae rheoleiddio rheoli gwastraff yn sicrhau bod gwastraff yn cael ei waredu yn y ffordd sydd leiaf niweidiol i'r amgylchedd ac i iechyd pobl.
- 4.156 Caiff rheoli gwastraff cynaliadwy ei weithredu drwy'r 'hierarchaeth gwastraff':
- atal;
 - paratoi ar gyfer ailddefnyddio;
 - ailgylchu;
 - adfer arall, gan gynnwys adfer ynni; a
 - gwaredu.
- 4.157 Dylid ystyried gwaredu gwastraff dim ond lle nad oes opsiynau rheoli gwastraff eraill ar gael neu lle mai hwn yw'r canlyniad amgylcheddol gorau cyffredinol.
- 4.158 Anogir mabwysiadu dull economi gylchol o ddefnyddio adnoddau o'r cychwyn cyntaf, er enghraifft, trwy ymarferion caffael cynaliadwy sy'n gofyn am adrodd ar lif deunyddiau, effeithlonrwydd adnoddau, a chydymffurfiaeth reoleiddiol.
- 4.159 Mae'n debygol y bydd pob prosiect seilwaith mawr yn cynhyrchu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus yn ystod y cyfnodau adeiladu, gweithredu a datgomiynu.
- 4.160 Mae cyfundrefn Trwyddedu Amgylcheddol (EP) Asiantaeth yr Amgylchedd (EA) yn ymgorffori gofynion rheoli gwastraff gweithredol ar gyfer rhai gweithgareddau. Pan fydd ymgeisydd yn gwneud cais i'r EA am Drwydded Amgylcheddol, bydd yr EA yn ei gwneud yn ofynnol i'r cais arddangos bod prosesau wedi'u rhagnodi i fodloni'r holl ofynion EP perthnasol.

Asesiad yr ymgeisydd

- 4.161 Dylai'r ymgeisydd arddangos y bydd yn glynu wrth yr hierarchaeth gwastraff, gan leihau faint o wastraff a gynhyrchir a gwneud y mwyaf o ailddefnyddio ac ailgylchu ar gyfer gwastraff na ellir ei osgoi. Lle bo modd, anogir ymgeiswyr i ddefnyddio deunyddiau carbon isel, ffynonellau cynaliadwy, a chyflenwyr lleol. Dylid ystyried egwyddorion economi gylchol lle bynnag y bo'n ymarferol, er enghraifft trwy ddefnyddio deunyddiau sy'n parhau'n hirach yn effeithlon, optimeiddio'r defnydd o ddeunyddiau eilaidd a sut y bydd y datblygiad yn cael ei gynnal a'i ddatgomisiynu.
- 4.162 Dylai'r ymgeisydd nodi'r trefniadau a gynigir ar gyfer rheoli unrhyw wastraff a gynhyrchir a pharatoi Cynllun Rheoli Gwastraff Safle. Dylai'r trefniadau a ddisgrifir a'r Cynllun Rheoli nodweddu'r ffrydiau gwastraff a chynnwys gwybodaeth am y system adfer a gwaredu gwastraff arfaethedig ar gyfer yr holl wastraff a gynhyrchir gan y datblygiad ac asesiad o effaith y gwastraff sy'n deillio o'r datblygiad ar gapasiti cyfleusterau rheoli gwastraff i ddelio â gwastraff arall sy'n deillio o'r ardal am o leiaf bum mlynedd o weithredu.
- 4.163 Anogir ymgeiswyr i baratoi Cynllun Rheoli Deunyddiau i lywio'r defnydd o arferion gorau adeiladu mewn perthynas â storio deunyddiau mewn lle digonol a gwarchodedig ar y safle i atal gwastraff, neu ddirywiad deunyddiau gwerthfawr, er enghraifft, oherwydd difrod damweiniol neu dywydd gormodol. Gall defnyddio offer Rheoli Gwybodaeth Adeiladu (BIM) neu debyg i gofnodi'r deunyddiau a ddefnyddir wrth adeiladu helpu lleihau gwastraff a gwireddu gwerth pellach wrth ddatgomisiynu cyfleusterau yn y dyfodol, trwy nodi deunyddiau y gellir eu hailgylchu neu eu hailddefnyddio.
- 4.164 Dylai prosiectau seilwaith geisio defnyddio pren cyfreithlon a chynaliadwy a Dulliau Adeiladu Modern eraill lle bo modd.

Canllawiau i'r penderfynwr

- 4.165 Dylai'r penderfynwr ystyried i ba raddau y mae'r ymgeisydd wedi cynnig system effeithiol ar gyfer rheoli gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus sy'n deillio o adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r datblygiad arfaethedig. Dylai fod yn fodlon:
- y bydd unrhyw wastraff o'r fath yn cael ei reoli'n briodol, ar y safle ac oddi ar y safle;
 - y gellir delio'n briodol â'r gwastraff o'r cyfleuster arfaethedig gan y seilwaith gwastraff sydd ar gael, neu sy'n debygol o fod ar gael. Ni ddylai gwastraff o'r fath gael effaith andwyol ar gapasiti cyfleusterau rheoli gwastraff presennol i ddelio â gwastraff arall yn yr ardal; a
 - bod camau digonol wedi'u cymryd i ystyried yr economi gylchol, lleihau cyfaint y gwastraff a gynhyrchir, a chyfaint y gwastraff a anfonir i'w waredu, ac eithrio lle mai dyna'r canlyniad amgylcheddol gorau cyffredinol.
- 4.166 Lle bo angen, dylai'r penderfynwr ddefnyddio gofynion neu rwymedigaethau i sicrhau bod mesurau priodol ar gyfer rheoli gwastraff yn cael eu cymhwyso. Wrth roi

caniatâd, efallai y bydd y penderfynwr am gynnwys gofyniad ar ddiwygio cynlluniau rheoli gwastraff ar adegau rhesymol.

- 4.167 Lle bydd y prosiect yn ddarostyngedig i gyfundrefn Trwyddedu Amgylcheddol Asiantaeth yr Amgylchedd, bydd trefniadau rheoli gwastraff yn ystod gweithrediadau wedi'u cynnwys yn y drwydded a bydd yr ystyriaethau a nodir yn adran 3 yn berthnasol.

Ansawdd dŵr ac adnoddau

- 4.168 Gall datblygu seilwaith gael effeithiau andwyol ar yr amgylchedd dŵr, gan gynnwys dŵr daear, dŵr wyneb mewndirol, dyfroedd aberol⁴⁷ a dyfroedd arfordirol. Yn ystod y cyfnodau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, gall arwain at gynnydd yn y galw am ddŵr, cynnwys gollyngiadau i ddŵr ac achosi effeithiau ecolegol niweidiol sy'n deillio o addasiadau ffisegol i'r amgylchedd dŵr.
- 4.169 Gallai fod risg uwch hefyd o ollyngiadau a diferiadau llygryddion i'r amgylchedd dŵr. Gallai'r effeithiau hyn arwain at effeithiau niweidiol ar iechyd neu ar rywogaethau a chynefinoedd gwarchodedig (gweler yr adran ar fioamrywiaeth ym mharagraff 4.1) a gallai, yn benodol, arwain at ddyfroedd wyneb, dŵr daear neu ardaloedd gwarchodedig⁴⁸ sy'n methu â chyflawni amcanion amgylcheddol a sefydlwyd o dan Reoliadau Amgylchedd Dŵr (Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017.
- 4.170 O dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, mae'n ofynnol i ymgeiswyr reoli dŵr wyneb yn ystod y gwaith adeiladu drwy drin dŵr ffo wyneb o bridd uchaf agored cyn ei ollwng a chyfyngu ar ollwng solidau crog o e.e. ardaloedd o lawr caled, yn ystod y gwaith gweithredu. Efallai y bydd angen caniatâd gan Asiantaeth yr Amgylchedd i weithio ger afon ac mae angen cynllun ymateb i ddigwyddiad llygredd. Efallai y bydd angen trwydded tynnu dŵr neu gronni dŵr i reoli adnoddau dŵr wyneb a dŵr daear yn ystod y gwaith adeiladu.

Asesiad yr ymgeisydd

- 4.171 Lle mae'n debygol y bydd gan y prosiect effeithiau ar yr amgylchedd dŵr, dylai'r ymgeisydd gynnal asesiad o statws presennol y prosiect arfaethedig ar ansawdd dŵr, adnoddau dŵr a nodweddion ffisegol yr amgylchedd dŵr, a'i effeithiau, a sut y gallai hyn newid oherwydd effaith newid hinsawdd ar batrymau glawiad ac o ganlyniad argaeledd dŵr ar draws yr amgylchedd dŵr, fel rhan o'r Datganiad Amgylcheddol (ES) neu gyfwerth. Pan fo angen, dylid cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, Asesiad WFD a/neu HRA yn unol â'r canllawiau cynllunio cyfredol.
- 4.172 Dylai'r ymgeisydd gysylltu'n gynnar â'r rheoleiddwyr perthnasol, gan gynnwys yr awdurdod lleol, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Sefydliad Rheoli Morol, lle bo'n briodol, ar gyfer gofynion trwyddedu a chaniatáu amgylcheddol perthnasol. Dylai ymgeiswyr

⁴⁷ Dyfroedd aberol yw cyrff o ddŵr wyneb ger aberoedd afonydd sydd â chymeriad rhannol hallt o ganlyniad i'w hagosrwydd at ddyfroedd arfordirol, ond sy'n cael eu dylanwadu'n sylweddol gan lif dŵr croyw.

⁴⁸ Ardaloedd gwarchodedig yw ardaloedd sydd wedi'u dynodi fel rhai sydd angen amddiffyniad arbennig o dan ddeddfwriaeth benodol y Gymuned er mwyn gwarchod eu dŵr wyneb a'u dŵr daear neu er mwyn gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau sy'n dibynnu'n uniongyrchol ar ddŵr.

gysylltu'n gynnar ag Asiantaeth yr Amgylchedd a chwmnïau dŵr⁴⁹ gyda'u gofynion dŵr arfaethedig i ddeall a oes dŵr ar gael.

4.173 Dylai ymgeiswyr osgoi lleoli gweithgareddau a allai fod yn llygru yn y lleoliadau mwyaf sensitif ar gyfer dŵr daear, yn enwedig Parth Diogelu Ffynhonnell 1 (SPZ) ac yn agos at gyflenwadau dŵr yfed o bwys cenedlaethol. Dylai ymgeiswyr ystyried gweithredu mesurau amddiffynnol i reoli'r risg o lygredd i ddŵr daear, er enghraifft, defnyddio rhwystrau amddiffynnol.

4.174 Dylai'r Datganiad Amgylcheddol ddisgrifio:

- ansawdd presennol y dyfroedd (dŵr wyneb a dŵr daear) yr effeithir arnynt gan y prosiect arfaethedig ac effeithiau'r prosiect arfaethedig ar ansawdd dŵr, a sut y bydd newid hinsawdd yn effeithio ar hyn, gan nodi unrhyw ollyngiadau perthnasol presennol, gollyngiadau newydd arfaethedig a newidiadau arfaethedig i ollyngiadau;
- adnoddau dŵr presennol yr effeithir arnynt gan y prosiect arfaethedig ac effeithiau'r prosiect arfaethedig ar adnoddau dŵr, a sut y bydd newid hinsawdd yn effeithio ar hyn, gan nodi unrhyw gyfraddau tynnu presennol perthnasol, cyfraddau tynnu newydd arfaethedig a newidiadau arfaethedig i gyfraddau tynnu gan gynnwys unrhyw effaith ar neu ddefnydd o brif gyflenwadau a chyfeirio at Strategaethau Trwyddedu Tynnu Dŵr) a hefyd arddangos sut mae cynigion yn lleihau'r defnydd o adnoddau dŵr a defnydd dŵr yn y lle cyntaf;
- nodweddion ffisegol presennol yr amgylchedd dŵr (gan gynnwys maint a dynameg llif, lefelau dŵr daear a llwybrau llif dŵr daear) yr effeithir arnynt gan y prosiect arfaethedig ac unrhyw effaith addasiadau ffisegol ar y nodweddion hyn;
- unrhyw effeithiau'r prosiect arfaethedig ar gyrff dŵr neu ardaloedd gwarchodedig o dan Reoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017 a pharthau diogelu ffynonellau o amgylch tynnu dŵr daear yfadwy;
- effaith bosibl datblygu porthladd ar ddefnyddwyr dŵr eraill; ac
- unrhyw effeithiau cronrus.

Lliniaru

4.175 Dylai'r penderfynwr ystyried a oes angen mesurau lliniaru ar gyfer y cyfnodau gweithredol, adeiladu a datgomisiynu yn ychwanegol at unrhyw rai a allai fod yn rhan o gais y prosiect. Gall cynllun rheoli adeiladu helpu codeiddio lliniaru ar y cam hwnnw.

4.176 Gellir lleihau'r risg o effeithiau ar yr amgylchedd dŵr trwy ddylunio gofalus i hwyluso glynu wrth arfer rheoli llygredd da. Er enghraifft, dylid marcio'n glir ardaloedd dynodedig ar gyfer storio a dadlwytho, gyda chyfleusterau draenio priodol.

⁴⁹ Neu'r grŵp adnoddau dŵr rhanbarthol perthnasol, sydd wedi'u sefydlu i ddod â chwmnïau dŵr sy'n gweithredu ym mhob un o ranbarthau Lloegr a defnyddwyr dŵr mawr eraill ynghyd.

- 4.177 Gellir lleihau'r effaith ar adnoddau dŵr lleol trwy gynllunio a dylunio ar gyfer defnydd cynaliadwy ac effeithlon o ddŵr, gan gynnwys ailgylchu dŵr.
- 4.178 Am fesurau lliniaru ar effeithiau sy'n effeithio ar fioamrywiaeth, gweler paragraffau 4.1 ymlaen.
- 4.179 Dylai'r Ysgrifennydd Gwladol fod yn fodlon y bydd digon o gapasiti amgylcheddol ar gyfer y datblygiad arfaethedig mewn perthynas ag ansawdd dŵr ac argaeledd dŵr. Dylai hyn gynnwys cyflenwad dŵr digonol a'r seilwaith trin dŵr gwastraff sydd ei angen ar gyfer y datblygiad.

Canllawiau i'r penderfynwr

- 4.180 Mae gweithgareddau sy'n gollwng i'r amgylchedd dŵr yn ddarostyngedig i reoli llygredd. Felly mae'r ystyriaethau a nodir yn adran 4 ar y rhyngwyneb rhwng cynllunio a rheoli llygredd yn berthnasol. Bydd yr ystyriaethau hyn hefyd yn berthnasol mewn ffordd debyg i'r gyfundrefn drwyddedu tynnu a chronni dŵr⁵⁰ sy'n rheoleiddio gweithgareddau sy'n cymryd dŵr o'r amgylchedd dŵr, ac i'r cyfundrefnau rheoli sy'n ymwneud â gwaith i, a strwythurau yn, ar, neu o dan ddŵr rheoledig.
- 4.181 Yn gyffredinol, bydd angen i'r penderfynwr roi mwy o bwyslais ar effeithiau ar yr amgylchedd dŵr lle byddai prosiect yn cael effeithiau andwyol ar gyflawni'r amcanion amgylcheddol a sefydlwyd o dan Reoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017.
- 4.182 Fel y nodwyd yn gynharach, dylai'r penderfynwr fodloni ei hun bod cynnig yn ystyried y Cynlluniau Rheoli Basn Afon a gofynion Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017 (gan gynnwys Rheoliad 19), gan gynnwys y rhai ar sylweddau blaenoriaeth, ardaloedd gwarchodedig a dŵr daear yn Rheoliad 13. Nodir yr amcanion penodol ar gyfer basnau afonydd penodol mewn Cynlluniau Rheoli Basn Afon. Dylai'r penderfynwr hefyd ystyried rhyngweithiadau'r prosiect arfaethedig â chynlluniau eraill megis cynlluniau morol, Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr, Cynlluniau Rheoli Traethlin/Aber a strategaethau adfer natur lleol.
- 4.183 Dylai'r penderfynwr ystyried a ddylid atodi gofynion priodol i unrhyw ganiatâd datblygu a/neu gytundebau cynllunio a wneir i liniaru effeithiau andwyol ar yr amgylchedd dŵr.

Ansawdd aer ac allyriadau

- 4.184 Gallai cynnydd mewn allyriadau llygryddion yn ystod cyfnodau adeiladu neu weithredu datblygiadau porthladdoedd arwain at waethygu ansawdd aer lleol a gallai gyfrannu at effeithiau andwyol ar iechyd pobl, ar rywogaethau gwarchodedig ac ar gynefinoedd.
- 4.185 Mae gan y Llywodraeth dargedau sy'n rhwymo'n gyfreithiol i leihau allyriadau pum llygrydd aer allweddol (gronynnau o dan 2.5 micron mewn diamedr {PM_{2.5}}, nitrogen deuocsid, sylffwr deuocsid, amonia a chyfansoddion organig anweddol nad ydynt yn

⁵⁰ Disgwylir i ddarpariaethau trwyddedu tynnu dŵr newid drwy ddileu esemptiadau trwyddedu.

fethan) erbyn 2030. Yn ogystal, mae dau darged ansawdd aer newydd ar gyfer 2040 – un ar gyfer crynodiadau cymedrig blynyddol o $PM_{2.5}$ a tharged amlygiad poblogaeth ar gyfer $PM_{2.5}$ – wedi'u gosod o dan Ddeddf yr Amgylchedd 2021. Mae'r targedau hyn yn ychwanegol at y lefelau uchaf a ganiateir ar gyfer llygryddion a nodir yn Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (2010). Mae gan awdurdodau lleol ddyletswyddau statudol i fynd i'r afael ag achosion o fynd dros amcanion ansawdd aer a osodwyd gan reoliadau o dan Ran IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, ac i ystyried y Strategaeth Ansawdd Aer. Yn ogystal â chael effeithiau uniongyrchol ar iechyd y cyhoedd, cynefinoedd a bioamrywiaeth, gall y llygryddion hyn gyfuno yn yr atmosffer i ffurfio osôn, llygrydd aer niweidiol (a nwy tŷ gwydr cryf) y gellir ei gludo am bellteroedd maith gan systemau tywydd.

- 4.186 Dylid ystyried effeithiau datblygu porthladdoedd ar ansawdd aer, gan gynnwys dulliau trafniadaeth arwyneb a ragwelir i gael mynediad at y cyfleusterau, mewn perthynas â'r targedau $PM_{2.5}$ a osodwyd gan reoliadau o dan Bennod 1 o Ddeddf yr Amgylchedd 2021, ac ag amcanion, terfynau uchaf a safonau ansawdd aer eraill. Dylai hyn gynnwys effeithiau ar fioamrywiaeth megis safleoedd dynodedig, cynefinoedd blaenoriaeth a rhywogaethau gwarchodedig.
- 4.187 Gall cwmpas daearyddol a dosbarthiad effeithiau llygryddion aer gwmpasu ardal fawr, ymhell y tu hwnt i ddatblygiad unigol. Cynhyrchir effeithiau ar ansawdd aer gan bob math o ddatblygiad seilwaith i raddau amrywiol. Gall porthladdoedd gyfrannu at lygredd aer, gan eu bod yn dwyn ynghyd sawl ffynhonnell o lygryddion:
- mae llawer iawn o draffig HGV yn allyrru llygryddion fel ocsidau nitrogen a gronynnau, gyda thagfeydd ac amodau gyrru stopio-cychwyn yn gwaethygu allyriadau;
 - gall allyriadau (yn enwedig $PM_{2.5}$, sylffwr deuocsid ac ocsidau nitrogen) o longau sy'n dod i mewn i'r porthladd ac yn defnyddio llwybrau arfordirol, aberoedd a dyfrffyrdd mewndirol fod yn sylweddol hefyd;
 - gall rhai llwythau fel sment ac agregau achosi llygredd llwch lleol;
 - mae peiriannau symudol nad ydynt ar gyfer y ffordd a ddefnyddir yn y porthladd, er enghraifft i ddadlwytho a llwytho llongau, yn allyrru llygryddion; ac
 - mae gan effaith tanwyddau newydd posibl, e.e. storio a defnyddio amonia, y potensial i effeithio ar ansawdd aer o allyriadau ffo, rhyddhau damweiniol a thanwydd yn llithro o beiriannau.
- 4.188 Gall datblygu seilwaith gael effeithiau andwyol ar ansawdd aer. Gall y cyfnodau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu gynnwys allyriadau i'r aer, a allai arwain at effeithiau andwyol ar iechyd pobl, ar rywogaethau a chynefinoedd gwarchodedig, neu ar gefn gwlad ehangach. Mae effeithiau ar rywogaethau a chynefinoedd gwarchodedig wedi'u cynnwys yn 4.1 ar fioamrywiaeth a chadwraeth ddaearegol.
- 4.189 Mae allyriadau sylffwr deuocsid (SO_2) o longau yn cael eu trin drwy gryfhau safonau allyriadau a chymhwyso Ardaloedd Rheoli Allyriadau SO_2 (SECAs). Mae allyriadau o drafniadaeth ffyrdd wedi bod yn gostwng o ganlyniad i welliannau technegol o ran dylunio injans a chatalyddion, a disgwylir y bydd cerbydau, gan gynnwys HGVs, yn parhau i leihau eu hallyriadau, gyda chymorth cefnogaeth y llywodraeth.

Lliniaru

- 4.190 Lle mae prosiect yn debygol o arwain at dorri unrhyw derfynau, amcanion neu dargedau ansawdd aer statudol perthnasol, dylai'r ymgeisydd weithio gyda'r awdurdodau perthnasol i sicrhau mesurau lliniaru priodol.
- 4.191 Gall mesurau lliniaru effeithio ar ddyluniad, cynllun, adeiladu a gweithredu'r prosiect, a gallant gynnwys mesurau i wella ansawdd aer y tu hwnt i leoliad uniongyrchol y porthladd gan y gall rhai llygryddion aer deithio pellteroedd hir.
- 4.192 Dylai'r penderfynwr ystyried a oes angen mesurau lliniaru ar gyfer allyriadau gweithredol ac adeiladu yn ychwanegol at unrhyw rai a all ffurfio rhan o gais y prosiect. Gall cynllun rheoli adeiladu helpu codeiddio lliniaru ar y cam hwn.
- 4.193 Wrth wneud hynny, dylai'r penderfynwr ystyried yr amodau a'r cyngor yn y Strategaeth Ansawdd Aer neu unrhyw olynydd iddi, ac i ganllawiau targed PM_{2.5} DEFRA sydd ar gael.
- 4.194 Bydd y mesurau lliniaru a nodwyd yn yr adran ar effeithiau trafndiaeth yn helpu lliniaru effeithiau allyriadau aer o drafndiaeth.
- 4.195 Gall porthladdoedd, i ryw raddau, ddylanwadu ar gyfran foddol cysylltiadau mewndirol â chyfleusterau porthladdoedd, a all helpu lleihau llygredd aer lleol. Er enghraifft, lle mae crynodiadau brig un neu fwy o lygryddion yn cael effaith uchel neu'n peri risg o fynd yn fwy na'r terfynau, gall systemau archebu cerbydau helpu lliniaru effeithiau o'r fath, yn ogystal â lleihau tagfeydd. Dylai'r penderfynwr ystyried i ba raddau y mae'r ymgeisydd yn bwriadu dylanwadu ar gyfran foddol cysylltiadau mewndirol i/o'r porthladdoedd a chadernid y cynigion hyn. Gweler yr asesiad trafndiaeth ym mharagraffau 4.119 ymlaen uchod.
- 4.196 Lle mae datblygiad mewn neu'n agos iawn at Ardal Rheoli Ansawdd Aer neu Barth Aer Glân, dylai ymgeiswyr ymgysylltu â'r awdurdod lleol perthnasol i sicrhau bod y prosiect yn gydnaws â'r Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer Lleol.
- 4.197 O ran yr holl derfynau, amcanion a thargedau ansawdd aer statudol heblaw'r rhai a osodwyd o dan Reoliadau Targedau Amgylcheddol (Gronynnol Mân) (Lloegr) 2023 ([OS 2023/96](#)), dylid cymryd pob cam lliniaru rhesymol. O leiaf, dylai'r mesurau lliniaru arfaethedig sicrhau nad yw effaith net prosiect yn oedi cydymffurfiaeth â'r amcanion hynny.
- 4.198 O ran OS 2023/96, dylai'r ymgeisydd gymryd pob cam rhesymol i leihau allyriadau PM_{2.5} a'i lygryddion rhagflaenol yng nghyfnod adeiladu a gweithredu'r datblygiad trwy ddilyn canllawiau DEFRA sydd ar gael.
- 4.199 Wrth ddatblygu a gweithredu mesurau lliniaru, dylid ymgynghori â'r Awdurdod Lleol yn enwedig lle mae allyriadau o'r porthladd yn debygol o effeithio ar Ardal Rheoli Ansawdd Aer.
- 4.200 Lle disgwylir i ddatblygiad arwain at ddirywiad yn ansawdd yr aer, dylai'r ymgeisydd gyfiawnhau pam y bernir bod y lefel o liniaru arfaethedig yn rhesymol.

Pŵer trydanol ar lan y môr

- 4.201 Gellir lleihau llygredd aer lleol hefyd drwy ddarparu pŵer trydanol sefydlog ar lan y môr i gymryd lle generaduron llongau tra byddant yn y porthladd, a elwir weithiau'n 'pŵer y lan'. Mae'r dechnoleg yn parhau i fod fwyaf priodol ar gyfer llongau mawr y disgwylir iddynt fod wedi angori am gyfnodau hir, er y gall datblygiadau dros amser ymestyn yr ystod o amgylchiadau lle gall pŵer ar lan y môr fod yn fuddiol o ran cost.
- 4.202 Dylai pob cynnig naill ai gynnwys darpariaethau rhesymol ymlaen llaw (megis dwythellau a mannau ar gyfer is-orsafoedd) i ganiatáu'r posibilrwydd o ddarparu seilwaith pŵer y lan yn y dyfodol, neu roi rhesymau pam na fyddai'n werth chweil yn economaidd ac yn amgylcheddol gwneud darpariaeth o'r fath.
- 4.203 Dylai'r penderfynwr ystyried pob achos yn wrthrychol i benderfynu a ddylid cynnwys darparu seilwaith pŵer y lan (yn hytrach na darpariaethau i ganiatáu hyn yn y dyfodol) yn y datblygiad. Dylai'r ystyriaeth hon fod yn seiliedig ar amser aros llongau a chydawnsedd technegol y llongau y bwriedir iddynt alw yn y porthladd, yn ogystal ag ar yr allyriadau ac effeithiau eraill. Lle mae'n ymddangos bod offerynnau uwch-genedlaethol sy'n gofyn am ddefnyddio pŵer y lan ar fin digwydd, dylai'r penderfynwr ystyried hyn.
- 4.204 Lle cynigir seilwaith cyflenwi trydan ar lan y môr, mae angen ystyried yr effaith bosibl ar y Grid Cenedlaethol o fodloni'r galw am bŵer ac felly'r costau i ddarparwyr cyflenwi trydan o wneud hynny heb effeithio ar ddibynadwyedd defnyddwyr eraill.

Gwefru llongau

- 4.205 Dylai gwefru llongau trydan ar gyfer trafnidiaeth forol leihau allyriadau ar gyfer y llongau hynny sydd â pheiriannau trydan batri, ac sy'n defnyddio seilwaith tebyg i'r un a ddefnyddir ar gyfer pŵer ar lan y môr. Felly, dylid gwneud darpariaeth ymlaen llaw ar gyfer gwefru llongau trydan lle bynnag y bo posibilrwydd realistig o ddefnydd, ac yn enwedig ar y cyd â phŵer ar lan y môr.

Asesiad yr ymgeisydd

- 4.206 Lle mae'n debygol y bydd y prosiect yn cael effeithiau sylweddol ar ansawdd aer, neu'n effeithio ar allu'r DU i gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer 2010, neu'n effeithio'n andwyol ar allu'r awdurdod lleol perthnasol i gydymffurfio â Rheoliadau Ansawdd Aer (Lloegr) 2000, dylai'r ymgeisydd gynnal asesiad o effeithiau'r prosiect arfaethedig fel rhan o'r Datganiad Amgylcheddol (ES). Dylai ymgeiswyr hefyd gyfeirio at ganllawiau sy'n ymwneud â'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ym mharagraffau 3.29 ymlaen.

- 4.207 Dylai'r ES ddisgrifio:

- allyriadau a chrynodiadau ansawdd aer presennol;
- rhagolygon o allyriadau a chrynodiadau ar adeg agor, gan dybio na chaiff y datblygiad ei adeiladu (y llinell sylfaen yn y dyfodol) a chan ystyried effaith y datblygiad;

- unrhyw allyriadau aer sylweddol, eu mesurau lliniaru ac unrhyw effeithiau gweddilliol, gan wahaniaethu rhwng y camau adeiladu a gweithredu a chan ystyried unrhyw allyriadau sylweddol o unrhyw draffig ffordd a gynhyrchir gan y prosiect;
- y lefelau allyriadau absoliwt a ragwelir o'r prosiect arfaethedig, ar ôl cymhwyso dulliau lliniaru;
- effeithiau posibl ar gynefinoedd dynodedig cyfagos o lygryddion aer;
- agosrwydd a natur derbynyddion cyfagos y gellid effeithio arnynt, gan gynnwys y rhai sy'n fwy sensitif i ansawdd aer gwael;
- risgiau posibl yn y dyfodol megis o ddefnyddio tanwyddau llongau newydd megis amonia a hydrogen.

4.208 Yn ogystal, dylai ymgeiswyr ystyried Rheoliadau Targedau Amgylcheddol (Deunydd Gronynnol Mân) (Lloegr) 2023 drwy ddilyn canllawiau sydd ar gael gan Defra, gan gynnwys canllawiau dros dro.

Canllawiau i'r penderfynwr

4.209 Yn gyffredinol, dylai'r penderfynwr roi pwys sylweddol i ystyriaethau ansawdd aer lle byddai prosiect, ar ôl ystyried mesurau lliniaru, yn arwain at ddirywiad yn ansawdd aer mewn ardal, neu'n arwain at doriad neu oedi wrth gyrraedd terfynau ansawdd aer cenedlaethol. Fodd bynnag, bydd ystyriaethau ansawdd aer hefyd yn bwysig lle disgwylir newidiadau sylweddol yn ansawdd aer, hyd yn oed os nad yw hyn yn arwain at unrhyw doriad ar unrhyw derfynau ansawdd aer cenedlaethol.

4.210 Ym mhob achos, rhaid i'r penderfynwr ystyried unrhyw derfynau, amcanion a thargedau ansawdd aer statudol perthnasol. Dylai'r penderfynwr fod yn fodlon y bydd digon o le amgylcheddol mewn trothwyon ansawdd aer lleol ar gyfer amddiffyn iechyd pobl a chynefinoedd. Dylai'r penderfynwr ystyried a yw mesurau lliniaru a gyflwynir gan yr ymgeisydd yn dderbyniol. Wrth wneud hynny, dylai'r penderfynwr ystyried canllawiau perthnasol gan gynnwys o fewn y Strategaeth Ansawdd Aer neu unrhyw olynydd iddi, canllawiau Rheoli Ansawdd Aer Lleol ac unrhyw ganllawiau targed PM2.5 Defra sydd ar gael.

4.211 Mae ystyriaethau ansawdd aer yn debygol o fod yn arbennig o berthnasol lle cynigir datblygiadau:

- o fewn neu gerllaw Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer gan gynnwys ffyrdd a nodwyd fel rhai sydd uwchlaw'r Gwerthoedd Terfyn; a
- lle mae newidiadau'n ddigonol i beri'r angen am Ardal Rheoli Ansawdd Aer newydd; neu beri newidiadau i'r achosion o fod uwchlaw'r Gwerthoedd Terfyn.

4.212 Lle mae prosiect yn debygol o arwain at dorri unrhyw derfynau, amcanion neu dargedau ansawdd aer statudol perthnasol, dylai'r datblygwyr weithio gyda'r awdurdodau perthnasol i sicrhau mesurau lliniaru priodol i ganiatáu i'r cynnig fynd

rhagddo. Os bydd prosiect yn arwain at beidio â chydymffurfio â therfyn statudol, dylai'r penderfynwr wrthod caniatâd.

4.213 Dylai'r penderfynwr wrthod caniatâd lle, ar ôl ystyried lliniaru, bydd yr allyriadau llygryddion aer sy'n deillio o'r cynllun arfaethedig naill ai'n:

- arwain at barth/cyfanswm sydd wedi'i adrodd ar hyn o bryd fel un sy'n cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer 2010 yn dod yn anghydfurfiol; neu
- yn effeithio'n ddifrifol andwyol ar allu ardal nad yw'n cydymffurfio i gyflawni cydymffurfiaeth o fewn yr amserlenni diweddaraf a adroddwyd i'r Awdurdod Archwilio yn yr archwiliad.

4.214 Fodd bynnag, nid yw unrhyw gynnydd o gwbl mewn allyriadau llygryddion aer yn rheswm ynddo'i hun i wrthod caniatâd datblygu, er y dylid rhoi pwysau priodol i unrhyw ddirywiad yn ansawdd yr aer wrth ddod i'r penderfyniad.

Llwch, arogl, golau artiffisial, mwg, stêm a phlâu pryfed

4.215 Yn ystod adeiladu, gweithredu a datgomisiynu seilwaith porthladd mae potensial i ryddhau amrywiaeth o allyriadau fel arogl, llwch, stêm, mwg, golau artiffisial a phlâu pryfed. Mae gan bob un y potensial i gael effaith andwyol ar amwynder neu achosi niwsans cyfraith gyffredin neu niwsans statudol o dan Ran III, Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (gweler adran 3). Gall plâu pryfed a fermin hefyd gael goblygiadau i iechyd y cyhoedd. Sylwch fod effeithiau llygredd o rai o'r allyriadau hyn (e.e. llwch, mwg) wedi'u cynnwys ym mharagraffau 4.158 ymlaen ar allyriadau aer.

4.216 Gall pla pryfed a fermin fod yn broblem benodol o ran storio tanwyddau ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ynni o wastraff (EfW), gan y gallent gael eu denu at wastraff bioddiraddadwy sy'n cael ei storio a'i brosesu yn y cyfleuster. Mae arogl hefyd yn debygol o godi yn ystod derbyn, storio a thrin/prosesu gwastraff bioddiraddadwy sy'n dod i mewn.

4.217 Oherwydd effeithiau posibl yr allyriadau a'r plâu hyn, ac o ystyried bod yr awdurdod statudol ar gael i amddiffyn rhag hawliadau niwsans, fel y disgrifir ym mharagraff 3.107 uchod, mae'n bwysig bod y penderfynwr yn ystyried y potensial ar gyfer yr effeithiau hyn.

4.218 Ar gyfer NSIPs porthladdoedd o'r math a gwmpesir gan yr NPS hwn, mae'n debygol y bydd rhywfaint o effaith ar amwynder cymunedau lleol yn anochel. Y nod ddylai fod cadw effeithiau i'r lleiafswm ac ar lefel sy'n dderbyniol, yn seiliedig ar asesiad cadarn a mesurau lliniaru arferion gorau. Dylid egluro unrhyw effeithiau gweddilliol fel rhan o asesiad yr ymgeisydd.

Asesiad yr ymgeisydd

4.219 Dylai'r ymgeisydd asesu'r potensial i blâu pryfed ac allyriadau arogl, llwch, stêm, mwg a golau artiffisial gael effaith andwyol ar amwynder, fel rhan o'r Datganiad Amgylcheddol.

4.220 Yn benodol, dylai'r asesiad a ddarperir gan yr ymgeisydd ddisgrifio:

- math, maint ac amseriad yr allyriadau;
- agweddau ar y datblygiad a allai arwain at allyriadau;
- safleoedd neu leoliadau y gallai'r allyriadau effeithio arnynt;
- effeithiau'r allyriad ar safleoedd neu leoliadau a nodwyd; a
- mesurau i'w defnyddio i atal neu liniaru'r allyriadau.

4.221 Cynghorir yr ymgeisydd i ymgynghori â'r awdurdod cynllunio lleol perthnasol a, lle bo'n briodol, Asiantaeth yr Amgylchedd (EA) ynghylch cwrpas a methodoleg yr asesiad.

Lliniaru

4.222 Gallai mesurau lliniaru gynnwys un neu fwy o'r canlynol:

- peirianeg: atal allyriad penodol ar y pwynt cynhyrchu; rheoli, cynnwys a lleihau allyriadau os cânt eu cynhyrchu;
- cynllun: pellter digonol rhwng y ffynhonnell a derbynyddion sensitif; llai o gludo neu drin deunyddiau; a
- gweinyddol: cyfyngu ar amseroedd gweithredu; cyfyngu ar weithgareddau a ganiateir ar y safle; gweithredu cynlluniau rheoli.

4.223 Dylid storio a thrin gwastraff a gweddillion o fewn ardaloedd diffiniedig, e.e. bynceri neu seilos, o fewn adeilad caeedig mewn gorsafoedd cynhyrchu Ynni o Wastraff.

4.224 Er mwyn lleihau'r potensial ar gyfer plâu, gellir cyfyngu ar yr amser rhwng derbyn, prosesu a llosgi gwastraff gan ofynion caniatâd.

Canllawiau i'r penderfynwr

4.225 Dylai'r penderfynwr fodloni ei hun bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd, a'i fod yn mynd i gael ei gymryd, i leihau unrhyw effaith niweidiol ar amwynder o ganlyniad i blâu pryfed ac allyriadau arogl, llwch, stêm, mwg a golau artiffisial.

4.226 Os bydd y penderfynwr yn rhoi caniatâd datblygu ar gyfer prosiect, dylai ystyried a oes cyfiawnhad dros gynnwys yr holl brosiect awdurdodedig (gan gynnwys unrhyw ddatblygiad cysylltiedig) o dan amddiffyniad awdurdod statudol yn erbyn hawliadau niwsans. Os na all ddod i'r casgliad bod hyn yn gyfiawn, dylai ddatgymhwyso'r amddiffyniad yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy ddarpariaeth yn y caniatâd datblygu neu'r gorchymyn harbwr.

- 4.227 Lle mae'r penderfynwr yn credu ei bod yn briodol, gallai ystyried atodi gofynion i'r caniatâd datblygu, er mwyn sicrhau rhai mesurau lliniaru.
- 4.228 Yn benodol, dylai'r penderfynwr ystyried a ddylid ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd gydymffurfio â chynllun rheoli a lliniaru ynghylch plâu pryfed ac allyriadau arogl, llwch, stêm, mwg a golau artiffisial o'r datblygiad. Dylai'r penderfynwr ystyried yr angen am gynllun o'r fath i leihau unrhyw golled i amwynder a allai godi yn ystod adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r datblygiad. Gall cynllun rheoli adeiladu helpu codeiddio lliniaru ar y cam hwnnw.

Sŵn a dirgryniad

- 4.229 Gall sŵn gormodol gael effeithiau pellgyrhaeddol ar ansawdd bywyd ac iechyd pobl megis annifyrrwch, aflonyddwch cwsig, clefyd cardiofasgwlaidd ac afiechyd meddwl. Gall hefyd gael effaith ar yr amgylchedd a'r defnydd a'r mwynhad o ardaloedd gwerthfawr megis lleoedd tawel ac ardaloedd â thirwedd o ansawdd uchel. Mae polisi'r Llywodraeth ar sŵn wedi'i nodi yn y Datganiad Polisi Sŵn ar gyfer Lloegr.⁵¹ Mae'n hyrwyddo iechyd da ac ansawdd bywyd da drwy reoli sŵn yn effeithiol. Mae ystyriaethau tebyg yn berthnasol i ddirgryniad, a all hefyd achosi difrod i adeiladau. Yn yr adran hon, yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol, mae cyfeiriadau at 'sŵn' yn y paragraff hwn ac isod yr un mor berthnasol i asesu effeithiau dirgryniad.
- 4.230 Gall sŵn sy'n deillio o ddatblygiad arfaethedig, er enghraifft sŵn tanddwr oherwydd gosod pyst yn ystod y gwaith adeiladu a chan longau ar waith, hefyd gael effeithiau andwyol ar fywyd gwyllt a bioamrywiaeth, gan gynnwys yn ystod y gwaith adeiladu, gweithredu a datgomisiynu. Dylai'r penderfynwr asesu effeithiau sŵn, gan gynnwys sŵn tanddwr, y datblygiad arfaethedig ar dderbynyddion ecolegol yn unol ag adran Bioamrywiaeth yr NPS hwn.
- 4.231 Mae ffactorau a fydd yn pennu effaith debygol y sŵn yn cynnwys:
- y sŵn gweithredol cynhenid o'r datblygiad arfaethedig, a'i nodweddion;
 - agosrwydd y datblygiad arfaethedig at safleoedd sy'n sensitif i sŵn (gan gynnwys eiddo preswyl, ysgolion ac ysbytai) ac ardaloedd sy'n sensitif i sŵn (gan gynnwys rhai parciau a mannau agored);
 - agosrwydd y datblygiad arfaethedig at leoedd tawel neu heddychlon ac ardaloedd eraill sy'n cael eu gwerthfawrogi'n arbennig am eu hamgylchedd acwstig neu ansawdd eu tirwedd; ac
 - agosrwydd y datblygiad arfaethedig at safleoedd dynodedig lle gallai sŵn gael effaith andwyol ar rywogaethau gwarchodedig neu fywyd gwyllt arall.

⁵¹Fel y nodir yn y [Datganiad Polisi Sŵn ar gyfer Lloegr](#).

Asesiad yr ymgeisydd

4.232 Lle mae effeithiau sŵn yn debygol o godi o'r datblygiad arfaethedig, dylai'r ymgeisydd gynnwys y canlynol yn yr asesiad sŵn:

- disgrifiad o agweddau cynhyrchu sŵn y cynnig datblygu sy'n arwain at effeithiau sŵn ar yr amgylchedd morol a daearol, gan gynnwys nodi unrhyw nodweddion tonaid nodedig, os yw'r sŵn yn ysgogol, p'un a yw'r sŵn yn golygu cynnwys amledd uchel neu isel penodol, neu unrhyw nodweddion amserol y sŵn;
- nodi safleoedd ac ardaloedd sy'n sensitif i sŵn a rhywogaethau sy'n sensitif i sŵn a allai gael eu heffeithio;
- nodweddion yr amgylchedd sŵn morol a daearol presennol;
- rhagfynegiad o sut y bydd yr amgylchedd sŵn yn newid gyda'r datblygiad arfaethedig;
- yn y tymor byrrach yn ystod y cyfnod adeiladu;
- yn y tymor hwy yn ystod oes weithredol y seilwaith; ac
- ar adegau penodol o'r dydd, gyda'r nos a'r nos yn ôl yr angen.
- asesiad o effaith newidiadau a ragwelir yn yr amgylchedd sŵn ar unrhyw ardaloedd sy'n sensitif i sŵn, gan gynnwys asesiad o unrhyw effaith debygol ar iechyd ac ansawdd bywyd/llesiant lle bo'n briodol, yn enwedig ymhlith y rhai sydd dan anfantais oherwydd ffactorau economaidd-gymdeithasol eraill, sydd yn aml yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan sŵn a rhywogaethau sy'n sensitif i sŵn; a
- mesurau i'w defnyddio i liniaru effeithiau sŵn.

4.233 Dylai natur a graddfa'r asesiad sŵn fod yn gymesur â'r effaith debygol o sŵn.

4.234 Dylid ystyried effaith sŵn gweithgareddau ategol sy'n gysylltiedig â'r datblygiad, megis cynnydd mewn symudiadau traffig ffyrdd a rheilffyrdd, neu fathau eraill o drafnidiaeth.

4.235 Dylid asesu sŵn gweithredol, mewn perthynas â derbynyddion dynol, gan ddefnyddio egwyddorion y Safonau Prydeinig perthnasol.⁵² Ar gyfer rhagweld, asesu a rheoli sŵn adeiladu, dylid cyfeirio at unrhyw Safonau Prydeinig perthnasol sydd hefyd yn rhoi enghreifftiau o strategaethau lliniaru.

4.236 Dylai'r ymgeisydd ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd a Natural England, neu Cyfoeth Naturiol Cymru, a'r MMO mewn perthynas â rhywogaethau morol gwarchodedig yn Lloegr, yn ôl yr angen ac yn benodol o ran asesu sŵn ar rywogaethau gwarchodedig neu fywyd gwyllt arall. Gall canlyniadau unrhyw arolygon

⁵² Er enghraifft, ar gyfer sŵn diwydiannol, BS 4192: 1997 – Dull ar gyfer graddio sŵn diwydiannol sy'n effeithio ar ardaloedd preswyl a diwydiannol cymysg, a BS 8233: 1999 – Inswleiddio sain a lleihau sŵn ar gyfer adeiladau.

a rhagfynegiadau sŵn lywio'r asesiad ecolegol. Efallai y bydd angen ystyried natur dymhorol rhywogaethau a allai gael eu heffeithio mewn safleoedd cyfagos hefyd.

Lliniaru

4.237 Dylai'r penderfynwr ystyried a oes angen mesurau lliniaru ar gyfer sŵn gweithredol a sŵn adeiladu yn ychwanegol at unrhyw rai a allai fod yn rhan o gais y prosiect. Wrth wneud hynny, efallai y bydd y penderfynwr yn dymuno gosod gofynion. Dylai unrhyw ofynion o'r fath ystyried y canllawiau a nodir ym mharagraff 55 ymlaen o'r [Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol](#), neu unrhyw olynydd iddo, a lle bo'n berthnasol mewn Canllawiau Ymarfer Cynllunio.

4.238 Dylai mesurau lliniaru ar gyfer y prosiect fod yn gymesur ac yn rhesymol a gallant gynnwys un neu fwy o'r canlynol:

- peirianeg: lleihau sŵn yn y man cynhyrchu a chynnwys y sŵn a gynhyrchir;
- cynllun: pellter digonol rhwng y ffynhonnell a derbynyddion sy'n sensitif i sŵn; ymgorffori dyluniad da i leihau trosglwyddo sŵn trwy sgrinio gan rwystrau naturiol neu adeiladau eraill;
- gweinyddol: cyfyngu ar amseroedd gweithredu'r ffynhonnell; cyfyngu ar weithgareddau a ganiateir ar y safle; pennu terfynau sŵn derbynol; a chymryd i ystyriaeth natur dymhorol bywyd gwyllt mewn safleoedd dynodedig cyfagos.

4.239 Mewn rhai sefyllfaoedd, a dim ond pan fydd pob math arall o liniaru sŵn wedi'i ddisbyddu, efallai y bydd yn briodol i'r penderfynwr ystyried ei gwneud yn ofynnol i liniaru sŵn drwy wella inswleiddio sŵn anheddau, neu mewn achosion eithafol, prynu eiddo yr effeithir arnynt yn orfodol, fel ffordd o ganiatáu datblygiad a fyddai fel arall yn annerbyniol.

Canllawiau i'r penderfynwr

4.240 Dylai'r prosiect arddangos dyluniad da drwy ddewis:

- y gwaith mwyaf tawel a chost-effeithiol sydd ar gael;
- cyfyngu sŵn o fewn adeiladau lle bynnag y bo modd;
- optimeiddio cynllun y gwaith i leihau allyriadau sŵn; a
- lle bo modd, defnyddio tirlunio, byndiau neu rwystrau sŵn neu fecanweithiau eraill i leihau trosglwyddo sŵn.

4.241 Dylai'r penderfynwr fod yn fodlon y bydd y cynigion yn cyflawni'r nodau canlynol:

- osgoi effeithiau andwyol sylweddol ar yr amgylchedd, iechyd pobl ac ansawdd bywyd oherwydd sŵn;

- lliniaru a lleihau effeithiau andwyol eraill ar iechyd ac ansawdd bywyd oherwydd sŵn; a
- lle bo modd, cyfrannu at welliannau i iechyd ac ansawdd bywyd drwy reoli sŵn yn effeithiol.

4.242 Wrth baratoi'r gorchymyn caniatâd datblygu, dylai'r penderfynwr ystyried cynnwys gofynion mesuradwy neu nodi'r mesurau lliniaru i'w cymryd i sicrhau nad yw lefelau sŵn gwirioneddol o'r prosiect yn fwy na'r rhai a ddisgrifir yn yr asesiad neu unrhyw amcangyfrifon eraill y seiliwyd penderfyniad y penderfynwr arnynt.

Effeithiau tirwedd a gweledol

4.243 Bydd effeithiau tirwedd a gweledol prosiectau arfaethedig yn amrywio fesul achos yn ôl y math o ddatblygiad, ei leoliad a chymeriad a lleoliad y dirwedd ar gyfer y datblygiad arfaethedig. Yn y cyd-destun hwn, dylid cymryd cyfeiriadau at dirwedd fel pe baent yn cwmpasu morlun a threflun, lle bo'n briodol.

4.244 Gall datblygu porthladdoedd gael effaith negyddol ar gymeriad tirwedd ac amwynder gweledol. Gall yr effaith fod yn ganlyniad i gymeriad ffisegol datblygiad y porthladd gan gynnwys cyflwyno goleuadau, symudiadau cerbydau ychwanegol a sŵn. Gall yr effeithiau hyn fod yn bwysig mewn lleoliadau sy'n gyrchfannau twristaidd cydnabyddedig a/neu'n bwysig ar gyfer gweithgareddau hamdden, ar y tir ac ar y môr. Mae Tirweddau Dynodedig, Parciau Cenedlaethol, y Broads a Thirweddau Cenedlaethol (ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol) yn arbennig o sensitif i ddatblygiadau mawr.

4.245 Mae Adran 85 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Deddf CRoW) (fel y'i diwygiwyd gan adran 245 Deddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau perthnasol, wrth arfer neu gyflawni unrhyw swyddogaeth sy'n effeithio ar Dirweddau Cenedlaethol (a elwid gynt yn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol) yn Lloegr, geisio hyrwyddo diben gwarchod a gwella harddwch naturiol y Tirweddau Cenedlaethol hynny.

Asesiad yr ymgeisydd

4.246 Dylai'r ymgeisydd gynnal asesiad tirwedd a gweledol a'i adrodd. Mae nifer o ganllawiau wedi'u cynhyrchu i gynorthwyo i fynd i'r afael â materion tirwedd, er enghraifft Canllawiau ar Asesiad Effaith Tirwedd a Gweledol ([GLVIA](#) Trydydd Argraffiad) a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Tirwedd. Dylai'r asesiad effaith tirwedd a gweledol ar gyfer y prosiect arfaethedig gynnwys yr effeithiau yn ystod y gwaith adeiladu a gweithredu, a chyfeirio at unrhyw asesiadau cymeriad tirwedd. Dylai asesiad yr ymgeisydd hefyd ystyried unrhyw bolisiâu perthnasol yn seiliedig ar yr asesiadau hyn mewn dogfennau datblygu lleol yn Lloegr. Ar gyfer morweddau, dylai ymgeiswyr ymgynghori â'r Asesiad Cymeriad Morwedd ac Asesiadau Cymeriad Morwedd y Cynllun Morol, ac unrhyw olynwyr iddynt.

4.247 Dylai'r asesiad gynnwys gwelededd ac amlygrwydd y prosiect yn ystod y gwaith adeiladu a phresenoldeb a gweithrediad y prosiect, effeithiau posibl ar olygfeydd (gan gynnwys golygfeydd gwarchodedig) ac amwynder gweledol. Dylai hyn gynnwys unrhyw effeithiau sŵn a/neu lygredd golau, gan gynnwys ar amwynder lleol, awyr

dywyll, tawelwch, a chadwraeth natur. Dylai'r asesiad hefyd arddangos sut y bydd sŵn a/neu lygredd golau o weithgareddau adeiladu a gweithredol ar amwynder preswyl, lleoliadau sensitif, a derbynyddion eraill yn cael eu lleihau. Dylai'r asesiad hefyd ystyried y rhinweddau arbennig a'r nodweddion allweddol a nodwyd oddi ar Barciau Cenedlaethol, y Broads a Thirweddau Cenedlaethol (fel y nodir yn y cynlluniau rheoli ar gyfer y dynodiadau hyn).

- 4.248 Rhaid i unrhyw ymgymmerwr statudol sy'n comisiynu neu'n ymgymryd â gwaith mewn perthynas â thir ym Mharciau Cenedlaethol Lloegr a'r Broads, neu Dirweddau Cenedlaethol, neu sy'n effeithio arno, gydymffurfio â'r dyletswyddau yn adran 245 Deddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023 gan gynnwys y ddyletswydd i hyrwyddo'r dibenion a nodwyd uchod. Mae polisi cynllunio'r llywodraeth yn cynghori na ddylai datblygiad mawr ddigwydd yn yr ardaloedd hyn oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol.

Lliniaru

- 4.249 Dylid dylunio'r prosiect, a lleihau'r raddfa, i osgoi neu, lle bo'n anochel, i lliniaru effeithiau gweledol a thirwedd prosiect arfaethedig. Fodd bynnag, gall lleihau'r raddfa neu ddiwygio dyluniad y datblygiad fel arall arwain at gyfyngiad gweithredol sylweddol a gostyngiad mewn swyddogaeth. Mewn amgylchiadau eithriadol lle gallai lliniaru fod â budd sylweddol iawn a chyfiawnhau gostyngiad bach mewn swyddogaeth, gall yr Ysgrifennydd Gwladol benderfynu bod manteision y lliniaru i leihau'r effeithiau tirwedd yn gorbwyso'r golled ymylol o swyddogaeth.
- 4.250 O fewn safle diffiniedig, gellir lleihau effeithiau tirwedd a gweledol niweidiol trwy leoli seilwaith yn briodol o fewn y safle hwnnw. Yn dibynnu ar faint a math y prosiect arfaethedig. Dylid defnyddio Dylunio Da ar ffurf y dewis o liwiau a deunyddiau, a chynlluniau tirlunio. Dylid bob amser ystyried deunyddiau a dyluniadau adeiladau, gan gynnwys goleuadau, yn ofalus. Ar gyfer prosiectau sydd â'r potensial i effeithio ar dirweddau dynodedig, dylid cyfeirio at y cynllun(iau) rheoli perthnasol ar gyfer yr ardaloedd hyn am wybodaeth i gynorthwyo wrth ddylunio'r cynllun.
- 4.251 Gan ddibynnu ar dopograffeg y tir cyfagos a'r ardaloedd poblogaeth, efallai y byddai'n briodol ymgymryd â thirlunio oddi ar y safle, er pe bai Gorchymyn Caniatâd Datblygu yn cynnig caniatâd i dirlunio o'r fath, byddai'n rhaid ei gynnwys o fewn terfynau'r gorchymyn ar gyfer y cais hwnnw. Er enghraifft, byddai llenwi bylchau mewn llinellau coed a gwrychoedd presennol yn lliniaru'r effaith wrth edrych arnynt o bwynt pellach.
- 4.252 Dylai ymgeiswyr ystyried sut y gellir gwella tirweddau gan ddefnyddio cynlluniau rheoli tirwedd, gan y bydd hyn yn helpu gwella asedau amgylcheddol lle maent yn cyfrannu at ansawdd tirwedd a threfwedd a gallant atgyfnerthu neu wella nodweddion a chymeriad tirwedd.

Canllawiau i'r penderfynwr: effaith ar y dirwedd

- 4.253 Mae effeithiau ar y dirwedd yn dibynnu ar gymeriad presennol y dirwedd leol, ei hansawdd cyfredol, pa mor uchel y caiff ei gwerthfawrogi a'i gallu i ymdopi â newid.

Mae angen ystyried yr holl ffactorau hyn wrth farnu effaith prosiect ar y dirwedd. Mae angen dylunio prosiectau'n ofalus, gan ystyried cyfyngiadau lleoli, gweithredol a chyfyngiadau perthnasol eraill. Y nod ddylai fod lleihau niwed i'r dirwedd, lle mae effeithiau andwyol yn anochel, gan ddarparu mesurau lliniaru rhesymol a chyflawni mesurau gwella tirwedd lle bo modd ac yn briodol.

Canllawiau i'r penderfynwr: datblygiad arfaethedig o fewn ardaloedd a ddynodwyd yn genedlaethol

4.254 Mae Parciau Cenedlaethol, y Broads a Thirweddau Cenedlaethol wedi cael eu cadarnhau gan y Llywodraeth fel rhai sydd â'r statws gwarchodaeth uchaf mewn perthynas â thirwedd a harddwch naturiol. Mae gan bob un o'r ardaloedd dynodedig hyn ddibenion statudol penodol.⁵³ Dylai'r penderfynwr roi pwyslais mawr ar gadwraeth y dirwedd a harddwch naturiol wrth benderfynu ar geisiadau am ganiatâd datblygu yn yr ardaloedd hyn. Dylai'r Ysgrifennydd Gwladol fod yn fodlon bod dyluniad a chyflawniad y cynllun yn cydymffurfio â'r ddyletswydd yn adran 245 o Ddeddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023. Dylai'r Ysgrifennydd Gwladol wrthod caniatâd datblygu ym Mharciau Cenedlaethol Lloegr, y Broads a Thirweddau Cenedlaethol oni bai fod amgylchiadau eithriadol yn bodoli, lle mae'r manteision yn gorbwyso'r niwed a lle gellir arddangos ei fod er budd y cyhoedd. Dylai ystyried ceisiadau o'r fath gynnwys asesiad o:

- yr angen am y datblygiad, gan gynnwys o ran unrhyw ystyriaethau cenedlaethol⁵⁴, ac effaith rhoi caniatâd, neu beidio â rhoi caniatâd, ar yr economi leol;
- cost, a'r cwmpas ar gyfer, datblygu mewn mannau eraill y tu allan i'r ardal ddynodedig, neu ddiwallu'r angen amdano mewn rhyw ffordd arall⁵⁵; ac
- unrhyw effaith niweidiol ar yr amgylchedd, y dirwedd, harddwch naturiol a chyfleoedd hamdden, a'r graddau y byddai hynny'n cael ei gymedroli.

4.255 Lle rhoddir caniatâd yn yr ardaloedd hyn, dylai'r Ysgrifennydd Gwladol fod yn fodlon bod yr ymgeisydd wedi sicrhau y bydd y prosiect yn cael ei gyflawni i safonau amgylcheddol a dylunio uchel ac yn cynnwys mesurau i wella'r dirwedd, harddwch naturiol ac agweddau eraill ar yr amgylchedd. Lle bo angen, dylai'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried gosod gofynion priodol i sicrhau bod y safonau hyn yn cael eu cyflawni.

⁵³ Am esboniad o'r dyletswyddau a fydd yn berthnasol i'r Ysgrifennydd Gwladol, gweler *Dyletswyddau ar awdurdodau perthnasol i ystyried dibenion Parciau Cenedlaethol, AHNE (Tirweddau Cenedlaethol bellach) a Broads Norfolk a Suffolk yn* <http://archive.defra.gov.uk/rural/documents/protected/npaonb-duties-guide.pdf>

⁵⁴ Dylid deall bod ystyriaethau cenedlaethol yn cynnwys yr angen cenedlaethol am y seilwaith a nodir yn rhan 1, a'i fanteision, yn ogystal â chyfraniad y seilwaith i'r economi genedlaethol.

⁵⁵ Gweler paragraffau 3.46 ymlaen am y ffactorau cyffredinol a ddylai fframio ystyriaeth y penderfynwr o safleoedd neu lwybrau amgen.

Canllawiau i'r penderfynwr: datblygiadau y tu allan i ardaloedd a ddynodwyd yn genedlaethol a allai effeithio arnynt

- 4.256 Mae'r ddyletswydd i geisio hyrwyddo dibenion ardaloedd dynodedig yn genedlaethol hefyd yn berthnasol wrth ystyried ceisiadau ar gyfer prosiectau y tu allan i ffiniau'r ardaloedd hyn a allai gael effeithiau ynddynt. Y nod ddylai fod osgoi niweidio dibenion y dynodiad, a dylid dylunio prosiectau o'r fath yn sensitif, o ystyried y gwahanol gyfyngiadau lleoli, gweithredol a chyfyngiadau perthnasol eraill. Dylai hyn gynnwys prosiectau yn Lloegr a allai gael effeithiau ar Ardaloedd Golygfaol Cenedlaethol yn yr Alban.
- 4.257 Fodd bynnag, ni ddylai'r ffaith y bydd prosiect arfaethedig yn weladwy o fewn ardal ddynodedig fod yn rheswm ynddo'i hun dros wrthod caniatâd.

Canllawiau i'r penderfynwr: datblygiadau mewn ardaloedd eraill

- 4.258 Y tu allan i ardaloedd a ddynodwyd yn genedlaethol, mae tirweddau lleol y gellir eu gwerthfawrogi'n lleol a'u gwarchod gan bolisi lleol. Lle mae gan ddogfen datblygu lleol yn Lloegr neu gynllun datblygu lleol yng Nghymru bolisiâu yn seiliedig ar asesiad cymeriad tirwedd, ac wedi nodi tirweddau o werth lleol, dylid rhoi sylw arbennig i'r rhain. Fodd bynnag, ni ddylid defnyddio ardaloedd o'r fath ynddynt eu hunain fel rhesymau dros wrthod caniatâd, gan y gallai hyn gyfyngu'n ormodol ar ddatblygiad derbyniol.
- 4.259 Dylai'r penderfynwr ystyried a yw'r prosiect wedi'i gynllunio'n ofalus, gan ystyried effeithiau amgylcheddol ar y dirwedd a chyfyngiadau lleoli, gweithredol a chyfyngiadau perthnasol eraill, i leihau niwed i'r dirwedd, gan gynnwys trwy fesurau lliniaru rhesymol.

Canllawiau i'r penderfynwr: effaith weledol

- 4.260 Bydd yn rhaid i'r penderfynwr farnu a yw'r effeithiau gweledol ar dderbynyddion sensitif, fel trigolion lleol, a derbynyddion eraill fel ymwelwyr â'r ardal leol, yn gorbwyso manteision y datblygiad. Mae ardaloedd arfordirol yn arbennig o agored i ymyrraeth weledol oherwydd y gwelededd uchel posibl o ddatblygiad ar y blaendraeth, ar y gorwel ac effeithio ar olygfeydd ar hyd darnau o arfordir sydd heb ei ddatblygu.
- 4.261 Gall fod yn ddefnyddiol i ymgeiswyr dynnu sylw, yn y dystiolaeth ategol i'w ceisiadau, at unrhyw enghreifftiau o seilwaith presennol a ganiateir y maent yn ymwybodol ohono sydd â maint tebyg o effaith ar dderbynyddion sensitif. Gallai hyn gynorthwyo'r penderfynwr i farnu'r pwysau y dylai ei roi i effeithiau gweledol asesedig y datblygiad arfaethedig.

Yr amgylchedd hanesyddol

- 4.262 Mae gan adeiladu, gweithredu a datgomisiynu seilwaith porthladd y potensial i arwain at effeithiau andwyol ar yr amgylchedd hanesyddol.

4.263 Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cynnwys pob agwedd ar yr amgylchedd sy'n deillio o'r rhyngweithio rhwng pobl a lleoedd dros amser, gan gynnwys yr holl olion ffisegol sydd wedi goroesi o weithgarwch dynol yn y gorffennol, boed yn weladwy, claddedig neu suddedig, wedi'u tirlunio a'u plannu neu wedi'u rheoli. Gelwir yr elfennau hynny o'r amgylchedd hanesyddol sydd â gwerth i'r genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol oherwydd eu diddordeb hanesyddol, archaeolegol, pensaernïol neu artistig yn 'asedau treftadaeth'. Gall ased treftadaeth fod yn unrhyw adeilad, heneb, safle, lle, ardal neu dirwedd, neu unrhyw gyfuniad o'r rhain. Cyfeirir at swm y buddiannau treftadaeth sydd gan ased treftadaeth fel ei arwyddocâd.⁵⁶

4.264 Mae gan rai asedau treftadaeth lefel o arwyddocâd sy'n cyfiawnhau dynodiad swyddogol. Y categorïau o asedau treftadaeth dynodedig yw: Safleoedd Treftadaeth y Byd; Henebion Rhestredig; Adeiladau Rhestredig; Safleoedd Llongddrylliadau Gwarchodedig⁵⁷; Gweddillion Milwrol Gwarchodedig; Parciau a Gerddi Cofrestredig; Meysydd Brwydr Cofrestredig (Lloegr yn unig); Ardaloedd Cadwraeth; a Thirweddau Hanesyddol Cofrestredig (Cymru yn unig).⁵⁸

4.265 Mae asedau treftadaeth o ddiddordeb archaeolegol nad ydynt wedi'u dynodi'n henebion cofrestredig ar hyn o bryd, ond a allai fod o arwyddocâd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- y rhai sydd heb eu hasesu'n ffurfiol eto ar gyfer dynodi;
- y rhai sydd wedi'u hasesu fel rhai sy'n gallu cael eu dynodi ond nad yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi penderfynu eu dynodi;
- y rhai nad ydynt yn gallu cael eu dynodi oherwydd eu bod y tu allan i gwmpas Deddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979.

Asesiad yr ymgeisydd

4.266 Fel rhan o'r Datganiad Amgylcheddol, dylai'r ymgeisydd ddarparu disgrifiad o arwyddocâd⁵⁹ o'r asedau treftadaeth yr effeithir arnynt gan y datblygiad arfaethedig a chyfraniad eu lleoliad at yr arwyddocâd hwnnw. Dylai lefel y manylder fod yn gymesur â phwysigrwydd yr asedau treftadaeth a dim mwy nag sy'n ddigonol i ddeall effaith bosibl y cynnig ar arwyddocâd yr ased treftadaeth. Fel isafswm, dylai'r

⁵⁶ Ac eithrio'r term 'Ased Treftadaeth Dynodedig', diffinnir y termau hyn a thermau eraill a ddefnyddir yn yr adran hon yn Atodiad 2 i PPS5, neu unrhyw olynydd iddo. Mae Canllaw Ymarfer PPS5 yn cynnwys canllawiau ar eu dehongliad. Yn ogystal, rhan o bwrpas dynodi Parciau Cenedlaethol yw amddiffyn eu treftadaeth ddiwylliannol ac mae cadwraeth treftadaeth ddiwylliannol yn ystyriaeth bwysig ym mhob Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

⁵⁷ Cyfrifoldeb yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yw rhoi trwyddedau i ymgymryd â gwaith ar Safleoedd Llongddrylliadau Gwarchodedig yn nyfroedd Lloegr ac nid yw'n rhan o ganiatadau datblygu a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Yng Nghymru, cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru yw hyn. Cyfrifoldeb yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn yw rhoi trwyddedau ar gyfer Gweddillion Milwrol Gwarchodedig.

⁵⁸ Yn ogystal, rhan o bwrpas dynodi Parciau Cenedlaethol yw amddiffyn eu treftadaeth ddiwylliannol ac mae cadwraeth treftadaeth ddiwylliannol yn ystyriaeth bwysig ym mhob Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

⁵⁹ Ei werth i bobl nawr ac yn y dyfodol oherwydd ei ddiddordeb treftadaeth.

ymgeisydd fod wedi ymgynghori â'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol perthnasol⁶⁰ ac wedi asesu'r asedau treftadaeth eu hunain gan ddefnyddio arbenigedd lle bo angen yn ôl effaith y datblygiad arfaethedig.

4.267 Lle mae safle datblygu yn cynnwys, neu lle mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu bod ganddo botensial i gynnwys, asedau treftadaeth â diddordeb archaeolegol, dylai'r ymgeisydd gynnal asesiad desg priodol a, lle nad yw ymchwil desg o'r fath yn ddigonol i asesu'r diddordeb yn iawn, gwerthusiad maes. Lle bydd datblygiad arfaethedig yn effeithio ar leoliad ased treftadaeth, efallai y bydd angen delweddiadau cynrychioliadol i esbonio'r effaith.

4.268 Dylid ystyried y posibilrwydd o ddifrod i nodweddion claddedig o waredu deunydd wedi'i garthu o dan y dŵr.

4.269 Dylai'r ymgeisydd sicrhau y gellir deall yn ddigonol maint effaith y datblygiad arfaethedig ar arwyddocâd unrhyw asedau treftadaeth yr effeithir arnynt o'r cais a'r dogfennau ategol.

Canllawiau i'r penderfynwr

4.270 Wrth ystyried ceisiadau, dylai'r penderfynwr geisio nodi ac asesu arwyddocâd unrhyw ased treftadaeth a allai gael ei effeithio gan y datblygiad arfaethedig, gan gynnwys datblygiad sy'n effeithio ar leoliad ased treftadaeth, gan ystyried:

- tystiolaeth a ddarparwyd gyda'r cais;
- unrhyw gofnodion dynodi;
- Asesiadau Cyflym o'r Parth Arfordirol gan Historic England lle bo'n berthnasol;
- y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol a ffynonellau gwybodaeth tebyg;
- yr asedau treftadaeth eu hunain;
- canlyniad ymgynghoriadau â phartïon a chanddynt fuddiant; a
- lle bo'n briodol a phan fydd yr angen yn codi i ddeall arwyddocâd yr asedau treftadaeth, cyngor arbenigol.

4.271 Nid yw absenoldeb dynodiad ar gyfer asedau treftadaeth yn dynodi arwyddocâd is. Os yw'r dystiolaeth sydd gerbron y penderfynwr yn dangos iddo y gallai ased treftadaeth heb ei ddynodi o'r math a ddisgrifir gael ei effeithio gan y datblygiad

⁶⁰ Mae Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol (HERs) yn wasanaethau gwybodaeth a gynhelir gan awdurdodau lleol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gyda'r nod o ddarparu mynediad at adnoddau sy'n ymwneud ag amgylchedd hanesyddol ardal er budd a defnydd y cyhoedd. Mae manylion HERs yn Lloegr ar gael o wefan Heritage Gateway yn <http://www.heritagegateway.org.uk/Gateway/CHR>. Ar gyfer Cymru, gellir cael manylion HERs trwy Borth Cymru Hanesyddol yn <http://jura.rcahms.gov.uk/nms/start.jsp>. Mae gan Historic England a Cadw wybodaeth ychwanegol am asedau treftadaeth yn nyfroedd Cymru neu Loegr. Dylid ymgynghori â hyn hefyd lle bo'n berthnasol.

arfaethedig, yna dylid ystyried bod yr ased treftadaeth yn ddarostyngedig i'r un ystyriaethau polisi â'r rhai sy'n berthnasol i asedau treftadaeth dynodedig.

- 4.272 Dylai'r penderfynwr hefyd ystyried yr effeithiau ar asedau treftadaeth eraill heb eu dynodi, fel y'u nodir naill ai trwy'r broses o lunio cynllun datblygu (rhestru lleol) neu drwy'r broses o wneud penderfyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth glir bod gan yr asedau arwyddocâd sy'n haeddu ystyriaeth yn ei benderfyniadau, er bod yr asedau hynny o werth llai nag asedau treftadaeth dynodedig.
- 4.273 Wrth ystyried effaith datblygiad arfaethedig ar unrhyw asedau treftadaeth, dylai'r penderfynwr ystyried natur benodol arwyddocâd yr asedau treftadaeth a'r gwerth sydd ganddynt i'r genhedlaeth hon yn ogystal ag i genedlaethau'r dyfodol. Dylid defnyddio'r ddealltwriaeth hon i osgoi neu leihau gwrthdaro rhwng cadwraeth yr arwyddocâd a chynigion ar gyfer datblygu.
- 4.274 Dylai'r penderfynwr ystyried pa mor ddymunol yw cynnal a, lle bo'n briodol, gwella arwyddocâd asedau treftadaeth, cyfraniad eu lleoliadau a'r cyfraniad cadarnhaol y gallant ei wneud i gymunedau cynaliadwy a bywiogrwydd economaidd.⁶¹ Dylai'r penderfynwr ystyried pa mor ddymunol yw datblygiad newydd sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad a hynodrwydd lleol yr amgylchedd hanesyddol. Dylai'r ystyriaeth o ddyluniad gynnwys graddfa, uchder, màs, aliniad, deunyddiau a defnydd. Dylai'r penderfynwr roi sylw i unrhyw gynlluniau datblygu awdurdodau lleol perthnasol neu adroddiad effaith leol ar y datblygiad arfaethedig mewn perthynas â'r ffactorau a nodir yn nhroednodyn 59 isod.
- 4.275 Dylai fod rhagdybiaeth o blaid cadwraeth asedau treftadaeth dynodedig a, pho fwyaf arwyddocaol yw'r ased treftadaeth dynodedig, y mwyaf yw'r rhagdybiaeth o blaid ei gadwraeth. Ar ôl eu colli, ni ellir disodli asedau treftadaeth, ac mae gan eu colli effaith ddiwylliannol, amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Gellir niweidio neu golli arwyddocâd trwy newid neu ddinistrio'r ased treftadaeth neu'r datblygiad o fewn ei leoliad. Dylai colled sy'n effeithio ar unrhyw ased treftadaeth dynodedig fod angen cyfiawnhad clir a pherswadiol. Dylai niwed sylweddol i neu golli parc neu ardd adeilad rhestredig gradd II fod yn eithriadol. Dylai niwed sylweddol i neu golli asedau dynodedig o'r arwyddocâd mwyaf, gan gynnwys Henebion Cofrestredig; meysydd brwydr cofrestredig; adeiladau rhestredig gradd I a II*; parciau a gerddi cofrestredig gradd I a II*; a Safleoedd Treftadaeth y Byd fod yn gwbl eithriadol.
- 4.276 Dylid pwysu a mesur unrhyw effaith niweidiol ar arwyddocâd ased treftadaeth dynodedig yn erbyn budd cyhoeddus y datblygiad, gan gydnabod, po fwyaf yw'r niwed i arwyddocâd yr ased treftadaeth, y mwyaf y bydd angen cyfiawnhad dros unrhyw golled. Lle bydd y cais yn arwain at niwed sylweddol i ased treftadaeth dynodedig neu golled llwyr o arwyddocâd, dylai'r penderfynwr wrthod caniatâd oni bai y gellir arddangos bod y niwed sylweddol i ased treftadaeth dynodedig neu'r golled o

⁶¹ Gall hyn fod yn rhinwedd:

- asedau treftadaeth sy'n dylanwadu ar gymeriad yr amgylchedd ac ymdeimlad o le ardal;
- asedau treftadaeth sydd â photensial i fod yn gatalydd ar gyfer adfywio mewn ardal, yn enwedig drwy hamdden, twristiaeth a datblygiad economaidd;
- asedau treftadaeth yn ysgogiad i ysbrydoli datblygiad newydd o ddylunio dychmygus ac o ansawdd uchel;
- ailddefnyddio ffabrig presennol, gan leihau gwastraff; ac
- y patrymau cymysg a hyblyg o ddefnydd tir mewn ardaloedd hanesyddol sy'n debygol o fod, ac o barhau i fod, yn gynaliadwy.

arwyddocâd yn angenrheidiol i gyflawni buddion cyhoeddus sylweddol sy'n gorbwyso'r golled neu'r niwed hwnnw. Ni fydd pob elfen o Safle Treftadaeth y Byd neu Ardal Gadwraeth o reidrwydd yn cyfrannu at ei arwyddocâd. Mae'r polisiâu yn y paragraffau blaenorol yn berthnasol i'r elfennau hynny sy'n cyfrannu at yr arwyddocâd. Wrth ystyried cynigion, dylai'r penderfynwr ystyried arwyddocâd cymharol yr elfen yr effeithir arni a'i chyfraniad at arwyddocâd Safle Treftadaeth y Byd neu'r Ardal Gadwraeth yn ei chyfanrwydd.

4.277 Lle mae colli arwyddocâd unrhyw ased treftadaeth yn cael ei gyfiawnhau ar sail rhinweddau'r datblygiad newydd, dylai'r penderfynwr ystyried gosod gofyniad ar y caniatâd neu ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd ymrwymo i rwymedigaeth a fydd yn atal y golled rhag digwydd nes ei bod yn rhesymol sicr y bydd y rhan berthnasol o'r datblygiad yn mynd rhagddi.

4.278 Wrth ystyried ceisiadau am ddatblygiad sy'n effeithio ar leoliad ased treftadaeth, dylai'r penderfynwr drin ceisiadau sy'n cadw'r elfennau hynny o'r lleoliad sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at yr ased, neu sy'n datgelu arwyddocâd yr ased yn well, yn ffafriol. Wrth ystyried ceisiadau nad ydynt yn gwneud hyn, dylai'r penderfynwr bwysu a mesur unrhyw effeithiau negyddol yn erbyn manteision ehangach y cais. Po fwyaf yw'r effaith negyddol ar arwyddocâd yr ased, y mwyaf yw'r manteision y bydd eu hangen i gyfiawnhau cymeradwyaeth.

Cofnodi

4.279 Nid yw cofnod dogfennol o'n gorffennol mor werthfawr â chadw'r ased treftadaeth, ac felly ni ddylai'r gallu i gofnodi tystiolaeth o'r ased fod yn ffactor wrth benderfynu a ddylid rhoi caniatâd.

4.280 Lle mae colli arwyddocâd cyfan neu ran sylweddol o arwyddocâd ased treftadaeth yn gyfiawn, dylai'r penderfynwr ei gwneud yn ofynnol i'r datblygwr gofnodi a hyrwyddo dealltwriaeth o arwyddocâd yr ased cyn i hyn gael ei golli. Dylai maint y gofyniad fod yn gymesur â natur a lefel arwyddocâd yr ased. Dylai fod yn ofynnol i ddatblygwyr gyhoeddi'r dystiolaeth hon a rhoi copiâu o'r adroddiadau gyda'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol perthnasol. Dylid hefyd fod yn ofynnol iddynt roi'r archif a gynhyrchwyd i amgueddfa leol neu storfa gyhoeddus arall sy'n fodlon ei derbyn.

4.281 Lle bo'n briodol, dylai'r penderfynwr osod gofynion ar ganiatâd i sicrhau bod gwaith o'r fath yn cael ei wneud yn amserol yn unol â chynllun ymchwilio ysgrifenedig sy'n bodloni gofynion yr adran hon ac sydd wedi'i gytuno'n ysgrifenedig gyda'r awdurdod lleol perthnasol (a, lle mae'r datblygiad mewn dyfroedd gerllaw Lloegr, y Sefydliad Rheoli Morol a Historic England ⁶² neu lle mae mewn dyfroedd gerllaw Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (a Cadw), a sicrhau bod cwblhau'r ymarfer wedi'i sicrhau'n briodol.

4.282 Lle mae'r penderfynwr yn ystyried bod tebygolrwydd uchel y gallai safle datblygu gynnwys asedau treftadaeth o ddiddordeb archaeolegol sydd heb eu darganfod eto, dylai'r penderfynwr ystyried gofynion i sicrhau bod gweithdrefnau priodol (er

⁶² Am ganllawiau gweler Porthladdoedd: effaith datblygiad ar yr amgylchedd hanesyddol morwrol (Historic England, 2006) neu unrhyw ddogfen olynol..

enghraifft, cynllun ymchwilio ysgrifenedig) ar waith ar gyfer arolygu, nodi, dadansoddi a thrin asedau o'r fath a ddarganfuwyd cyn ac yn ystod y gwaith adeiladu.

Defnydd tir a dŵr gan gynnwys mannau agored, seilwaith gwyrdd a'r Llain Las

- 4.283 Bydd prosiect seilwaith porthladd yn cael effeithiau uniongyrchol ar ddefnydd presennol y safle arfaethedig a gall gael effeithiau anuniongyrchol ar ddefnydd a defnyddwyr, neu ddefnydd a defnyddwyr arfaethedig, tir yn y cyffiniau ar gyfer mathau eraill o ddatblygiad. O ystyried lleoliadau tebygol prosiectau seilwaith porthladd, gall fod effeithiau penodol ar fannau agored⁶³, gan gynnwys seilwaith 'gwyrdd' a 'glas'.⁶⁴
- 4.284 Polisi'r Llywodraeth yw sicrhau bod darpariaeth ddigonol o fannau agored o ansawdd uchel, (gan gynnwys seilwaith 'gwyrdd' a 'glas') a chyfleusterau chwaraeon a hamdden i ddiwallu anghenion cymunedau lleol.⁶⁵ Mae cysylltu pobl â mannau agored, cyfleusterau chwaraeon a hamdden i gyd yn helpu ategu ansawdd bywyd pobl ac mae ganddynt rôl hanfodol i'w chwarae wrth hyrwyddo byw'n iach.
- 4.285 Gall seilwaith gwyrdd a glas hefyd alluogi datblygiadau i ddarparu manteision amgylcheddol, cymdeithasol, iechyd ac economaidd cadarnhaol. Mae seilwaith gwyrdd yn cynnwys mannau gwyrdd fel parciau a choetiroedd ond hefyd nodweddion amgylcheddol eraill fel coed stryd, gwrychoedd a waliau a thoeau gwyrdd. Mae hefyd yn cynnwys seilwaith glas fel camlesi, afonydd, nentydd, pyllau, llynnoedd a'u ffiniau. Mae seilwaith gwyrdd a glas sydd wedi'i gynllunio a'i reoli'n dda yn darparu manteision lluosog ar ystod o raddfeydd. Gall gyfrannu at adferiad bioamrywiaeth, cadw carbon, amsugno dŵr wyneb, cadw llygryddion, amsugno sŵn a lleihau tymereddau uchel. Bydd seilwaith gwyrdd, yn benodol, hefyd yn chwarae rhan gynyddol bwysig wrth liniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd. Gellir defnyddio'r Fframwaith Seilwaith Gwyrdd – Egwyddorion a Safonau ar gyfer Lloegr i ystyried seilwaith gwyrdd mewn datblygiad a chynllunio ar gyfer creu neu wella ansawdd da a thargedig.
- 4.286 Gall ailddefnyddio tir a ddatblygwyd yn flaenorol ar gyfer datblygiad newydd wneud cyfraniad mawr at ddatblygu cynaliadwy drwy leihau faint o dir cefn gwlad a thir glas heb ei ddatblygu sydd angen ei ddefnyddio. Efallai na fydd hyn yn bosibl ar gyfer rhai mathau o seilwaith. Dylai ymgeiswyr ddangos yn glir pam nad yw defnyddio tir llwyd yn briodol lle mae hyn yn wir ac fel arall dylent wneud y defnydd mwyaf o dir llwyd.

⁶³ Diffinnir man agored yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel tir a osodwyd fel gardd gyhoeddus, neu a ddefnyddir at ddibenion hamdden cyhoeddus, neu dir sy'n fynwent segur. Fodd bynnag, wrth gymhwyso'r polisïau yn yr adran hon, dylid ystyried bod man agored yn golygu pob man agored o werth cyhoeddus, gan gynnwys nid yn unig tir, ond hefyd ardaloedd dŵr fel afonydd, camlesi, llynnoedd a chronfeydd dŵr sy'n cynnig cyfleoedd pwysig ar gyfer chwaraeon a hamdden a gallant hefyd weithredu fel amwynder gweledol.

⁶⁴ Mae seilwaith gwyrdd yn rhwydwaith o fannau gwyrdd amlswyddogaethol, rhai newydd a rhai presennol, rhai gwledig a threfol, sy'n cefnogi'r prosesau naturiol ac ecolegol ac sy'n hanfodol i iechyd ac ansawdd bywyd cymunedau cynaliadwy. Mae seilwaith glas yn seilwaith trefol sy'n gysylltiedig â rheoli dŵr.

⁶⁵ Ar gyfer Cymru, mae canllawiau perthnasol wedi'u nodi yn Nodyn Cyngor Technegol 16 Llywodraeth Cymru: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored.

- 4.287 Bydd datblygu tir yn effeithio ar adnoddau pridd, gan gynnwys colli adnoddau pridd yn ffisegol a difrod iddynt, trwy halogiad tir a difrod strwythurol. Gallai effeithiau anuniongyrchol hefyd ddeillio o newidiadau yn y drefn ddŵr leol, cynnwys deunydd organig, bioamrywiaeth pridd a phroses pridd.
- 4.288 Lle mae halogiad tir sy'n bodoli eisoes yn cael ei ystyried o fewn datblygiad, y nod yw sicrhau bod y safle'n addas ar gyfer ei ddefnydd bwriadedig. Byddai angen ystyried risgiau yn unol â'r canllawiau statudol ar dir halogedig o leiaf.⁶⁶
- 4.289 Mae Lleiniau Glas, a ddiffinnir mewn cynllun datblygu awdurdod cynllunio lleol yn Lloegr neu gynlluniau datblygu strategol rhanbarthol yng Nghymru⁶⁷, wedi'u lleoli o amgylch rhai dinasoedd ac ardaloedd adeiledig mawr. Nod sylfaenol polisi'r Llain Las yw atal ymlediad trefol trwy gadw tir ar agor yn barhaol; nodweddion hanfodol Lleiniau Glas yw eu natur agored a pharhaus. Am ragor o wybodaeth ynghylch dibenion polisi Lleiniau Glas gweler adran 13 o'r NPPF neu unrhyw olynydd iddo.

Asesiad yr ymgeisydd

- 4.290 Dylai'r Datganiad Amgylcheddol nodi defnyddiau tir presennol ac arfaethedig⁶⁸ ger y prosiect, yn ogystal ag unrhyw effeithiau o ddisodli datblygiad neu ddefnydd presennol o'r safle gyda'r prosiect arfaethedig neu atal datblygiad neu ddefnydd ar safle cyfagos rhag parhau. Dylai ymgeiswyr hefyd asesu unrhyw effeithiau o atal datblygiad neu ddefnydd newydd a gynigir yn y cynllun datblygu.
- 4.291 Bydd angen i ymgeiswyr ymgynghori â'r gymuned leol ar eu cynigion i adeiladu ar ofod agored, seilwaith gwyrdd, adeiladau a thir chwaraeon neu hamdden. Gan ystyried yr ymgynghoriadau, dylai ymgeiswyr ystyried darparu gofod agored newydd neu ychwanegol, gan gynnwys seilwaith gwyrdd, cyfleusterau chwaraeon neu hamdden, i gymryd lle unrhyw golledion o ganlyniad i'w cynnig. Wrth ystyried cynigion ar gyfer seilwaith gwyrdd, dylai ymgeiswyr gyfeirio at y Fframwaith Seilwaith Gwyrdd. Dylai ymgeiswyr ddefnyddio unrhyw asesiad cyfredol gan yr awdurdod lleol neu, os nad oes un, darparu asesiad annibynnol i ddangos a yw'r gofod agored, yr adeiladau a'r tir chwaraeon a hamdden presennol yn ormod i'r anghenion. Lle cynigir caffael gorfodol, rhaid bodloni gofynion adran 131 Deddf Cynllunio 2008.
- 4.292 Yn ystod unrhyw drafodaethau cyn-ymgeisio gyda'r ymgeisydd, dylai'r awdurdod cynllunio lleol (LPA) nodi unrhyw bryderon sydd ganddo ynghylch effeithiau'r cais ar ddefnydd tir, gan ystyried y cynllun datblygu a cheisiadau perthnasol a chan gynnwys, lle bo'n berthnasol, a yw'n cytuno ag unrhyw asesiad annibynnol bod y tir yn dir dros ben.
- 4.293 Dylai ymgeiswyr geisio lleihau effeithiau ar y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas (a ddiffinnir fel tir yng ngraddau 1, 2 a 3a o'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol) ac yn ddelfrydol defnyddio tir mewn ardaloedd o ansawdd gwaeth (graddau 3b, 4 a 5). Dylai ymgeiswyr hefyd nodi unrhyw effeithiau a cheisio lleihau effeithiau ar ansawdd pridd, gan ystyried unrhyw fesurau lliniaru a gynigir. Ar gyfer

⁶⁶ <https://www.gov.uk/government/publications/contaminated-land-statutory-guidance>

⁶⁷ Neu fel arall wedi'i ddynodi felly o dan Ddeddf y Llain Las (Llundain a'r Siroedd Cartref) 1938.

⁶⁸ Er enghraifft, lle mae cais cynllunio wedi'i gyflwyno.

datblygiadau ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol, dylai ymgeiswyr sicrhau eu bod wedi ystyried y risg a achosir gan halogiad tir.

- 4.294 Dylai ymgeiswyr ddiogelu unrhyw adnoddau mwynau ar y safle arfaethedig cyn belled ag y bo modd, gan ystyried potensial hirdymor y defnydd tir ar ôl i unrhyw ddatgomisiynu yn y dyfodol ddigwydd.
- 4.295 Mae'r polisïau cyffredinol sy'n rheoli datblygiad yng nghefn gwlad yn berthnasol gyda'r un grym mewn Lleiniau Glas, ond mae, yn ogystal, rhagdybiaeth gyffredinol yn erbyn datblygiad amhriodol ynddynt. Ni ddylid cymeradwyo datblygiad o'r fath, ac eithrio mewn amgylchiadau arbennig iawn. Felly, dylai ymgeiswyr benderfynu a yw eu cynnig, neu unrhyw ran ohono, o fewn Llain Las sefydledig ac, os yw, a allai eu cynnig fod yn ddatblygiad amhriodol o fewn ystyr y polisi Llain Las – gweler paragraff 4.308 isod.
- 4.296 Fodd bynnag, gall mewnlenni neu ailddatblygu safleoedd datblygedig mawr yn y Llain Las, os caiff ei nodi fel y cyfryw gan yr awdurdod cynllunio lleol, fod yn addas ar gyfer rhai mathau o seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol. Gall helpu sicrhau swyddi a ffyniant heb niweidio'r Llain Las ymhellach, neu hyd yn oed gynnig y cyfle i wella'r amgylchedd ymhellach. Dylai ymgeiswyr gyfeirio at y meini prawf perthnasol⁶⁹ ar ddatblygiadau o'r fath mewn Lleiniau Glas.
- ## Lliniaru
- 4.297 Dylai ymgeiswyr osgoi, ac yna lleihau effeithiau uniongyrchol prosiect ar ddefnydd presennol y safle arfaethedig, neu ddefnyddiau arfaethedig ger y safle, trwy gymhwyso egwyddorion dylunio da, gan gynnwys cynllun y prosiect.
- 4.298 Lle mae seilwaith gwyrdd yn cael ei effeithio, dylai'r penderfynwr, os oes angen, ystyried gosod gofynion i sicrhau bod cysylltedd y rhwydwaith seilwaith gwyrdd yn cael ei gynnal a bod unrhyw waith angenrheidiol yn cael ei wneud, lle bo modd, i liniaru unrhyw effaith andwyol a, lle bo'n briodol, i wella'r rhwydwaith hwnnw ac ardaloedd eraill o fannau agored, gan gynnwys mynediad priodol at lwybrau mynediad arfordirol newydd.
- 4.299 Dylai'r penderfynwr hefyd ystyried a yw lliniaru unrhyw effeithiau andwyol ar seilwaith gwyrdd neu fannau agored wedi'i ddarparu'n ddigonol trwy unrhyw rwymedigaethau cynllunio, er enghraifft i gyfnewid tir a darparu ar gyfer cytundebau rheoli a chynnal a chadw priodol. Dylai unrhyw dir cyfnewid fod o leiaf cystal o ran maint, defnyddioldeb, atyniad, ansawdd a hygrychedd. Fel arall, lle mae adrannau 131 a 132 PA08 yn berthnasol, bydd angen i dir amnewid a ddarperir o dan yr adrannau hynny gydymffurfio â gofynion yr adrannau hynny.
- 4.300 Lle mae datblygiad arfaethedig yn effeithio ar Ardal Diogelu Mwynau (MSA), dylai'r penderfynwr sicrhau bod mesurau lliniaru priodol wedi'u rhoi ar waith i ddiogelu adnoddau mwynau.

⁶⁹ Gweler y Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol.

- 4.301 Lle mae gan brosiect effaith sterileiddio ar ddefnydd tir, efallai y bydd lle i liniaru hyn trwy, er enghraifft, ddefnyddio'r tir ar gyfer cadwraeth natur neu goridau bywyd gwyllt, neu ar gyfer parcio a storio mewn ardaloedd cyflogaeth.
- 4.302 Mae hawliau tramwy, Llwybrau Cenedlaethol a hawliau mynediad eraill i dir (e.e. tir mynediad agored) yn gyfleusterau hamdden pwysig, e.e. i gerddwyr, beicwyr a marchogion. Dylai'r penderfynwr ddisgwyl i ymgeiswyr gymryd mesurau lliniaru priodol i fynd i'r afael ag effeithiau andwyol ar fynediad arfordirol, Llwybrau Cenedlaethol a hawliau tramwy eraill. Lle nad yw hyn yn wir, dylai'r penderfynwr ystyried pa ofynion lliniaru priodol a allai fod ynghlwm wrth unrhyw ganiatâd datblygu a roddir.
- 4.303 Dylid ystyried hefyd effaith disodli defnyddwyr cychod hamdden neu gyfleusterau cychod hamdden yn ardal y datblygiad, gan gynnwys clybiau, canolfannau hyfforddi, marinas, mynediad i lithrfeydd a lle ar y dŵr yn ogystal ag ar y lan.

Canllawiau i'r penderfynwr

- 4.304 Pan fo'r prosiect yn gwrthdaro â chynnig mewn cynllun datblygu, dylai'r penderfynwr ystyried y cam y mae'r ddogfen cynllun datblygu yn Lloegr neu'r cynllun datblygu lleol yng Nghymru wedi'i gyrraedd wrth benderfynu pa bwysau i'w roi i'r cynllun at ddibenion pennu arwyddocâd cynllunio'r hyn sy'n cael ei ddisodli, ei atal neu ei wahardd. Po agosaf yw'r ddogfen cynllun datblygu yn Lloegr neu'r cynllun datblygu lleol yng Nghymru at gael ei mabwysiadu gan yr LPA, y mwyaf yw'r pwysau y gellir ei roi iddi. Yn y pen draw, fodd bynnag, os bydd unrhyw wrthdaro, bydd yr NPS hwn yn cael blaenoriaeth.
- 4.305 Ni ddylai'r penderfynwr roi caniatâd ar gyfer datblygu ar fannau agored, adeiladau a thir chwaraeon a hamdden presennol oni bai bod asesiad wedi'i gynnal naill ai gan yr awdurdod lleol neu'n annibynnol, sydd wedi dangos bod y man agored neu'r adeiladau a'r tir yn ormod i anghenion, neu fod y penderfynwr yn penderfynu bod manteision y prosiect (gan gynnwys yr angen) yn gorbwyso'r golled bosibl o gyfleusterau o'r fath, gan ystyried unrhyw gynigion cadarnhaol a wnaed gan yr ymgeisydd i ddarparu tir neu gyfleusterau newydd, gwell neu i wneud iawn. Dim ond lle gall ymgeiswyr arddangos y byddant yn cael eu disodli gan gyfleusterau o faint neu ansawdd cyfatebol neu well mewn lleoliad addas y dylid caniatáu colli meysydd chwarae.
- 4.306 Lle mae rhwydweithiau o seilwaith gwyrdd wedi'u nodi mewn cynlluniau datblygu, dylid eu diogelu rhag datblygiad fel arfer, a lle bo modd, eu cryfhau ganddo neu eu hintegreiddio ynddo.
- 4.307 Dylai'r penderfynwr sicrhau nad yw ymgeiswyr yn lleoli eu cynlluniau ar y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas heb gyfiawnhad. Dylai roi ychydig o bwyslais ar golli tir amaethyddol o ansawdd gwaeth (yng ngraddau 3b, 4 a 5), ac eithrio mewn ardaloedd (megis ucheldiroedd) lle gallai arferion amaethyddol penodol eu hunain gyfrannu at ansawdd a chymeriad yr amgylchedd neu'r economi leol.
- 4.308 Wrth ystyried yr effaith ar gynnal safleoedd a nodweddion hamdden arfordirol, dylai'r penderfynwr ddisgwyl i ymgeiswyr fod wedi manteisio ar gyfleoedd i gynnal a

gwella mynediad i'r arfordir. Wrth wneud hynny, dylai'r penderfynwr ystyried y goblygiadau ar gyfer datblygu o greu llwybr parhaus wedi'i arwyddo a'i reoli o amgylch yr arfordir, fel y darperir ar ei gyfer yn MCAA09 a hwyluso cadwraeth llwybr o'r fath.

4.309 Pan fyddant wedi'u lleoli yn y Llain Las, gallai prosiectau seilwaith porthladd gynnwys 'datblygiad amhriodol'. Mae datblygiad amhriodol, yn ôl y diffiniad, yn niweidiol i'r Llain Las ac mae rhagdybiaeth yn ei erbyn, ac eithrio yn achos datblygiad ar dir a ddatblygwyd o'r blaen, lle nad yw datblygiad yn amhriodol. Bydd angen i'r penderfynwr asesu a oes amgylchiadau arbennig iawn i gyfiawnhau datblygiad amhriodol. Ni fydd amgylchiadau arbennig iawn yn bodoli oni bai bod y niwed oherwydd amhriodoldeb, ac unrhyw niwed arall, yn cael ei orbwyso'n glir gan ystyriaethau eraill. Yng ngoleuni'r rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad amhriodol, bydd y penderfynwr yn rhoi pwysau sylweddol ar y niwed i'r Llain Las wrth ystyried unrhyw gais am ddatblygiad o'r fath.

4.310 Yng Nghymru, gellir dynodi 'lletemau glas' yn lleol.⁷⁰ Mae lletemau glas yn rhoi'r un amddiffyniad yng Nghymru â Llain Las yn Lloegr. Nid yw lletemau glas yn cyfleu'r un lefel o natur barhaol â Llain Las a dylai'r awdurdod lleol eu hadolygu fel rhan o'r broses adolygu cynllun datblygu. Fel gyda Llain Las, mae rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad amhriodol, a dylai'r penderfynwr asesu a oes amgylchiadau arbennig iawn i gyfiawnhau unrhyw ddatblygiad amhriodol arfaethedig.

DfT

Gorffennaf 2026

⁷⁰ Gweler adran 4.7 o Bolisi Cynllunio Cymru (4e).

Geirfa

Defnyddir yr acronymau, y talfyriadau a'r termau a restrir isod naill ai yn y datganiad polisi hwn, neu gellir eu canfod mewn mannau eraill mewn dolenni cysylltiedig:

AoS	Asesiad Cynaliadwyedd
BNG	Enillion Net Bioamrywiaeth
BS	Safon Brydeinig
CO ₂	Carbon deuocsid
CPNI	Canolfan Diogelu Seilwaith Cenedlaethol, gweler hefyd NPSA
DEFRA	Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
DESNZ	Adran Diogelwch Ynni a Sero Net
DfT	Adran Drafnidiaeth
EA	Asiantaeth yr Amgylchedd
EfW	Ynni o wastraff
EIA	Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol
EOR	Adrodd Canlyniadau Amgylcheddol
EP	Trwyddedu Amgylcheddol
EPA	Deddf Diogelu'r Amgylchedd
ES	Datganiad Amgylcheddol
UE	Undeb Ewropeaidd
FLOW	Gwynt Ar y Môr Arnofiol
FRA	Asesiad Perygl Llifogydd
GHG	Nwyon Tŷ Gwydr
Ha	Hectar: 1Ha ≈ 2.47 erw
HA64	Deddf Harbyrau 1964
HGV	Cerbyd nwyddau trwm
hi-cube	Cynhwysydd 9 troedfedd 6 modfedd o uchder
HRA	Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
HRO, HEO	Gorchymyn Adolygu/Grymuso Harbwr
HSE	Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
IEMA	Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol
IMO	Sefydliad Morwrol Rhyngwladol
IROPI	Rhesymau hanfodol sef er Budd Cyhoeddus tra Phwysig
ISEP	Sefydliad Gweithwyr Proffesiynol Cynaliadwyedd ac Amgylcheddol
JNCC	Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur
LPA	Awdurdod cynllunio lleol
LURA	Deddf Ffyniant Bro ac Adfywio 2023
MCA	Asiantaeth Forol a Gwylwyr y Glannau
MCAA	Deddf Mynediad Morol ac Arfordirol 2009
MCZ	Parth Cadwraeth Morol
MHCLG	Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol
MMO	Sefydliad Rheoli Morol
MNG	Enillion Net Morol
MoD	Y Weinyddiaeth Amddiffyn
MPA	Ardal Forol Warchodedig
MPS	Datganiad Polisi Morol
NCSC	Canolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol
NE	Natural England
NH	Prifffyrdd Cenedlaethol
NISTA	Awdurdod Cenedlaethol Seilwaith a Thrawsnewid Gwasanaethau
NIU	Uned Seilwaith Cenedlaethol
NPS	Datganiad Polisi Cenedlaethol
NPSA	Awdurdod Diogelwch Amddiffynnol Cenedlaethol (wedi disodli CNSI)
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
NSIP	Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol
PA08	Deddf Cynllunio 2008
PIns/PINS	Arolygiaeth Gynllunio
PM _{2.5}	Mater gronynnol hyd at 2.5 micron mewn diamedr
PPG	Canllawiau Polisi Cynllunio

pSPA	Ardal Gwarchodaeth Arbennig Posibl
Ro-ro	Gyrru i mewn ac allan (cludiant fferi nwyddau, weithiau'n cynnwys cerbydau masnach a/neu deithwyr a'u cerbydau)
SAC	Ardal Cadwraeth Arbennig
SEA	Asesiad Amgylcheddol Strategol
SECA	Ardal Rheoli Allyriadau SO ₂ (ar y môr)
SO ₂	Sylffwr deuocsid
SPA	Ardal Gwarchodaeth Arbennig
SoDdGA	Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
SuDS	Systemau Draenio Cynaliadwy
TCPA	Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd)
teu	Uned gyfwerth ag ugain troedfedd (mesur safonol o gyfaint cynhwysydd; mae cynwysyddion deugain troedfedd (2 teu yr un) yn gynyddol gyffredin)
Trawslwytho	Trosglwyddo nwyddau (fel arfer cynwysyddion) o un llong i'r llall trwy borthladd
TSO	Y Llyfrfa
W10	Mesurydd llwytho rheilffordd sy'n caniatáu defnyddio cynwysyddion 9 troedfedd 6 modfedd
LIC	Llywodraeth Cymru
WHS	Safle Treftadaeth y Byd

